



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24





CYNNWYS

Adroddiad strategol

Gwybodaeth am Trafnidiaeth Cymru	4
Datganiad y Prif Swyddog Gweithredol	5
Datganiad y Cadeirydd	6
Ein strwythur	7
Neges gan Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth	8
Adroddiad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu	9
Da i'r blaned	14
Refeniw a thocynnau	17
Rheilffyrdd a seilwaith	19
Bysiau	22
Sylw ar Wynedd	24
Trafnidiaeth integredig	25
Cerdded, mynd ar olwynion a beicio	28
Cysylltu cymunedau gwledig a threfol	30
Ail-ddychmygu ffyrdd	34
Datblygu cynaliadwy	36
Diogelwch, diogeledd a risg	38
Gweithio gyda chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid	40
Diwylliant, yr iaith Gymraeg a threftadaeth	42
Ein cydweithwyr a'n diwylliant	44
Risg	49
Datganiad Adran 172	54

Llywodraethu

Ein Bwrdd	58
Pwyllgorau'r Bwrdd ac adroddiadau gan eu cadeiryddion	63
Datganiad llywodraethu corfforaethol	71
Datganiad cydnerthedd	77
Datganiad Gwybodaeth Anariannol a Chynaliadwyedd	79
Adroddiad taliadau	88
Adroddiad y cyfarwyddwyr	91

Datganiadau ariannol

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru	95
Datganiad incwm cyfunol	99
Datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol	100
Datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti	101
Datganiad cyfunol o lifoedd arian	102
Datganiad y cwmni am y sefyllfa ariannol	103
Datganiad y cwmni am newidiadau mewn ecwiti	104
Nodiadau	105



CIPOLWNG AR Y FLWYDDYN



Lansiwyd

Bws Trydan T22

rhwng Blaenau Ffestiniog,
Porthmadog
a Chaernarfon

Blaenau Ffestiniog

Porthmadog

Dechreuwyd
defnyddio

46

o drenau 197
newydd ym mis
Mawrth 2024



Sicrhawyd cynnydd o

15%

mewn referniw rheilffyrdd
ers y llynedd

Sicrhawyd gostyngiad
mewn amseroedd ymatebi
gwynion cwsmeriaid o 15
diwrnod gwaith i 4 diwrnod
gwaith ar gyfartaledd



Ail-agorwyd Llinell

Treherbert

Dosbarthwyd

£46 miliwn

mewn cyllid
teithio
llesol

Llofododd
James Price

Addewid Dim Hiliaeth Cymru

ar ran TrC



500

o gamerâu corff ar gael i'n
cydweithwyr

Enillwyd

Gwobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Gorau

yn Sefydliad Siartredig Personél
a Datblygu Cymru



Gwelwyd gostyngiad o
mewn tresmasu ar
Linellau Craidd y Cymoedd

45%



Gwnaethom
lansio mwy na

30

o deithiau cerdded
newydd o orsafoedd
rheilffordd ledled Cymru

Cododd ein
cydweithwyr

£14,000

i Ambiwlans
Awyr Cymru



Cyflogwyd

20 o Gymdeithion Teithio

i roi cymorth penodol i
deithwyr trenau



TrawsCymru

24%

mwy o deithwyr
ar fysiau
TrawsCymru

Bae Caerdydd



GWYBODAETH AM TRAFNIDIAETH CYMRU

Gweledigaeth

Ffordd orau o deithio
yng Nghymru

Cenhadaeth

Un rhwydwaith,
un amserlen,
un tocyn,
un tîm

Pwrpas

Rydym yn helpu pobl i deithio mewn
ffyrdd sy'n dda i'r blaned, yn dda i'r
boced ac yn dda i fywyd go iawn.

Gwerthoedd

Un tîm ydym ni
Rydym yn gwneud y peth iawn
Rydym yn herio ein hunain





DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

James Price



Rydym wedi bod yn datblygu ac yn cyhoeddi llawer o gynlluniau i wella trafniadaeth i bobl Cymru a'r gororau dros y pum mlynedd diwethaf. Er bod llawer i'w wneud o hyd, gwelwyd effeithiau cadarnhaol y cynlluniau a'r newidiadau hyn dros y flwyddyn ddiwethaf wrth iddynt gael eu cyflawni ar draws Rhwydwaith TrC.

Mae cymunedau ledled Cymru yn dechrau gweld y canlyniadau. Er mwyn cynyddu capasiti'r rhwydwaith rheilffyrdd, rydym wedi dechrau defnyddio 46 o'n trenau newydd ac wedi cynyddu nifer y cerbydau ar ein trenau. Mae trenau newydd yn rhedeg bob hanner awr ar Reilffordd Rhymni. Rydym wedi bod yn trydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn raddol ac yn gwella Llinell Bae Caerdydd, gan wireddu'r addewid am Fetro De Cymru. Yn sgil gwella amserlenni rhwng Wrecsam a Bidston mae mwy o wasanaethau rheilffyrdd nag erioed yn rhedeg bob dydd ar y llinell honno. Mae teithwyr bysiau ar wasanaethau TrawsCymru wedi cynyddu 24% ers y llynedd. Rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo'r defnydd o deithio llesol ar gyfer teithiau bob dydd. Mae mwy o drigolion lleol a thwristiaid bellach yn cael budd o wasanaethau bysiau gwell ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Anaml y mae newid radical yn hawdd. Hoffwn ddiolch i'r cymunedau sydd wedi ysgwyddo baich y newid hwn. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, cawsom broblemau â dibynadwyedd ac argaeledd ein trenau hyn. Arweiniodd hyn at orlenwi a chanslo trenau. Serch hynny, gwnaethom weithio'n galed i gyflymu'r broses o ddechrau defnyddio trenau newydd ac, erbyn mis Mawrth 2024, roeddem wedi llwyddo i ddileu'r prinder i raddau helaeth. Gwasanaethu'r cyhoedd ydy un o'r pethau gorau am fy swydd. Mae'n rhaid gwneud hynny'n iawn. Wrth i TrC barhau i ddatblygu, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydym wedi gweithio'n galed i'w chael i hwyluso'r ffordd i'r bobl a'r cymunedau yr effeithir arnynt yn y dyfodol.

Mae'r un mor bwysig inni ddarparu gwerth am arian i'r cyhoedd a'r trethdalwr. Mae angen rhyw fath o gymhorthdal cyhoeddus ar bron pob gwasanaeth rydym yn ei redeg. Eleni rydym wedi gweithio'n galed i leihau ein dibyniaeth ar gymorthdaliadau, ac roedd gwerthiant tocynnau trên wedi codi 15% ers y llynedd. Byddaf yn ceisio cynnal y trywydd hwn am i fyny a lliniaru risgiau drwy barhau i gyflwyno trenau newydd ac addasu amserlenni.

Mae'r adroddiad hwn yn brawf o waith caled pob cydweithiwr yn TrC, o yrwrwr a goruchwylwyr, glanhawyr a gweithwyr proffesiynol ym maes profiad y cwsmer, i gynllunwyr a thimau adeiladu. Hebddynt, ni fyddai ein llwyddiannau wedi bod yn bosibl. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n Cadeirydd Scott Waddington, y Bwrdd a'r partneriaid am eu gwaith caled, eu her adeiladol a'u cefnogaeth.



15%

yw'r cynnydd mewn refeniw
rheilffyrdd ers y llynedd

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Scott Waddington



Mae gweld ein prosiectau'n dwyn ffrwyth eleni wedi fy nharo fel arwydd ffisegol o uchelgais TrC. Gwnaethom ailagor rheilffordd Treherbert, gan newid system signalau a oedd yn dyddio'n ôl i oes Fictoria.

Mae trenau newydd yn rhedeg ar Reilffordd Rhymni a Chwm Ebwy. Gwnaethom helpu i gyflwyno bysiau trydan yng Ngwynedd. Mae Cymru'n haeddu'r gwelliannau modern a buddiol hyn i drafnidiaeth.

Rwy'n croesawu ein perthynas waith agosach gydag awdurdodau lleol. Bydd cynlluniau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru i fasnachfreinio'r rhwydwaith a'r gwasanaethau bysiau yn golygu ein bod yn cydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol. Yng Ngwynedd, er enghraifft, mae'r cydweithio hwnnw eisoes wedi arwain at wasanaethau bysiau gwell ar draws y sir. Rydym wedi llunio pecyn cymorth teithio llesol i helpu awdurdodau lleol i hyrwyddo seilwaith newydd ac ymgyrchoedd lleol. Er mwyn manteisio ar drefniadau cydweithio nawr ac yn y dyfodol, gwnaethom groesawu Andrew Morgan fel cynrychiolydd awdurdodau lleol yn ein cyfarfodydd Bwrdd.

Mae llawer mwy i ddod. Bydd Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd yn canoli teithio yn ein prifddinas. Bydd gwelliannau i Linell Bae Caerdydd yn cynnig opsiynau teithio gwell yn Butetown ac ardal y Bae. Bydd parhau i drydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn cysylltu cymunedau lleol â chyfleoedd gwaith a hamdden. Bydd ein gwaith yng Ngogledd Cymru yn gwella mynediad at iechyd, addysg a chyfleoedd gwaith. Bydd mwy o'n trenau newydd yn cael eu defnyddio ledled Cymru a'r gororau. Rydym yn awyddus i helpu awdurdodau lleol i gyflwyno clybiau ceir i leihau'r angen i fod yn berchennog ar gar mewn ardaloedd gwledig.

Yn yr un modd ag y mae'n bwysig dathlu pan fydd pethau wedi mynd yn iawn, mae'r un mor bwysig cydnabod lle gellir gwella pethau. Un o'r heriau mwyaf a wynebwn yw cynyddu ein refeniw fel ein bod yn dibynnu llai ar gymorthdaliadau cyhoeddus. Gyda'r cyllidebau llywodraethol tynn presennol, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni fod mor effeithlon â phosibl. Dros y flwyddyn nesaf, byddaf yn parhau i flaenoriaethu'r effeithlonrwydd hwn, gan ddarparu gwell gwerth am arian i'n holl gwsmeriaid a defnyddwyr. Os ydym am barhau i fod yn weithredwr trafnidiaeth cyfrifol, mae'n rhaid inni gydbwysu'r angen am wasanaeth cadarn a dibynadwy o fewn ein cyllidebau.

Rhaid inni feddwl hefyd am y tymor hir. Mae newid yn yr hinsawdd yn risg fawr i wydnwch ein rhwydwaith trafnidiaeth. Mae gwneud trafnidiaeth yn gynaliadwy yn rhan bwysig o fynd i'r afael â'r argyfwng hwn. Er mwyn lleihau allyriadau carbon, rydym yn trydaneiddio'r rheilffyrdd. Rydym yn annog mwy o bobl yn y sector preifat ac awdurdodau lleol i wefru cerbydau trydan. Ar draws ein rhwydwaith, rydym yn rhoi'r gorau i ddefnyddio plastig untro. Bydd rheoli'r risg o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn bryder mawr dros y blynyddoedd nesaf ac yn un a fydd yn cael ei fonitro'n ofalus.

Hoffwn ddiolch i'n Bwrdd am eu cefnogaeth a'u cyfraniad parhaus dros y flwyddyn. Mae James Price, ein Prif Swyddog Gweithredol, wedi cyflawni llawer i fod yn falch ohono eleni. Mae ganddo gefnogaeth tîm arwain ymroddedig, ac mae'n cael llawer o gymorth ganddynt.

Mae'n bwysig cofio ein bod yn adeiladu rhywbeth i Gymru. Mae'r cydweithwyr rwyf wedi cwrdd â nhw eleni wedi ymgorffori'r awydd hwn i gyfrannu at y prosiect mwy hwn. Pan fydd pethau'n mynd o chwith, maen nhw yno i gamu i mewn a gwella pethau. Eu gwaith caled nhw sydd wedi adeiladu rheilffyrdd, gwasanaethu cwsmeriaid a chynyddu refeniw. Mae wedi bod yn flwyddyn anodd ond gyda digon i'w dathlu. Hoffwn ddiolch o galon am sut mae ein cydweithwyr wedi ymateb i'r holl heriau eleni, ac rwy'n eu hannog i roi o'u hamser i gydnabod eu llwyddiannau niferus.



EIN STRWYTHUR

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Rydym yn sefydliad nid-er-elw. Mae gennym bedwar is-gwmni gweithredol: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig (Rheilffyrdd TrC), Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig, Pullman Rail Limited a TfW Fibre Limited.

Mae Rheilffyrdd TrC yn gyfrifol am redeg gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd ar hyd rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Cafodd Rheilffyrdd TrC ei greu fel Gweithredwr y Dewis Olaf a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan olynu KeolisAmey Cymru fel gweithredwr y rhwydwaith ym mis Chwefror 2021.

Mae Rheilffyrdd TrC yn rheoli 248 o orsafoedd ac yn gweithredu'r holl brif wasanaethau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cysylltu Cymru â Chaer, Amwythig, Lerpwl, Manceinion, Crewe, Bidston a Cheltenham.

Mae Pullman Rail Limited yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Mae Pullman Rail Limited yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd, atebion peirianyddol arbenigol, uwchraddio a thrwsio cerbydau, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd cludo nwyddau a theithwyr.

Mae Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig yn fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. TrC sydd â'r rhan fwyaf o gyfranddaliadau. Mae'r cwmni'n darparu arbenigedd a gallu arbenigol i sbarduno arloesedd a newid ar gyfer grŵp ehangach TrC, gan eu galluogi i ddarparu system drafnidiaeth aml-ddull integredig ar gyfer pobl Cymru a'r gororau.

Sefydlwyd TfW Fibre Limited ddechrau 2024 i wneud defnydd masnachol o'r capasiti ffeibr dros ben a osodwyd yn bennaf i gludo ein signalau gweithredol a'r cyfathrebu sydd ei angen i redeg y rheilffordd. Mae'r ffeibr ar gael drwy uwchraddio a moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Gellir defnyddio'r capasiti dros ben hwn yn awr i gefnogi gwasanaethau cyfathrebu yn yr ardal.



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Rheilffyrdd Trafnidiaeth
Cymru Cyfyngedig**

Cwmni dan berchnogaeth
lwyr Trafnidiaeth Cymru

**Pullman Rail
Limited**

Cwmni dan berchnogaeth
lwyr Trafnidiaeth Cymru

**Gwasanaethau
Arloesi TrC**

Menter ar y cyd rhwng
Trafnidiaeth Cymru,
Keolis ac Amey

**TfW Fibre
Limited**

Cwmni dan berchnogaeth
lwyr Trafnidiaeth Cymru

Neges gan KEN SKATES AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth



Rwy'n falch o'r ffordd unigryw rydym yn ymdrin â thrafnidiaeth yng Nghymru sy'n seiliedig ar ein perthynas â theithwyr, ein cydweithrediad â chymunedau, a'n partneriaeth gymdeithasol â gweithwyr. O ganlyniad, ledled Cymru, mae ein cwsmeriaid ar y rheilffyrdd yn gweld newidiadau pendant yn sgil mwy o wasanaethau, trenau newydd a pherfformiad gwell. Cyn bo hir, bydd 90% o deithiau yn cael eu gwneud ar drenau newydd mwy cyfforddus, mwy dibynadwy a mwy hygyrch ar draws pob rhan o Gymru. Ar Linellau Craidd y Cymoedd, rydym wedi cymryd cam enfawr tuag at rwydwaith trafndiaeth o fath Metro.

Fodd bynnag, mae cryn ffordd i fynd o hyd, yn enwedig mewn ardaloedd y tu allan i de-ddwyrain Cymru. Gwyddom nad yw perfformiad bob amser wedi bod mor uchel ag yr ydym yn ei ddisgwyl. Mae newid fflyd gyfan ar yr un pryd â darparu un o'r rhaglenni seilwaith mwyaf a mwyaf cymhleth yng Nghymru wedi bod yn heriol, ond mae teithwyr yn dechrau cael budd o'r buddsoddiad hwn erbyn hyn yn ogystal â'n dycnwch i ddarparu rhwydwaith trafndiaeth modern y mae pobl yng Nghymru yn ei haeddu.

Mae tua thri chwarter o'r holl deithiau ar drafndiaeth gyhoeddus yn cael eu gwneud ar fws. Mae'n wasanaeth hanfodol i'r un o bob pump o gartrefi yng Nghymru sydd heb fynediad at gar. Dros y blynyddoedd nesaf, bydd TrC yn gweld twf sylweddol yn ei gyfrifoldebau dros gynllunio gwasanaethau a rhwydweithiau bysiau. Bydd deddfwriaeth masnachfreinio bysiau newydd yn golygu bod yn rhaid i TrC arwain y gwaith o gydweithio ac ymgysylltu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau bod gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl drwy rwydweithiau, amserlenni a thocynnau integredig.

Rwy'n croesawu ac yn cefnogi TrC i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol lle bydd yn cefnogi cydweithio ar draws sectorau, yn gwella integreiddio rhwng rhwydweithiau, ac yn hyrwyddo dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy. Mae cyfrifoldebau newydd yn gofyn am ddulliau newydd o lywodraethu a chraffu. Rwy'n croesawu cynnwys Llywodraeth Cymru ac arsylwyr awdurdodau lleol ar Fwrdd TrC a chyhoeddi dangosyddion corfforaethol a pherfformiad teithio aml-ddull newydd TrC a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd, gwella tryloywder a chefnogi atebolrwydd.

Er fy mod yn cydnabod manteision sylweddol rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus cynhwysfawr a hygyrch, gan gynnwys cefnogi'r rhai sydd heb gar a'r cyfleoedd mae'n ei gynnig i deithio'n gynaliadwy, rwyf hefyd yn bragmatig ynghylch rôl ceir o ran cefnogi cymunedau gwledig a'r economi. Yn aml, mae angen car ar bobl er mwyn cael mynediad at amwynderau sylfaenol ac rwy'n cefnogi gwaith TrC gydag awdurdodau lleol i sefydlu clybiau ceir, sy'n galluogi cymunedau gwledig i gael mynediad fforddiadwy a hyblyg at geir.

Dechreuais yn fy swydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth ym mis Mawrth 2024. Felly, mae llawer o'r adroddiad blynyddol hwn yn ymdrin â gwaith fy rhagflaenydd, Lee Waters AS; hoffwn ddiolch iddo am ei gyfarwyddyd a'i arweiniad. Rwy'n falch o ba mor bell mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu ers iddo gael ei sefydlu, a'i lwyddiannau hyd yma, ac edrychaf ymlaen at ddyfodol y rhwydwaith-T gydag un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn ac un tîm yn ganolog iddo.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWEITHREDOL CYLLID A LLYWODRAETHU

Heather Clash



Mae wedi bod yn flwyddyn o drawsnewid a chyflawni parhaus i TrC. Rydym wedi gweld refeniw rheilffyrdd yn parhau i gynyddu, ac er ein bod yn dychwelyd i lefelau cyn y pandemig, mae'n amlwg bod y diffyg twf yn ystod y blynyddoedd hynny yn golygu bod TrC wedi wynebu anghenion cyllid ychwanegol.

Rydym wedi dathlu ailagor seilwaith rheilffyrdd fel rheilffordd Treherbert ac rydym yn cwblhau ein depo newydd yn Ffynnon Taf. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn niferoedd teithwyr ar fysiau ar lwybrau TrawsCymru. Er mwyn gwella teithio llesol ledled Cymru, rydym wedi dosbarthu £46 miliwn i awdurdodau lleol i gefnogi seilwaith.

Mae ein gwaith seilwaith rheilffyrdd a'n buddsoddiad mewn trenau newydd yn parhau i gynrychioli'r rhan fwyaf o'n gwariant cyfalaf. Bydd y rhain yn ein galluogi i adeiladu rheilffordd fodern yng Nghymru. Lle bynnag y bo modd, rydym wedi lliniaru effaith y gwaith hwn drwy ddarparu bysiau a chynnig teithiau am bris gostyngol i'r cymunedau yr effeithir arnynt. Mae anawsterau gyda cherbydau trên wedi golygu ei bod wedi cymryd tan ail hanner y flwyddyn ariannol i redeg y gwasanaeth rheilffyrdd dibynadwy mae ein cwsmeriaid yn ei haeddu. Rydym yn gweithio'n agosach gyda Network Rail ac Amey Infrastructure, gan gydweithio i wneud trenau yn fwy prydlon ac i leihau nifer y trenau sy'n cael eu canslo.

Rydym yn cynllunio mwy ac yn darparu canllawiau ar fysiau a theithio llesol yng Nghymru. Mae'r datblygiad hwn yn creu cyfleoedd yn ogystal â risgiau. Byddwn yn ceisio rheoli'r risgiau hyn—i'r graddau y maent o fewn ein rheolaeth—drwy ein strwythurau llywodraethu, recriwtio wedi'i dargedu a dyluniad sefydliadol. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gwnaethom gyhoeddi map at fasnachfaint eleni a fydd yn arwain ein gwaith ar wella'r rhwydwaith bysiau yng Nghymru. Ar gyfer awdurdodau lleol, gwnaethom gynhyrchu pecyn cymorth ar gyfer hyrwyddo teithio llesol er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r seilwaith newydd.

Bydd cynyddu refeniw teithwyr rheilffyrdd yn hanfodol i lwyddiant parhaus TrC. Mae refeniw teithwyr rheilffyrdd wedi adfer yn dda tuag at lefelau cyn pandemig y coronafeirws (tebyg iawn os nad gwell na chwmmniau trên eraill yn y DU). Mae bwlch cyllido o hyd oherwydd pwysau chwyddiant, effaith trawsnewid y gwasanaeth, ac oedi o ran lefelau twf refeniw teithwyr rheilffyrdd a ragwelwyd cyn effaith pandemig y coronafeirws. Eleni hefyd oedd blwyddyn olaf Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer ein gwaith cyfalaf. Er mwyn darparu gwerth am arian i bwrs y wlad a lliniaru risgiau ariannol, ein her dros y blynyddoedd nesaf yw sicrhau cynnydd yn ein ffrydiau refeniw teithwyr presennol ac archwilio ffynonellau refeniw newydd.

Mae tryloywder bob amser wedi bod yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn gweithredu. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyhoeddi ac yn adrodd ar gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol. Bydd y dangosyddion hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ac yn ein galluogi i fonitro ein perfformiad yn aml. Mae'r rhain yn cynnwys sawl dull teithio gan ein bod eisoes yn darparu adroddiadau perfformiad misol ar gyfer y rheilffyrdd. Bydd y rhain hefyd yn parhau i ddatblygu wrth i ni wneud mwy dros y rhwydwaith a'r gwasanaethau bysiau.



Mae ein fframwaith llywodraethiant yn cynnwys Bwrdd Trafnidiaeth Cymru, ei bwyllgorau a byrddau is-gwmnïau, y tîm arwain gweithredol a grwpiau llywodraethu. Eleni, buom yn gweithio'n agosach gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid undebau llafur i wneud yn siŵr bod eu barn yn cael ei chlywed.

Mae cefnogi lles a datblygiad cydweithwyr yn parhau i fod yn ganolog i'n llwyddiant parhaus. Buom yn gweithio gyda phartneriaid undebau llafur y rheilffyrdd i gyflwyno cytundeb tair blynedd ar gyflog a chynhyrchiant i yrwyr a goruchwylwyr. Bydd angen i ni barhau i uwchsgilio ein gweithlu, gan sicrhau bod gennym arbenigedd ar draws y dulliau teithio.

Rydym wedi cynyddu nifer y menywod mewn swyddi arwain ac sy'n gweithio fel gyrwyr trenau. Rydym yn uwchsgilio pobl ifanc i lenwi bylchau mewn sgiliau cenedlaethol. Bydd cynyddu amrywiaeth a sgiliau ein gweithlu yn sicrhau y bydd TrC yn ffynnu yn y dyfodol.

Perfformiad am y flwyddyn

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau Grŵp TrC ar gyfer y flwyddyn. Rhennir y gwariant yn ôl y math o gyllid grant. Roedd ein gwariant yn unol â'r cyllid cylch gwaith a gwariant awdurdodedig arall, a oedd yn amrywio yn ystod y flwyddyn.

Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar ffin gyllidebu llywodraeth ganolog. Nid yw'r canlyniadau'n cynnwys perfformiad Pullman Rail Limited sy'n cael ei ddsbarthu fel corfforaeth gyhoeddus hyd braich ac felly mae'r tu allan i'r ffin ac eithrio ar gyfer trafodion cyllido a dosbarthu.

Gwariant	Cyllid gan Lywodraeth Cymru (cylch gwaith ac ychwanegol)	Gwariant blynyddol terfynol (ar ôl addasiadau IFRS16)			
		Cyfanswm y gwariant (ac eithrio prosiectau masnachol)	Llai cyllid cyfalaf Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop	Llai refeniw allanol	Cyfanswm alldro a ariennir gan Lywodraeth Cymru*
Cyllideb refeniw	£351m	£565m	-	(£215m)	£350m
Cyllideb cyfalaf	£455m	£526m	(£80m)	-	£446m
Cyllideb IFRS16 cyfalaf	£308m	£270m	-	-	£270m
Cyfanswm	£1,115m	£1,361m	(£80m)	(£215m)	£1,066m

*Mae alldro Llywodraeth Cymru (ac eithrio cyfalaf IFRS16) yn cynnwys yr elfennau canlynol:

	Alldro			
	Cyllid grant gwasanaethau trên	Grantiau bysiau a theithio llesol i Awdurdodau Lleol	Cyllid grant cylch gwaith arall Llywodraeth Cymru	Cyfanswm cyllid gan Lywodraeth Cymru
Gwariant refeniw sy'n cael ei ariannu gan grant	£295m	£5m	£50m	£350m
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan grant	£46m	£46m	£354m	£446m
Cyfanswm	£341m	£51m	£404m	£796m

Mae'r cyllid grant gwasanaethau rheilffyrdd a dderbyniwyd yn ymwneud â thaliadau a wneir o dan y cytundeb grant i weithredu masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei gweinyddu gan TrC ar ran Llywodraeth Cymru.



Mae perfformiad y fasnachfaint rheilffyrdd isod. Mae refeniw rheilffyrdd yn parhau i wella o effaith pandemig y coronafeirws er mwyn cyrraedd y lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Fodd bynnag, oherwydd effeithiau'r pandemig, nid ydym wedi cyflawni'r twf graddol a ragwelwyd ar sail tybiaethau cyn y pandemig pan wnaeth Llywodraeth Cymru ddyfarnu'r contract gwasanaethau rheilffyrdd i KeolisAmey yn 2018.

Cymhorthdal refeniw masnachfaint rheilffyrdd	£m
Cyfanswm refeniw teithwyr a refeniw arall nad yw'n ymwneud â Llywodraeth Cymru	£185.6
Costau staff	(£224.3)
Taliadau cerbydau (ar sail cyn IFRS 16)	(£135.3)
Taliadau perfformiad (net incwm gan Network Rail a chwmnïau trenau eraill am darfu ar wasanaethau)	£11.2
Taliadau seilwaith	(£61.9)
Costau gweithredu eraill*	(£42.2)
Cyfanswm gwariant gweithredu	(£474.9)
Llog les IFRS16 a chostau cyllid eraill	(£6.1)
Cymhorthdal refeniw Llywodraeth Cymru sydd ei angen (ar ôl IFRS 16)	(£295.4)

*Mae'r costau gweithredu eraill yn ymwneud yn bennaf â mesurau diogelwch, prosiectau TG a digidol, ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu yn ogystal â chynlluniau yswiriant a diwydiant.

Ein datganiadau ariannol

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn dangos colled o £33 miliwn ar gyfer y flwyddyn (yn 2023, £26 miliwn). Mae TrC yn defnyddio polisi ailbriso ar gyfer ei asedau rhwydwaith rheilffyrdd, sy'n golygu bod y dibrisiant blynyddol o £57 miliwn (yn 2023, £52 miliwn) ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd yn sylweddol uwch na'r cyllid grant o £23 miliwn (yn 2023, £15 miliwn) i gaffael a gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd sy'n cael ei amortio drwy'r datganiad incwm. Felly, bydd hyn yn arwain at golled flynyddol barhaus yn y datganiad incwm yn unig. Caiff y golled hon ei gwrthbwyso drwy drosglwyddiad yn y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti o'r gronfa ailbriso i warged wrth gefn o £34 miliwn (yn 2023, £29 miliwn).

Mae'r gwarged/(colled) wrth gefn ar ôl yr addasiadau hyn wedi'u nodi isod:

Cymhorthdal refeniw	2023/24 £000	2022/23 £000
Gwarged/(colled) cyn trosglwyddo cronfeydd wrth gefn ac addasiadau caffael masnachfaint rheilffyrdd	(£33,298)	(£26,027)
Trosglwyddo arian wrth gefn	£34,423	£29,045
Symudiadau eraill mewn incwm cynhwysfawr	£354	£565
Gwarged/(colledion) wrth gefn ar gyfer y flwyddyn	£1,479	£3,583

Gan nad yw TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gwneud elw, mae'r gwarged wrth gefn yn cynnwys gwahaniaethau amseru yn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn bennaf mewn perthynas â lesioedd a threth gorfforaeth, yn ogystal â pherfformiad Pullman Rail Limited. Hefyd, pan fydd TrC yn caffael tir sy'n ymwneud â phrosiect Metro De Cymru gan ddefnyddio cyllid grant cyfalaf, yn unol ag IFRS, mae'r cyllid hwn yn cael ei gydnabod fel incwm yn ystod y flwyddyn gaffael.

Roedd cyfanswm y treuliau ar gyfer y flwyddyn yn £741 miliwn (yn 2023, £656 miliwn). Mae'r twf hwn yn cael ei sbarduno gan gynnydd parhaus mewn gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â rheilffyrdd (er enghraifft, datblygu strategaeth bysiau yn y dyfodol) ochr yn ochr â chynnydd mewn chwyddiant, twf mewn staff a chostau eraill sy'n gysylltiedig â cherbydau rheilffordd newydd ar gyfer gwasanaethau amlach a chynnydd mewn dibrisiant seilwaith rheilffyrdd yn sgil gwerth uwch yr asedau.

Roeddem hefyd wedi hwyluso taliadau grant uniongyrchol i awdurdodau lleol o £5 miliwn o daliadau grant bws TrawsCymru a £46 miliwn o daliadau grant teithio llesol (fel gwerth net yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr gan fod TrC yn gweithredu fel asiant gweinyddol i Lywodraeth Cymru, nid rhoddwr grant).

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr asedau cyfalaf sydd gennym yn werth £3.9 biliwn (yn 2023, £3.4 biliwn). Gwnaethom godi £724 miliwn o ychwanegiadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (yn 2023, £541 miliwn), yn ogystal â £23 miliwn o wariant cyfalaf a ariannwyd gan grant (yn 2023, £25 miliwn) mewn perthynas â gwariant sy'n gymwys ar gyfer cyllid grant cyfalaf ond nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ar ein mantolen; mae hyn wedi'i gynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y datganiad incwm.

Rydym yn asesu gwerth rhwydwaith trên Llinellau Craidd y Cymoedd drwy broses brisio, sydd wedi'i nodi yn nodyn 8 y cyfrifon. Mae'r prisiad yn seiliedig ar gost amnewid dibrisiedig cyfwerth modern. Y gwerth ym mis Mawrth 2024 yw £2,252 miliwn, cynnydd o £117 miliwn o'i gymharu â'r ffigur blaenorol yn bennaf oherwydd £283m

o ychwanegiadau wrth i elfennau o ddatblygiad Metro De Cymru ddechrau cael eu defnyddio, gyda symudiadau dibrisiant ac ailbriso yn cael eu gosod yn erbyn hyn (yn benodol, mynegeoio ac addasiadau i fywydau defnyddiol rhai categorïau o asedau rheilffyrdd).

Mae'r rhan fwyaf o'n hasedau eiddo, offer a chyfarpar yn gysylltiedig â seilwaith rheilffyrdd ond rydym hefyd yn dal £716 miliwn (yn 2023, £282 miliwn) o asedau cyfalaf mewn defnydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo, cerbydau, offer a pheiriannau, lesioedd, TG a meddalwedd a thrwyddedau data. Mae'r cynnydd ers y llynedd yn ymwneud yn bennaf â lesioedd cerbydau newydd. Mae gennym £894 miliwn (yn 2023, £959 miliwn) o asedau sy'n cael eu hadeiladu ym mis Mawrth 2024, sy'n cynnwys y gwaith sy'n cael ei gwneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Metro De Cymru nad yw'n cael ei ddefnyddio eto, a chostau cyfalaf mewn perthynas â chyflwyno fflyd newydd.

Mae gennym £236 miliwn o asedau cyfredol, symiau masnach derbyniadwy yn bennaf a £269 miliwn o rwymedigaethau cyfredol, tymor byr, symiau taladwy cronodig yn bennaf. Mae'r symiau taladwy drwy fasnach a anfonebir yn gymharol isel (£32 miliwn) gan ein bod yn ceisio talu'r holl gyflenwyr yn brydlon.

Mae gennym rwymedigaethau anghyfredol o £2,352 miliwn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â balansau grant cyfalaf gohiriedig i'w rhyddhau yn erbyn yr asedau. Mae'r gweddill yn cynnwys rhwymedigaethau pensiwn buddion diffiniedig, lesioedd a darpariaethau dadfeiliadau cysylltiedig.





GWEITHGAREDDAU REFENIW

GWEITHGAREDDAU CYFALAF



£296m

Gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd a chyfnewidfeydd trafndiaeth



£44m

Gwariant arall sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd gan gynnwys costau perchennog seilwaith, rheoli rhanddeiliaid, ymgysylltu â chwsmeriaid a gwaith cyn cyfalaf ar wella gorsafoedd



£5m

Gwasanaethau cynghori ar fysiau, ffyrdd ac aml-ddull a ariannwyd gan refeniw



£5m

Grantiau i gefnogi gwasanaethau bysiau Traws

Refeniw

£350m

£716m

**£1,066m
Cyfanswm
cyllideb**

£279m

Gwaith dylunio ac adeiladu i drawsnewid asedau rheilffordd Llinellau Craidd y Cymoedd (net o Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop a chyllid arall o £80m)



£271m

Cydnabod Asedau Hawl i Ddefnyddio IFRS 16 ar gyfer Iesoedd Cerbydau newydd



£81m

Buddsoddiad ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd, gan gynnwys cerbydau newydd, a gwella depos a gorsafoedd



£46m

Grantiau Teithio Llesol i awdurdodau lleol



£14m

Prosiectau eraill, gan gynnwys Strategaeth Drafndiaeth, Metros eraill, rhaglenni Teithio Llesol, ffyrdd a acherbydau trydan



£14m

Caffael bysiau a phrosiectau eraill sy'n ymwneud â bysiau



£11m

Gwaith adnewyddu'r trefniadau rheoli seilwaith a gwariant arall sy'n gysylltiedig â rheoli asedau rheilffyrdd



Cyfalaf



DA I'R BLANED





Mae cael mwy o bobl i deithio'n gynaliadwy yn allweddol i ddiogelu'r amgylchedd a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Er mwyn diogelu ein rheilffordd at y dyfodol, rydym yn trydaneiddio'r cletrau ac yn rhedeg trenau mwy cynaliadwy. Gydag awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, rydym yn adeiladu rhwydwaith bysiau sy'n cysylltu cymunedau. Rydym yn annog mwy o bobl i gerdded a defnyddio olwynion ar deithiau byrrach.

Nid mater o leihau allyriadau carbon ar lefel genedlaethol a bodloni ein cyfrifoldeb byd-eang yn unig yw hyn. Bydd y newid hwn mewn patrymau teithio yn effeithio ar fywydau unigolion, gan wella eu hiechyd a lleihau cost ariannol rhedeg car. Bydd cael rhwydwaith trafnidiaeth hygyrch a hawdd ei ddefnyddio yn creu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'n ymwneud â sicrhau bod gan bawb fynediad at addysg, gwaith a chyfleoedd iechyd. Mae cynaliadwyedd yn sicrhau hirhoedledd diwylliant, iaith ac amgylchedd hanesyddol Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi moment tyngedfennol yn ein hymrwymiad i lunio Cymru gynaliadwy. Ym mis Mehefin 2024, daethom yn gorff sydd wedi'i enwi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o bopeth rydym yn ei wneud ac yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf.



**LLESANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS**



FNIDIAETH
RU
NSPORT
WALES



TRAFNII
CYMRU
TRANSP
FOR WA

REFENIW A THOCYNNAU

Rydym yn cynyddu refeniw drwy gynigion ar gyfer tocynnau ac ymgyrchoedd effeithiol. Er mwyn gwneud trafniadaeth gyhoeddus yn haws ac yn rhatach i'w defnyddio, rydym wedi ymestyn teithio ar drenau am ddim i blant, tocynnau rhatach a phrisio deinamig. Rydym yn integreiddio tocynnau fel mai dim ond un tocyn fydd ei angen ar gwsmeriaid ar gyfer teithiau gan ddefnyddio gwahanol fathau o drafnidiaeth. Drwy ddatblygu atebion digidol arloesol, rydym yn lleihau gwastraff.

Refeniw a phatrymau teithio

Mae teithio ar drenau—a newidiodd yn ystod pandemig y coronafeirws—wedi setlo i batrwm mwy pendant erbyn hyn. Rydym wedi gweld cynnydd mewn refeniw yn ystod rhai misoedd, sydd, am y tro cyntaf, yn uwch na lefelau cyn y pandemig.

Mae newidiadau i batrymau gweithio yn golygu nad yw amseroedd teithio i'r gwaith o ddydd Llun i ddydd Gwener mor brysur. Mae nifer y teithwyr ar wasanaethau dydd Sul a'r haf yn uwch ac wedi aros yn uchel. Mae teithiau hirach wedi gweld adferiad cryfach na theithiau byrrach. Rydym yn awyddus i gysoni ein hamserlenni a'n strwythur priso i addasu i'r newidiadau hyn. Gan weithio gydag undebau llafur, rydym yn gweithio gyda'n pobl i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r newidiadau yn y galw.

Mae ffigurau teithwyr ar fysiau ledled Cymru yn dal yn is nag yr oeddent cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae rhai o'n gwasanaethau wedi mynd yn groes i'r duedd honno. Mae gwasanaethau TrawsCymru sy'n cael eu rheoli gennym wedi gweld cynnydd cyffredinol o tua 24% ar gyfartaledd. Mae gwasanaethau T1 a T10 wedi gweld dwy ran o dair yn fwy o deithwyr o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy wella dibynadwyedd, amserlenni, prisiau a hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer gyrwyr.





Un tocyn

Un tocyn ar gyfer bws a thrên

Rydym yn gweithio tuag at deithio gydag un tocyn, hyd yn oed wrth deithio ar wahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus. Eleni, rhwng Abertawe ac Aberystwyth, gwnaethom gynnig tocynnau cyfun trên a bws o £15.30 am docyn sengl unrhyw bryd.

Ehangu ardal tocyn 1bws

Rydym wedi helpu'r awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau i gyflwyno a hyrwyddo tocynnau integredig. Ym mis Medi, rhyddhawyd tocyn 1bws wythnosol. Mae tocyn 1bws yn galluogi cwsmeriaid i brynu tocyn bws sengl i deithio ar fwy nag un bws a chwmni bysiau. Mae tocyn 1bws yn brosiect partneriaeth rhyngom ni, chwe awdurdod lleol a 27 o weithredwyr bysiau lleol.

Ym mis Hydref, ehangwyd yr ardal ddaearyddol lle gellir defnyddio tocyn 1bws. Gall cwsmeriaid nawr deithio ar bron i 200 o lwybrau yng Ngogledd Cymru gan ddefnyddio sawl gweithredwr bysiau.

Cynigion ar gyfer tocynnau

Gwnaethom gynnal nifer o ymgyrchoedd ar adegau allweddol o'r flwyddyn i annog mwy o bobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo mis dal y bws a chyfnod y Nadolig drwy gynnig tocynnau diwrnod hanner pris ar lwybrau bysiau TrawsCymru.
- Cynnig ar gyfer tocynnau trên Multiflex o 12 tocyn am bris chwech a 50% oddi ar docynnau ymlaen llaw ar gyfer teithiau dros 50 milltir.
- Ymgyrch i blant deithio am ddim er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod plant yn cael teithio am ddim ar ein trenau pan fyddant yn teithio gydag oedolyn.
- Ymgyrch o'r cledrau i'r llwybrau a oedd yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng gorsafoedd rheilffordd a llwybrau cerdded pellter hir.

Tocynnau Talu wrth Fynd

Gwnaethom lansio cynllun peilot ar gyfer tocynnau Talu wrth Fynd ar deithiau trên rhwng Caerdydd Canolog, Casnewydd a Phont-y-clun. Mae hyn wedi'i ymestyn ers hynny i gynnwys Glynabwy. Bydd prisiau tocynnau Talu wrth Fynd fel arfer yn rhatach na'r prisiau cyfredol, a byddant yn cael eu capio ar lefel ddyddiol ac wythnosol i gynnig y gwerth gorau i gwsmeriaid. De Cymru yw'r lleoliad cyntaf yn y DU y tu allan i Lundain lle mae'r math yma o docynnau ar gael.

Ap TrC

Gwelsom dwf o 30% mewn gwerthiant tocynnau drwy ap TrC. Gwnaethom hefyd gyflwyno nifer o nodweddion newydd allweddol, gan gynnwys:

- Archebu lle i feic ar-lein.
- Basged dalu sy'n caniatáu prynu mwy nag un peth yn mewn un trafodiad.
- Dangosfwrdd Talu Wrth Fynd ar gyfer rheoli cardiau a gweld trafodion.
- Hysbysiadau pan fydd newidiadau i amserlen tocyn wedi'i archebu ymlaen llaw.

Er mwyn sicrhau bod gwahanol ddulliau teithio'n cyd-fynd yn well, rydym wedi ail-frandio gwefan ac ap presennol Traveline.Cymru. Roedd alinio'r brand yn well wedi arwain at dwf o 30% yn nifer y teithiau a oedd yn cael eu cynllunio drwy wefan Traveline Cymru.

Prosiect masnacheiddio ffeibr

Rydym yn gosod ceblau ffeibr wrth adeiladu seilwaith rheilffyrdd i gludo signalau a gwybodaeth arall. Ar hyn o bryd, nid ydym yn defnyddio holl gapasiti ffeibr Llinellau Craidd y Cymoedd. Rydym yn bwriadu gwerthu'r capasiti dros ben i ddarparu'r gwasanaethau rhyngwryd neu gludwyr ffonau symudol. Bydd hyn yn helpu i greu cysylltiad digidol rhwng y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac o bosibl darparu incwm ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth Cymru.



£15.30
am docyn cyfun trên a
bws rhwng Abertawe
ac Aberystwyth



RHEILFFYRDD A SEILWAITH

Mae TrC wedi cael ei benodi gan Lywodraeth Cymru i redeg gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae ein gwasanaethau'n cyrraedd dros 93% o boblogaeth Cymru. Rydym yn cyflwyno trenau newydd ac yn trydaneiddio'r cledrau. Gyda gwelliannau i'r amserlen, rydym wedi cynyddu gwasanaethau trên ledled Cymru a'r gororau.





Llinellau Craidd y Cymoedd

Ein gwariant seilwaith mwyaf eleni fu ein gwaith parhaus o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Metro De Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad yn helpu i uno llwybrau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol.

Rheilffordd Treherbert

Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Chwefror 2024 gwnaethom drydaneiddio rheilffordd Treherbert a diweddarau'r system signalau. Gosodwyd tair dolen gledrau newydd, cafodd y platfformau eu hystemyn, ac adeiladwyd pontydd troed newydd. Dyma'r seilwaith rheilffyrdd hynaf yng Nghymru. Yn sgil ei foderneiddio rydym yn gallu rhedeg gwasanaeth amlach a gwyrddach.

Ail-agorwyd y llinell ym mis Chwefror 2024. Er mwyn diolch i'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt a'u hannog i ddefnyddio'r gwasanaeth, gwnaethom gynnig 50% oddi ar deithiau rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mai 2024.

Signalau

Gwnaethom gwblhau'r gwaith o brofi a gosod signalau ar y llinellau rhwng Aberdâr, Merthyr Tudful a Pharc Ninian i Bontypridd. Mae'r llinellau wedi cael eu trydaneiddio rhwng Caerdydd ac Aberdâr a Merthyr.

Depo Ffynnon Taf

Rydym ar fin cwblhau adeiladu'r cyfleuster cynnal a chadw a'r depo yn Ffynnon Taf. Cafodd y ganolfan reoli ei defnyddio am y tro cyntaf eleni ac mae'n darparu signalau i drenau ar reilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr. Mae'r ganolfan reoli yn cyfuno gwaith rheoli gweithrediadau a seilwaith â gwybodaeth i yrwyr a theithwyr.

Llinell Bae Caerdydd

Eleni, rydym wedi bod yn gwneud gwaith helaeth ar Llinell Bae Caerdydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gwaith ar platfformau ym Mae Caerdydd a gorsaf newydd Butetown.
- Gwaith ar y cledrau a gosod systemau cyfathrebu.
- Gwaith trydaneiddio ar y llinell.

Roedd y prosiect yn golygu ymgysylltu'n helaeth â chymunedau lleol. Roedd tîm rhanddeiliaid a chymuned Metro Canolog a'r Bae wedi cynnal digwyddiad ar yrfaedd ym maes trafniadaeth. Trefnwyd y diwrnod hwn yn dilyn adborth gan gymunedau yn Butetown a Bae Caerdydd. Er mwyn deall yn well beth yw'r rhwystrau sy'n atal recriwtio, rydym wedi bod yn cwrdd â grwpiau cymuned lleol ac yn dysgu oddi wrthynt.

Yn dilyn adborth gan y gymuned, gwnaethom gyhoeddi cyfathrebiadau mewn pum iaith a siaredir yn lleol: Cymraeg, Saesneg, Somalieg, Arabeg ac Wrddw. Mae tudalennau gwe hefyd wedi cael eu datblygu yn y pum iaith hyn i sicrhau bod y gymuned yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect. Gwnaethom gomisiynu murlun sy'n cynrychioli cymunedau Butetown a Bae Caerdydd, gan dynnu sylw at dreftadaeth gerddorol gyfoethog yr ardal.





Gorsaf Machynlleth

Buddsoddi mewn trenau

Rydym yn buddsoddi £800 miliwn mewn trenau newydd i gynnal trenau mwy hygyrch a chyfforddus i'n cwsmeriaid.

Eleni, ein her fwyaf oedd newid ein trenau Class 175 a oedd (oherwydd eu hoedran) yn annibynadwy.

I gymryd eu lle, mae ein trenau Class 197 newydd wedi cael eu cyflwyno'n raddol. Cafodd y trenau Class 175 eu tynnu o'r gwasanaeth erbyn mis Hydref. Rydym hefyd wedi gweithio i wella dibynadwyedd trenau Mark 4 a nifer y cerbydau ar ein trenau. Erbyn diwedd mis Mawrth, roeddem wedi cael gwared ar broblemau prinder trenau i raddau helaeth.

Mae ein trenau tram Class 398 yn cael eu profi yn y depo yn Ffynnon Taf ac ar Linellau Craidd y Cymoedd. Maen nhw'n gallu teithio hyd at 100 km yr awr ac yn gallu cludo hyd at 252 o deithwyr.

Eleni, rydym wedi bod yn profi ein trenau Class 756. Bydd y trenau'n ymuno â'r gwasanaeth cyhoeddus yn nes ymlaen yn 2024. Maen nhw'n gallu teithio hyd at 120 km yr awr a hefyd yn gallu cael eu newid i redeg ar bŵer batri neu ddisel hybrid ar gyfer y rhannau o'r rhwydwaith sy'n anodd neu'n ddrud i'w trydaneiddio.

Gwelliannau i'r amserlen

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflwyno ac ail-gyflwyno nifer o wasanaethau trên. Mae'r newidiadau hyn i'r amserlen yn cynnwys:

- Gwasanaeth bob hanner awr rhwng Tref Glynebwy a Chasnewydd neu Caerdydd Canolog.
- Gwasanaeth bob awr rhwng Lerpwl a Chaer.
- Trenau bob 45 munud ar reilffordd Wrecsam Canolog i Bidston, cynnydd o bob awr.
- Gwasanaeth bob awr rhwng Caerdydd a Cheltenham Spa wedi dychwelyd ym mis Mawrth.
- Roedd rheilffordd Arfordir y Cambrian rhwng Pwllheli a Machynlleth wedi ailagor ym mis Rhagfyr ar ôl y gwaith ar draphont y Bermo.



£800M

o fuddsoddiad mewn trenau
newydd i gynnal teithiau mwy
hygyrch a chyfforddus ar y trên



BYSIAU

Mae TrC yn helpu awdurdodau lleol i redeg gwasanaethau bysiau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau TrawsCymru pellter hir a phellter canolig a mwy o wasanaethau fflecsi lleol, ar-alw. Rydym yn edrych ar ffyrdd o wella cynaliadwyedd teithio ar fysiau drwy fuddsoddi mewn bysiau trydan.

65%

yw'r cynnydd yn nifer y teithwyr eleni ar ein prif wasanaeth T1 rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth



Dyheadau masnachfreinio

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd TrC a Llywodraeth Cymru Mapio at Fasnachfrait. Mae'r map yn nodi manteision masnachfreinio, y camau y byddwn yn eu cymryd i'w gyflawni, a'n dull gweithredu arfaethedig. Gan weithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau sy'n cynrychioli teithwyr, byddwn yn parhau i fireinio'r dull hwn, rydym yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol, undebau llafur a gweithredwyr i ddiwygio rhwydweithiau a gwasanaethau.

TrawsCymru

Trafnidiaeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol am gaffael, a monitro perfformiad ac ansawdd gwasanaeth TrawsCymru.

Mae ein prif wasanaeth T1 rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth wedi gweld cynnydd o 65% yn nifer y teithwyr eleni. Yn 2023/24, cafodd llwybrau T1C, T2, T3, T6, T10 a T22 eu hychwanegu at ein portffolio.

Roedd ein gwelliannau eleni yn cynnwys:

- Addasu amserlenni er mwyn cysylltu gwasanaethau bysiau yn well rhwng Caerdydd ac Aberystwyth, Bangor ac Aberystwyth, a Machynlleth ac Aberystwyth.
- Rhedeg y gwasanaeth T10 yn fwy aml ar ddydd Sadwrn, dydd Sul ac yn ystod gwyliau'r ysgol rhwng Betws-y-Coed a Bangor, gan ddarparu gwasanaeth bob awr sy'n cysylltu â gwasanaethau eraill ym Mangor ac Eryri gan gynnwys Sherpa'r Wyddfa.
- Cyflwyno gwasanaeth T3C i gysylltu â phentrefi gan gynnwys Llanuwchllyn a Chorwen, gan wella amseroedd teithio ar hyd y llwybr T3.

Gwasanaeth Sherpa'r Wyddfa

Sherpa'r Wyddfa yw gwasanaeth bws sy'n gwasanaethu Parc Cenedlaethol Eryri. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i ddarparu dewis ymarferol yn lle car i dwristiaid a phobl leol, gan helpu i leddfu tagfeydd ar y ffyrdd.

Mae nifer y teithwyr wedi codi'n sylweddol, gyda chynnydd o 64% ym mis Ebrill 2023 o'i gymharu â mis Ebrill 2019. Ym mis Tachwedd 2023, enillodd y gwasanaeth wobwr arian yn y categori Bysiau Hamdden yng Ngwobrau Bysiau'r DU.

Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd

Agorodd Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd ar 30 Mehefin 2024. Mae'n cynnwys sgriniau gwybodaeth fyw i gwsmeriaid sy'n dangos amseroedd gadael bysiau o'r gyfnewidfa a chysylltiadau trên o orsaf Caerdydd Canolog. Rydym yn gweithio'n agos gyda gweithredwyr bysiau i gadarnhau pa wasanaethau maen nhw'n bwriadu eu rhedeg o'r gyfnewidfa fysiau. Buom yn cydweithio â Chyngor Caerdydd fel bod gwasanaethau'n gallu gweithredu'n effeithiol gyda'r rhwydwaith ffyrdd a bysiau lleol. Gyda'r ddarpariaeth ar gyfer canfod y ffordd, rydym yn ei gwneud hi'n haws i bobl gyfuno sawl dull teithio. Bydd yn chwarae rhan annatod o'r rhwydwaith trafndiaeth integredig sy'n cael ei adeiladu ar gyfer pobl Cymru.

Ehangu ein gwasanaeth fflecsi

Gwasanaeth ar-alw ydy fflecsi sy'n codi cwsmeriaid o leoliad sy'n addas iddyn nhw. Eleni, rydym wedi ehangu'r gwasanaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, rydym wedi gwneud y canlynol eleni:

- Ehangu gwasanaethau yn Ninbych, gan ddarparu mwy o wasanaethau i gymunedau gwledig.
- Rhedeg gwasanaeth haf yn Sir Benfro a oedd yn cynnwys Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Penfro a Doc Penfro.
- Cynnwys Dolwyddelan o fewn gwasanaeth fflecsi Conwy.
- Cyflwyno gwasanaethau fflecsi yn Nolgellau a Dyffryn Dulas.



64%

yw'r cynnydd yn nifer y teithwyr o'i gymharu â 2019 ar wasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa

SYLW AR WYNEDD

Llwybrau bysiau newydd

Ym mis Chwefror 2024, lansiodd Cyngor Gwynedd a TrC lwybr T22 newydd o Flaenau Ffestiniog i Borthmadog a Chaernarfon. Dyma'r bysiau trydan cyntaf ar rwydwaith trafniadaeth gyhoeddus Gwynedd. Darparwyd y cerbydau a'r cyfleusterau gwefru gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, a byddant yn cael eu gweithredu gan Llew Jones International.

Cyflwynwyd y gwasanaeth T8 sy'n darparu cysylltedd trafniadaeth gyhoeddus newydd ar goridor Corwen-Rhuthun-Yr Wyddgrug-Caer, gyda dros 9,500 o deithwyr nawr yn defnyddio'r llwybr bob mis.

Mapio'r rhwydwaith

Buom yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i ail-ddylunio'r rhwydwaith bysiau yn yr ardal. Dangosodd ymarfer modelu y byddai bron i 40% o aelwydydd yn cael budd o wasanaethau amlach. Gallai nifer yr aelwydydd a fyddai'n gallu cael mynediad at leoliadau allweddol fel Stryd Fawr y Bermo, Ysbyty Alltwen GIG Cymru a Phrifysgol Bangor fwy na dyblu yn sgil y newidiadau arfaethedig.

Gwasanaethau fflecsi Gwynedd

Ym mis Chwefror, gwnaethom gefnogi'r awdurdod lleol i gyflwyno dau wasanaeth fflecsi newydd yn Nolgellau a Dyffryn Dulas. Ym mis Mawrth, cafodd gwasanaeth fflecsi Penrhyn Llŷn ei ail-lansio, gan wasanaethu pobl leol a thwristiaid.



Betws-y-Coed



TRAFNIDIAETH INTEGREDIG

Yn TrC, rydym yn gwneud teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, mynd ar olwynion, a beicio yn haws. Drwy Traveline Cymru a TrawsCymru, rydym yn ei gwneud hi'n haws i bobl gynllunio teithiau ar draws dulliau trafniadaeth. Mae'r cynllunio hwn yn galluogi mwy o bobl i deithio'n gynaliadwy.





Canolfan Ymgysylltu â Chwsmeriaid Trafnidiaeth Cymru

Mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol ar gyfer rhyngweithio â'n cwsmeriaid. Yn 2023/24, roedd y ganolfan ymgysylltu â chwsmeriaid wedi derbyn 502,377 o alwadau, wedi prosesu 50,959 o gardiau teithio rhatach, wedi archebu 49,897 o deithiau fflecsi ac wedi ymateb i 24,512 o gwynion.

Eleni, rydym wedi gwella'r amseroedd ymateb i gwsmeriaid sydd wedi cysylltu â ni. Mae'r amseroedd ymateb i gwynion cwsmeriaid wedi lleihau'n sylweddol o 14.57 diwrnod gwaith i 3.79 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Rydym wedi cyflwyno sgwrsio byw ar ein gwefan, sy'n cynnig ffordd arall i'n cwsmeriaid gysylltu â ni.

Rydym wedi darparu cymorth y tu allan i oriau i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt wrth ganslo trenau. Mae hyn wedi ein galluogi i gynnig ymatebion dros y ffôn ac ar y cyfryngau cymdeithasol tan 11pm.

Traveline Cymru

Mae Traveline Cymru wedi'i integreiddio'n llawn o fewn Trafnidiaeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn caniatáu i bobl gynllunio teithiau ar fws, trê, beic ac ar droed. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar brisiau a thocynnau a gwybodaeth am hysbysiadau teithio. Eleni, atebodd y ganolfan gyswllt i gwsmeriaid 68,379 o alwadau Traveline Cymru. Yn yr un cyfnod, darparodd gwefan Traveline Cymru 1.3 miliwn o ddarnau o wybodaeth am gynllunio teithiau ac amserlenni i bobl sy'n teithio yng Nghymru.

Annog pobl i deithio

Rydym yn rhedeg nifer o brosiectau i annog pobl i deithio ar ein rhwydwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ein digwyddiadau Hyder i Deithio lle rydym yn helpu pobl hŷn, pobl ifanc a phobl anabl i feithrin yr hyder i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Rhedeg taith ail-ymgyfarwyddo o Bontypridd i Dreherbert i drafod y newidiadau gyda theithwyr dall a rhannol ddall (a'u cŵn tywys).
- Cyflogi 20 o Gymdeithion Teithio i roi cymorth penodol i deithwyr trenau sydd angen cymorth ychwanegol i archebu tocynnau, dod o hyd i'w ffordd o gwmpas gorsafoedd, ac i fynd ar y trê.

Newid ymddygiad trafniadaeth

Yn TrC, rydym yn rhoi cyfle i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy a lleihau eu dibyniaeth ar geir preifat.

Rhan bwysig o gynnig dewisiadau gwell yw deall pa ymddygiadau sy'n arwain at y penderfyniadau trafniadaeth y mae pobl yn eu gwneud. I'n helpu i wneud hyn, rydym wedi datblygu ein strategaeth newid ymddygiad. Mae'r strategaeth hon yn ein helpu i wreiddio prosesau, gwybodaeth a sgiliau gwyyddor ymddygiad ar draws ein sefydliad ac ymyriadau.

Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant gwyyddor ymddygiad manwl i'n cydweithwyr. Mae'n cael ei gynnig mewn cydweithrediad â'r Uned Gwyddor Ymddygiadol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Manceinion.

Er mwyn deall barn menywod ynghylch diogelwch wrth ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus i deithio i Gaerdydd ac yn ôl, buom yn gweithio gyda THINK (Rhwydwaith Ymchwil Integredig Trafnidiaeth ac Iechyd) a Phrifysgol Aberystwyth ar brosiect ymchwil.



502,377

o alwadau wedi cael eu prosesu eleni yn ein canolfan cyswllt i gwsmeriaid



**SGWRSIO
BYW**

wedi'i gyflwyno ar ein gwefan,
sy'n cynnig ffordd arall i'n
cwsmeriaid gysylltu â ni

Twristiaeth gynaliadwy

Gwyliau cerdded

Gyda Ramblers Cymru, rydym wedi lansio 22 o deithiau cerdded newydd o orsafoedd rheilffordd ledled Cymru. Nod y teithiau cerdded sy'n addas i deuluoedd (pob un o dan 5km) yw annog pobl leol ac ymwelwyr i fod yn fwy egniol ac archwilio lleoedd gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae pob un o'r teithiau'n dechrau ac yn gorffen mewn gorsafoedd rheilffyrdd ar rwydwaith Cymru a'r gorau.

Gwnaethom greu 33 o lwybrau cerdded i/o'n gorsafoedd rheilffordd ar ap Go Jauntly, gan dynnu sylw at wahanol fannau o ddiddordeb ar hyd y ffordd.

Gweithio gyda phartneriaid

Yn ystod yr hydref 2023, buom yn gweithio mewn partneriaeth â Croeso Cymru i annog teithwyr i ddefnyddio'r trê'n i ymweld â rhai o fannau poblogaidd i dwristiaid. Roedd yr ymgyrch newydd wedi amlygu Aberystwyth, Conwy, Cas-gwent a Dinbych-y-pysgod. Roedd y cynigion yn cynnwys arbed 50% ar docynnau trê'n Advance, plant yn teithio am ddim, a mynediad i ddau am bris un i safleoedd Cadw ar hyd a lled Cymru.

Gwnaethom sefydlu partneriaethau newydd gyda Visit Shropshire, Visit Chester a Visit Manchester i hyrwyddo archwilio'r ardaloedd ar y trê'n. Er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg, gwnaethom ddatblygu nifer o bosteri dwyieithog a chynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.



33

o lwybrau cerdded wedi'u
creu ar gyfer ap Go Jauntly



CERDDED, MYND AR OLWYNION A BEICIO



250

o gynlluniau teithio llesol
Awdurdodau Lleol wedi'u
cefnogi gan TrC



Erbyn 2040, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targed o 45% o'r holl deithiau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio trafndiaeth gynaliadwy. Mae teithio llesol yn golygu cerdded, mynd ar olwynion (symud drwy ddefnyddio cadair olwyn, sgwter symudedd, neu ffrâm ar olwynion) a beicio. Rydym eisiau i deithio llesol fod yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer teithiau byr bob dydd.

Pecyn hyrwyddo

Rydym wedi cynhyrchu pecyn hyrwyddo Teithio Llesol ar gyfer awdurdodau lleol i hyrwyddo cerdded, mynd ar olwynion a beicio. Mae'n darparu negeseuon allweddol, canllawiau, ymyriadau â thystiolaeth a chronfa o dros 500 o ddelweddau i annog teithio llesol yn eu hardaloedd.

Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol

Rydym yn rheoli'r rhaglen Cronfa Teithio Llesol ar ran Llywodraeth Cymru. Gan weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, rydym yn nodi, yn datblygu ac yn darparu llwybrau gwell ar gyfer cerdded, mynd ar olwynion, a beicio. Eleni, cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf oedd tua £46m dros fwy na 250 o gynlluniau.

Blaenoriaethu buddsoddiadau

Rydym wedi datblygu adnodd blaenoriaethu er mwyn nodi llwybrau sy'n annog mwy o bobl i gerdded, mynd ar olwynion, a beicio. Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar fapiau ac mae'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth a data i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r dull rhyngweithiol hwn yn cefnogi awdurdodau lleol yn eu gwaith i ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol sy'n cynnwys eu llwybrau cerdded a beicio presennol a rhai i'r dyfodol.

500+ 
o ddelweddau ar gael yn y
pecyn hyrwyddo Teithio Llesol i
awdurdodau lleol eu
defnyddio

Y Rhaglen Braenaru

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r Rhaglen Braenaru sy'n arwain dulliau i annog mwy o bobl i gerdded, mynd ar olwynion, a beicio. Buom yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i nodi'r grŵp cyntaf o brosiectau i'w datblygu. Mae'r rhaglen yn archwilio'r gwaith o ddatblygu ardaloedd arddangos, lle gallwn brofi effeithiolrwydd ymyriadau, gan gefnogi dewisiadau trafndiaeth gwell a seilwaith teithio gwell.

Llogi Beiciau

Rydym yn dymuno cynyddu'r ddarpariaeth llogi beiciau sydd ar gael ar draws Cymru. Mae'n nodwedd bwysig mewn rhwydweithiau trafndiaeth Integredig llwyddiannus. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, gan rannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd. Eleni, yn anffodus, caeodd cynllun llogi beiciau Ovo yng Nghaerdydd a buom yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd i ddeall y gwersi a ddysgwyd er budd cynlluniau yn y dyfodol.

Rhaglen Sgiliau a Datblygu

Rydym yn cynhyrchu rhaglen a fydd yn cynnig lle delfrydol am hyfforddiant ac arweiniad i ymarferwyr teithio llesol ledled Cymru. Ei bwrpas yw rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i bobl er mwyn cynyddu graddfa, cyflymder ac uchelgais teithio llesol. Mae'n cynnig llwybr gyrfa cynaliadwy a phwrpasol i bawb sy'n gysylltiedig â'r maes.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Rhoi gwybod i arbenigwyr, fel ymarferwyr cynllunio a diogelwch ar y ffyrdd, sut mae manteisio i'r eithaf ar fuddion teithio llesol.
- Comisiynu'r gwaith o ddatblygu a darparu hyfforddiant archwilio llwybrau.
- Gwellu'r ddarpariaeth teithio llesol a mapio rhwydwaith ar draws Cymru.





CYSYLLTU CYMUNEDAU GWLEDIG A THREFOL

Mae trafniadaeth yn hanfodol er mwyn cysylltu pobl ag anwyliaid, addysg, iechyd, hamdden, twristiaeth a gwaith. Ein her allweddol yw sut i wneud hyn yn fwy cynaliadwy—mae angen dulliau gwahanol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.



Gwella trafndiaeth wledig

Rydym yn dadansoddi pa mor hawdd yw hi i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio.

Eleni, buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu adroddiad ar gynllunio trafndiaeth gynaliadwy mewn ardal wledig. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 ac roedd yn tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd y gallai awdurdodau lleol a chymunedau wella bywyd gwledig ledled Cymru drwy fentrau trafndiaeth.

Rydym wedi ffurfio cysylltiadau â sefydliadau trafndiaeth gyhoeddus sy'n gwasanaethu ardaloedd gwledig ledled y DU i rannu arferion gorau a gwersi.

Clybiau ceir

Mae clybiau ceir yn darparu mynediad i geir heb effaith ariannol ac amgylcheddol sylweddol perchnogaeth a gwaith cynnal a chadw. Maent yn cynnig cyfle i wella ansawdd aer (drwy ddefnyddio cerbydau allyriadau is), a llai o bwysau parcio.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu clybiau ceir mewn ardaloedd gwledig. O ganlyniad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid grant ym mis Mawrth 2024 er mwyn helpu i sefydlu clwb ceir yng Nghanolbarth Cymru. Cerbydau trydan fydd y rhan fwyaf o'r ceir, a'n bwriad yw y bydd modd atgynhyrchu'r model hwn ledled Cymru.





Metro Gogledd Cymru

Rydym wedi parhau â chynlluniau i drawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yng Ngogledd Cymru. Rydym yn cydweithio â chwe awdurdod lleol yr ardal i wella teithio.

Eleni, mae astudiaethau datblygu rheilffyrdd yn cynnwys cynyddu capasiti yng Nghaer a gweithio tuag at gysylltiad uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl. Roedd adroddiad 'Network North: transforming British transport' yn cydnabod y potensial i wella cysylltiadau a thrydaneiddio Prif Linell Gogledd Cymru.

Mae rhwydweithiau bysiau arfaethedig wedi cael eu datblygu gydag awdurdodau lleol. Rydym yn defnyddio data a thystiolaeth i ddatblygu'r rhwydwaith gorau posibl ar gyfer teithwyr, gan wella dalgyloedd ac amlder.

Gwnaethom gefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau teithio llesol yn y Fflint, Gwersyllt, Llanfairpwll, Bangor a Llandudno. Rydym yn datblygu ffyrdd o integreiddio rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol yn well yng ngorsafoedd trên Bangor, Caergybi a Wrecsam. Rydym yn datblygu prosiect arwyddion ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri i helpu i symud twristiaid.

Ardal Bae Abertawe

Rydym yn datblygu cynigion ar gyfer dwy linell rheilffordd newydd yn ardal Bae Abertawe. Eleni, rydym wedi cwblhau'r gwaith datblygu i raddau helaeth ar gyfer gwasanaethau newydd sy'n rhedeg i Abertawe o Ben-bre a Phorth Tywyn a Phontarddulais. Rydym wedi datblygu dyluniadau ar gyfer dwy orsaf newydd a seilwaith cledrau yn y Cocyd a Glandŵr.

Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, rydym wedi datblygu Prosiect Bysiau Hydrogen Bae Abertawe. Disgwylir i'r prosiect gyflwyno ugain o fysiau cell danwydd hydrogen i'r gwasanaeth erbyn diwedd 2026. Dyma fydd y tro cyntaf i'r dechnoleg hon gael ei defnyddio yng Nghymru. Bydd yn ein helpu i gyflawni ymrwymadau Cymru Sero Net oherwydd gallai bysiau hydrogen o bosibl gyfrif am gymaint ag 20% o fflyd bysiau Cymru.

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i adolygu ei gynllun rhagarweiniol i fynd i'r afael â phroblemau a chyflleoedd yn Llanharan a chymunedau cyfagos. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys mwy o ddarpariaeth gydgysylltiedig ar gyfer cerdded, beicio, mynd ar olwynion, bysiau a gwasanaethau trên. Bydd yn lleihau effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd.

Rydym wedi cwblhau achos busnes amlinellol ac astudiaeth ddichonoldeb gyda dyluniad cynnar ar gyfer cludo bysiau'n gyflym ac estyniad trenau tram rhwng Caerdydd a Chasnewydd. Byddai hyn yn darparu gwasanaethau uniongyrchol amledd uchel gydag amseroedd teithio cyflymach a gwell dibynadwyedd. Byddai'n darparu dewis ymarferol arall yn lle teithio mewn car.

Mae ein rhaglen Metro Canolog yn sefydlu hyb trafndiaeth integredig yng nghanol Caerdydd ar gyfer bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol. Bydd hyn yn darparu gwell mynediad at gysylltiadau trafndiaeth a dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyngor Caerdydd i ddatblygu a darparu cam cyntaf Crossrail Caerdydd i gysylltu Caerdydd Canolog a'r Bae. Mae'r cynllun hwn yn cael ei gefnogi gan fid y Gronfa Ffyniant Bro gwerth £50m a gyflwynwyd gan Gyngor Caerdydd ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth y DU ac a gafodd arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.



HYDROGEN

Rydym yn rhagweld cyflwyno ugain o fysiau cell danwydd hydrogen i'r gwasanaeth erbyn diwedd 2026

Prif Linell De Cymru

Ariennir ein rhaglen reilffordd Prif Linell De Cymru gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru. Eleni, gwnaethom gwblhau'r astudiaethau technegol a'r achosion busnes amlinellol ar gyfer pum gorsaf prif linell newydd rhwng Caerdydd Canolog a Chyffordd Twannel Hafren. Roedd hyn hefyd yn cynnwys dichonoldeb gwasanaethau rheilffyrdd trawsffiniol newydd arfaethedig rhwng Caerdydd, Casnewydd a Bryste neu Cheltenham. I gefnogi'r prosiect hwn, gwnaethom gynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'r cyhoedd am 13 wythnos ar y cynigion - fe ddaeth dros 4,000 o ymatebion i law. Derbyniwyd yr achos busnes amlinellol a, gyda chefnogaeth yr Adran Drafnidiaeth, bydd y cynllun nawr yn symud ymlaen i achos busnes llawn.

Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu gyda rhanddeiliaid allweddol ar y llwybr, gan gynnwys Network Rail, y gweithredwyr trenau perthnasol, awdurdodau lleol a chyd-bwyllgorau corfforedig. Rydym yn gwneud gwaith rhanbarthol ar faterion trawsffiniol gyda Chorff Trafnidiaeth Is-genedlaethol Porth y Gorllewin, Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr a phartneriaeth Porth y Gorllewin.



4,000

o ymatebion i'r
gwasanaethau rheilffordd
trawsffiniol newydd
arfaethedig rhwng
Caerdydd, Casnewydd a
Bryste neu Cheltenham



AIL-DDYCHMYGU FFYRDD

Yn TrC, rydym yn edrych ar ffyrdd o helpu pobl i ddefnyddio eu ceir yn llai aml. Rydym yn rhoi prosiectau ar waith i ddatgarboneiddio'r defnydd o geir. Rydym yn darparu arbenigedd i Lywodraeth Cymru yn eu rhaglenni datblygu a chyflawni ac yn cynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.



Uned Gyflawni Burns

Rydym yn rhoi adnoddau i Uned Gyflawni Burns sy'n cyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth Ddedwyrain Cymru.

Nod yr argymhellion yw darparu rhwydwaith o ddewisiadau eraill yn lle siwrneiau ceir ar yr M4 yn Ndedwyrain Cymru. Maent yn ceisio gwneud trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn ddewis mwy deniadol yn y rhanbarth. Mae'r uned yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynigion a chynnal ymgynghoriadau cyhoeddus. Eleni, mae dylunio gwelliannau o ran teithio llesol a mynediad ar fws i orsaf drenau Casnewydd wedi bod yn ffocws allweddol.

Pwyntiau gwefru cerbydau trydan

Er mwyn darparu mwy o bwyntiau gwefru trydan ledled Cymru, rydym yn gweithio gyda'r diwydiant preifat, darparwyr cyfleustodau a chyrrff yn y sector cyhoeddus. Rydym wedi gosod 15 o safleoedd gwefru cyflym mewn lleoliadau gwledig ac wedi dechrau gosod manau gwefru mewn deg gorsaf.

Mae ein hymgysylltiad ag awdurdodau lleol a'r sector preifat wedi cynyddu'n sylweddol. Rydym yn cynnal gweminarau dysgu misol i sicrhau bod ganddynt fynediad at yr offer, y cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwydiant. Mae canllawiau ac adnoddau cynllunio gofodol wedi cael eu datblygu ymhellach i gefnogi a chyfeirio mwy o ddatblygiadau a chyllido yn y sector preifat.

Ffordd Blaenau'r Cymoedd

2023/24 oedd trydedd flwyddyn y prosiect pedair blynedd i drawsnewid 17.7km o gefnffordd yr A465 rhwng Dowlais Top a Hirwaun i ffordd ddeuol ddwy lôn. Rydym yn gweithio i Lywodraeth Cymru i fonitro ac ardystio dyluniad, adeiladwaith a gwaith cynnal a chadw seilwaith y prosiect.

Mae gwaith deuoli'r A465 a'r 13km ychwanegol o lwybrau beicio a llwybrau troed yn y rhan hon yn cefnogi adfywiad economaidd drwy wella mynediad at wasanaethau, swyddi a marchnadoedd allweddol. Bydd y cynllun yn darparu 120 o brentisiaethau, dros 60 o hyfforddeiaethau a mwy na 300 o interniaethau, gan ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y gymuned leol.

Monitro ac ystadegau

Mae TrC yn cynhyrchu ystadegau sy'n archwilio effeithiau'r terfynau cyflymder 20mya diofyn ar ffyrdd cyfyngedig. Eleni, gwnaethom gynhyrchu dau adroddiad gyda data rhagarweiniol ar y prif ffyrdd trwodd mewn naw ardal.



15


o safleoedd gwefru cyflym
mewn lleoliadau gwledig





DATBLYGU CYNALIADWY

Mae TrC yn adeiladu rhwydwaith trafniadaeth gynaliadwy. Rydym am wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Drwy gydweithio â rhanddeiliaid a phartneriaid, rydym yn creu Cymru sy'n fwy cynaliadwy.





Lleihau plastigau untro

Rydym wedi cyfnewid eitemau dal dŵr, sudd, creision a chwpanau coffi am eitemau heb fod yn blastig. Mae ein llwyddiannau eleni yn cynnwys:

- Cynnig Ilaeth UHT mewn ffon Ilaeth, sy'n arbed 300,000 i 360,000 o gynwysyddion Ilaeth plastig y flwyddyn.
- Cyflwyno dŵr tun yn lle dŵr potel ar ein trenau ac yn ein gorsafoedd, sy'n arbed tua 125,000 o boteli plastig y flwyddyn.
- Drwy ddefnyddio system ddigidol i gofnodi data shifftiau goruchwylwyr, rydym yn arbed 65,000 o ddalenni papur A4 y flwyddyn a 36,400 o fagiâu plastig A4 bob blwyddyn.

Y Ddraig Werdd

Mae System Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn rhaglen ardystio bum lefel ar gyfer busnesau yng Nghymru. Mae'n eu helpu i wella eu perfformiad amgylcheddol a'u harferion cynaliadwyedd. Eleni, gwnaethom godi 248 o orsafoedd i Lefel 5 o Lefel 3. Rydym wedi dal gafael ar ardystiad Lefel 5 uchaf y Ddraig Werdd ym mhrif swyddfa Llys Cadwyn, tri depo cynnal a chadw trenau a phedair canolfan arlwy.

Gweithio gyda phartneriaid cymunedol

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol ar draws Cymru. Eleni, gwnaethom

- Gwblhau saith prosiect effaith gynaliadwy.
- Gorffen mentrau gwyrdd mewn tair gorsaf yn Ninbych-y-pysgod, Abertawe a Wrecsam Cyffredinol.
- Gweithio gyda 149 o wirfoddolwyr i gyflawni 19 o brosiectau.



125,000

o boteli dŵr plastig yn cael eu harbed bob blwyddyn ar ôl newid i ddŵr tun

Cyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn sicrhau bod pawb yn Trafnidiaeth Cymru yn deall ein cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, gwnaethom gynnal cyfres o sesiynau dysgu dros ginio yn ystod y flwyddyn. Estynnwyd croeso i siaradwyr mewnol ac allanol a oedd yn cynnig enghreifftiau o sut mae'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith yn TrC ac mewn cyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru.

Gwnaethom adfer ein Panel Cyngori ar Ddatblygu Cynaliadwy, sy'n cynnwys arbenigwyr yng Nghymru. Mae wedi rhoi cyngor ar sut gallwn wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â'r Ddeddf.



DIOGELWCH, DIOGELEDD A RISG

Bydd diogelwch, diogeledd a risg wrth galon popeth mae TrC yn ei wneud bob amser. Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n gweithrediadau yn ddiogel rhag troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aflonyddu. Er mwyn lleihau risgiau a'u rheoli, rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid.





Ymgyrch llinellau pŵer uwchben

Cafodd ein hymgyrch 'Dim Ail Gyfle' ei lansio ym mis Mai i gyd-fynd â'r llinellau cyntaf i gael eu trydaneiddio ar Linellau Craidd y Cymoedd. Mae'r ymgyrch yn tynnu sylw at beryglon llinellau pŵer uwchben i bobl sy'n tresmasu ar y rhwydwaith rheilffyrdd. Ei nod oedd atal tresmasu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol – yn enwedig ymysg pobl ifanc.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbysebu yn yr awyr agored, dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, ac arddangosfa dros dro. Cafodd sylw yn y wasg genedlaethol a lleol. Cafwyd adborth rhagorol gan grwpiau ysgol a ddaeth i weld yr arddangosfa.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos ein bod wedi ymgysylltu â chyfran uchel o'n cynulleidfaoedd ifanc. Mae tresmasu ar Linellau Craidd y Cymoedd wedi lleihau'n sylweddol o'i gymharu â 2022. Cafodd yr ymgyrch ei enwebu am bedair gwobr.



500+

o gamerâu corff ar draws
y rhwydwaith cyfan

Diogelwch a chydnerthedd

Rydym wedi cynyddu nifer y camerâu corff i dros 500 ar y rhwydwaith cyfan. Mae hyn yn helpu i gadw cydweithwyr a staff yn ddiogel, ac yn gweithredu fel rhwystr i ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gall gynnig tystiolaeth i ni ei rhannu â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Rydym wedi datblygu model gweithredu diogelwch newydd sy'n ein galluogi i ddefnyddio ein hadnoddau'n well. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn darparu presenoldeb diogelwch gweladwy lle mae'r angen mwyaf.

Gwnaethom gynnal gweithdai osgoi gwrthdaro gyda chydweithwyr rheng flaen. Rydym wedi diweddarau ein polisiau, ein gweithdrefnau a'r adnoddau sydd ar gael i reoli'r mater hwn. Mae hyn wedi cael ei wneud ar y cyd ag adnewyddu ein Polisi a'n Gweithdrefnau Diogelu a fydd yn ein cynorthwyo i roi help llaw i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl ar ein rhwydwaith.

Diogelwch

Gwnaethom gynnal profiad realiti rithwir yn ystod Wythnos Diogelwch y Rheilffyrdd 2023. Ei bwrpas oedd dod â phobl wyneb yn wyneb â risgiau posibl ar y rheilffordd mewn ffordd ddiogel. Roedd ein timau diogelwch a gweithrediadau wedi helpu i roi gwell gwybodaeth i'r cyhoedd.

Roeddem wedi cynnal nifer o ymarferion byw ar ben bwrdd â'r nod o brofi ein cynlluniau argyfwng a datblygu arferion gorau i ddelio â digwyddiadau mawr. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio â'r Coleg Cynllunio at Argyfyngau i fireinio a gwella ein dogfennau i sicrhau ymateb cadarn i ddigwyddiadau mawr.



**OVERHEAD
POWERLINES
KILL**

DON'T TRESPASS ON THE RAILWAY



GWEITHIO GYDA CHYMUNEDAU, PARTNERIAID A RHANDDEILIAID





Rydym yn meithrin perthynas gref a pharhaol â rhanddeiliaid, partneriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynllunio trafndiaeth yn well. Gyda'n partneriaid, rydym yn gwella rhwydwaith trafndiaeth Cymru.

Ymgysylltu â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Prosiectau gorsafoedd rheilffordd

Mae dros 50% o'r rhwydwaith rheilffyrdd ledled Cymru yn cael ei gefnogi gan bartneriaethau rheilffordd gymunedol, gwirfoddolwyr cyfeillion y gorsafoedd, a grwpiau rheilffordd gymunedol eraill. Erbyn hyn, mae 151 o fabwysiadwyr gorsafoedd sy'n gwasanaethu 57 o orsafoedd.

Cynhyrchodd Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian brosiect 'Window Seater' sy'n rhannu straeon sain am hanes lleol ac mae'r rhain wedi'u geoleoli. Mae'n cysylltu teithwyr â'r tirweddau y tu allan i ffenestr y trê'n a'i nod yw ceisio ysbrydoli teithiau mwy gwyrdd ar drenau. Enillodd y Wobr Twristiaeth a Hamdden yn y Gwobrau Rheilffyrdd Gymunedol ym mis Mawrth 2024.

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Bydd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn casglu data ynghylch ymddygiad ac agweddau teithio. Bydd yn cyfrannu at benderfyniadau ac yn gwella'r sylfaen dystiolaeth trafndiaeth yng Nghymru er mwyn i ni allu deall anghenion teithio pobl yn well.

Eleni, gwnaethom benodi'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) fel ein partner cyflenwi ar gyfer yr Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gweithio gyda NatCen i ganfod dulliau arolygu addas. Mae'r arolwg wedi bod yn destun profion gwybyddol i sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol.

Awdurdodau lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella gwasanaethau bysiau, cysylltiadau teithio llesol ac i integreiddio dulliau teithio yn well. Mae awdurdodau lleol yn darparu mewnbwn a chefnogaeth i TrC drwy fforymau rhanddeiliaid rhanbarthol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn galluogi awdurdodau lleol i weithio'n agosach ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a chynllunio. Mae TrC wedi bod yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu camau cynnar y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol. Rydym yn ymgysylltu â'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

Gweithio'n agosach â phartneriaid

Er mwyn lleihau oedi a phroblemau seilwaith ar y rheilffordd, rydym wedi bod yn meithrin perthnasoedd cydweithredol â phartneriaid seilwaith.

Dros y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio â Network Rail ar raglen Cyfuno. Diben rhaglen Cyfuno yw pennu gwelliannau i gyflawni amcanion ar y cyd. Gyda'n gilydd, rydym wedi symleiddio'r broses diogelu asedau, gan arbed amser ac arian. Mae'r meysydd lle rydym yn gweithio'n agosach yn cynnwys amserlennu, cynllunio tymor hir a chyfathrebu.

Gyda Network Rail ac Amey Infrastructure, rydym wedi cynhyrchu strategaeth 'Un Rheilffordd' ar y cyd. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod trenau'n rhedeg yn brydlon, ac i leihau nifer y trenau sy'n cael eu canslo.

Gwnaethom lofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng TrC a Network Rail sy'n canolbwyntio ar gydweithio'n agosach er mwyn darparu gwell rheilffordd. Rydym hefyd wedi lansio Rheilffordd Leol Gorllewin Cymru gyda National Rail.

Gweithio gydag undebau llafur

Rydym yn ymgysylltu â sawl undeb llafur i sicrhau ein bod yn cefnogi ein cydweithwyr.

Yn 2023/24, gwnaethom weithio gyda'n gilydd i wneud y canlynol:

- Cynnwys dydd Sul yn yr wythnos waith i yrwyr fel bod yr un lefelau staffio ag y gwelir o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.
- Cyflwyno amserlenni newydd i ddarparu gweithrediadau trenau amlach ar Linellau Craidd y Cymoedd.

Gweithio gyda'r llywodraeth

Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ar ei rhan ac rydym wedi datblygu cysylltiadau cydweithredol ar draws pob maes gweithgarwch. Rydym yn cefnogi swyddogion a gweinidogion drwy gylch gwaith ffurfiol a'r cydweithrediad rhwng timau. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â llywodraeth y DU i gydweithio a sicrhau darpariaeth effeithiol mewn meysydd lle rydym yn gweithredu gwasanaethau'n uniongyrchol ar ei rhan.



DIWYLLIANT, YR IAITH GYMRAEG A THREFTAADAETH





Yn Trafnidiaeth Cymru, rydym yn Gymraeg yn gyntaf ac yn bennaf. Rydym am i iaith a diwylliant Cymru fod yn rhan ganolog o brofiad teithio pobl. Mae ein gwaith yn sicrhau bod yr iaith a diwylliant yn hygyrch i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn gwarchod ac yn dathlu safleoedd ac amgylcheddau hanesyddol.

Y Gymraeg yn TrC

Fel corff cyhoeddus, rydym yn cysoni ein gwaith â pholisi Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn dymuno sicrhau bod ein rhwydwaith yn gwbl ddwyieithog, gan gynnwys cyhoeddiadau gweledol a sain, systemau sy'n delio â chwsmeriaid, arwyddion a dulliau canfod y ffordd.

Er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, eleni rydym wedi:

- Cefnogi'r Eisteddfod ym Moduan, gan siarad â channoedd o bobl am fflecsi, TrawsCymru a'n gwasanaethau rheilffyrdd.
- Dathlu digwyddiadau ledled y wlad fel diwrnod, Shwmae Su'mae, Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Hawliau'r Gymraeg.
- Cynnig cwrs Cymraeg dan arweiniad tiwtor dros gyfnod o 30 wythnos i'n cydweithwyr.
- Cynnal digwyddiadau mewnol gyda siaradwyr Cymraeg fel y digrifwr Kiri Pritchard-McLean, yr athro Cymraeg - Dr Cymraeg, a'r awdur Alwyn Harding Jones.
- Noddi Parti Ponty, gŵyl Gymraeg ym Mhontypridd.

Treftadaeth

Mae gan TrC warchodaeth dros yr amgylchedd hanesyddol, yr asedau a'r seilwaith rydym yn berchen arnynt. Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth ddiwylliannol a hanesyddol ac ymwybyddiaeth o effaith trafndiaeth a'n treftadaeth ddiwydiannol. Rydym yn gweithio gydag amgueddfeydd ac orielau celf, y byd academiaidd a phartneriaid yn y diwydiant. Yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, rydym wedi ffurfio partneriaeth â Cadw i gynig 2 docyn am bris 1 i'w safleoedd gyda thocyn trên TrC.

Yn anad dim, rydym yn meithrin cysylltiadau â chymunedau a grwpiau lleol er mwyn iddynt allu gweld eu hunain yn ein gwaith treftadaeth. Rydym wedi sefydlu panel cynghori i arwain ein dull gweithredu ac rydym wrthi'n ysgrifennu strategaeth arwain. Cyn Rheilffordd 200—blwyddyn o goffáu'r daith gyntaf i deithwyr ar reilffordd stêm—rydym wedi bod yn paratoi rhaglen o ddigwyddiadau mewnol ac allanol.



**2 DOCYN
AM BRIS 1**

i safleoedd Cadw gyda thocyn TrC



EIN CYDWEITHWYR A'N DIWYLLIANT

Ein huchelgais yw bod yn un o gyflogwyr mwyaf cynhwysol Cymru. Dylai ein cydweithwyr nawr ac yn y dyfodol ddisgwyl amgylchedd sy'n eu galluogi i ffynnu.





Rydym yn cynnig cymorth llesiant priodol, ynghyd â chyfleoedd i wneud cynnydd, dysgu a datblygu. Rydym yn parhau i amrywio ein gweithlu a bod yn fwy cynrychioliadol o gymunedau ledled Cymru.

Gwobrau

Eleni, rydym wedi ennill nifer o wobrau am ein cydweithwyr a'n diwylliant. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Ein Tîm Cymorth yr Ap (sydd oll naill ai'n fyddar neu'n drwm eu clyw) a enillodd y Wobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau gan Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu Cymru.
- Cael aelodaeth Aur y Clwb 5% sy'n cydnabod y gwaith a wnawn i wella rhagolygon cyflogaeth a gyrfa pobl ifanc.
- Cyhoeddi ein bod wedi ennill gwobr 'Cyflogwr Mawr' y flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru yn ystod seremoni'r enillwyr.

Gwaith elusennol

Cafodd Ambiwllans Awyr Cymru ei ddewis gan gydweithwyr fel ein helusen y flwyddyn. Mae'r elusen yn dibynnu'n llwyr ar gefnogaeth y cyhoedd i gynnig gofal critigol neilltuol. Gwnaethom godi £14,000 iddynt drwy wneud y canlynol:

- Rhoi dewis i gwsmeriaid roi eu hiawndal Ad-daliad am Oedi i Ambiwllans Awyr Cymru.
- Rhoi'r refeniw o werthu eitemau heb eu hawlio o eiddo coll.
- Arddangos cynllun lliwiau Ambiwllans Awyr Cymru ar un o'n trenau i hyrwyddo'r elusen.
- Noddi cydweithwyr ar draws y sefydliad i gerdded a mynd ar olwynion am 100km ym mis Mai 2023.
- Trefnu arwerthiant pobi Dydd Sant Ffolant.

Eleni, gwnaethom gefnogi nifer o elusennau eraill gan gynnwys:

- Casglu rhoddion ar gyfer Canolfan Huggard sy'n mynd i'r afael â digartrefedd.
- Cydweithwyr yn cymryd rhan yn nigwyddiad cysgu allan blynyddol y Railway Children yng ngorsaf Abertawe i godi arian ar gyfer plant agored i niwed.
- Lansio partneriaeth newydd gydag elusen ffoaduriaid a cheiswyr lloches Oasis i roi offer a darparu cymorth cyflogaeth.



£14,000
wedi'i godi i Ambiwllans
Awyr Cymru



Recriwtio a sgiliau

Eleni, gwnaethom recriwtio mwy o gydweithwyr rheng flaen. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o yrwyr, goruchwylwyr a staff y swyddfa docynnau. Gwnaethom dargedu ein hysbysebion recriwtio i gynrychioli amrywiaeth y swyddi a'r amrywiaeth o bobl ar draws Cymru. Rydym bob amser yn ceisio annog ceisiadau gan grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sicrhau bod y bobl rydym yn eu recriwtio yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Llwybrau at waith

Mae'r Rhaglen Llwybrau at Waith yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflawni hyn.

Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar gyn-filwyr a phobl sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, neu sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system. Eleni, rydym wedi ehangu'r cynllun i gynnwys menywod. Mae'r rhaglen Llwybrau yn allweddol i TrC cynhwysol ac amrywiol. Rydym yn mynd i gymunedau i ymgysylltu ag unigolion talentog a medrus na fyddent fel arall yn gwneud cais am ein swyddi gwag. Rydym yn cefnogi unigolion i fod yn barod am waith. Unwaith yn TrC, rydym yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi am gyhyd ag y bo angen, gan feithrin eu hyder a chynyddu eu siawns o lwyddo.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi drafftio Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth a fydd yn cryfhau nodau Llywodraeth Cymru i fod yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. Fel rhan o hyn, gwnaethom gyflwyno nifer o fentrau gan gynnwys:

- James Price yn llofnodi'r addewid Dim Hiliaeth Cymru ar ran TrC.
- Cynnal gweithdy ar deall hil, cydraddoldeb hil a baint.
- Lansio modiwl gwrth-hiliaeth gorfodol ar gyfer yr holl staff.
- Dod o hyd i ffyrdd o gynyddu nifer y cydweithwyr sy'n rhoi gwybod am eu hethnigrwydd, a fydd yn ein galluogi i wella ein data a'n tystiolaeth.

Rydym yn dod yn weithle sy'n gadarnhaol ynghylch y mislif. Fel rhan o'r addewid hwn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â TOTM i ddarparu cynnyrch mislif yn rhad ac am ddim i'n cydweithwyr ar draws y rhwydwaith.

Rydym wedi cynnal nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth ynghylch y menopos yn y gweithle gan weithio gyda phartner allanol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu gweithgorau a chanllawiau ar y menopos.

Lansiwyd modiwl eDdysgu newydd ar laith Arwyddion Prydain. Mae'r modiwl yn cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth o fyddardod, yr wyddor laith Arwyddion Prydain, ac arwyddion defnyddiol laith Arwyddion Prydain.

Rhyw a bwloch cyflog rhwng y rhywiau

Cyfran y staff yn ôl rhyw

Yn gyffredinol, roedd TrC yn cyflogi 3801 o bobl ym mis Ebrill 2023. Roedd 2867 (75.4%) o'r rhain yn ddynion ac roedd 934 (24.6%) yn fenywod.

Ym mis Ebrill 2023, roedd Grŵp TrC yn cyflogi 778 o bobl. Roedd 471 (60.5%) o'r rhain yn ddynion ac roedd 307 (39.5%) yn fenywod. Mae hyn yn gynydd bach o ddau bwynt canran yng nghyfran y menywod a gyflogir o'i gymharu â'r llynedd.

Ym mis Ebrill 2023, roedd Rheilffyrdd TrC yn cyflogi 3023 o bobl. Roedd 2396 (79.3%) o'r rhain yn ddynion ac roedd 627 (20.7%) yn fenywod. Mae hyn yn gynydd bach o 0.7 pwynt canran yng nghyfran y menywod a gyflogir o'i gymharu â'r llynedd.

Bwlch cyflog rhwng y rhywiau


Yn dilyn cyngor y Llywodraeth, newidiodd Grŵp TrC ei ddyddiad ciplun adrodd blynyddol i 5 Ebrill i gyd-fynd â chyflogwyr preifat, gwirfoddol a phob cyflogwr arall sy'n awdurdod cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod y ffigur o 14% a nodwyd yn adroddiad y llynedd (o ddyddiad ciplun 31 Mawrth 2023) yn eithaf tebyg i'r 14.1% sy'n bresennol yn yr adroddiad hwn (o ddyddiad ciplun 5 Ebrill 2023, pum diwrnod yn ddiweddarach). Mae'r dyddiad ciplun adrodd blynyddol ar gyfer Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn dal i fod ar 5 Ebrill.

Ym mis Ebrill 2023, y bwloch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn Grŵp TrC oedd 14.1%. Ym mis Mawrth 2022, y bwloch cyflog rhwng y rhywiau oedd 32.8%.


Y bwloch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn Rheilffyrdd TrC oedd 16.2% ym mis Ebrill 2023. Mae hyn wedi gostwng o 19.2% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn cydhabod bod angen gwneud mwy i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes rheilffyrdd i fenywod, yn enwedig mewn rolau gyrru trenau a pheirianeg.

Newid yn y bwloch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau



Cyfran y staff yn ôl rhyw, TrC yn gyffredinol, Ebrill 2023





Doniau cynnar

Er mwyn annog pobl ifanc, mae TrC yn parhau i gynnis interniaethau, lleoliadau i raddedigion a phrentisiaethau. Eleni, daethom yn aelod o'r Clwb 5%. Mae hynny'n golygu ein bod wedi addo parhau i fuddsoddi mewn prentisiaethau, cynlluniau graddedigion a lleoliadau noddedig. Rydym am i 5% o'n cydweithwyr fod yn un o'r cynlluniau hyn erbyn 2028.

Dysgu a datblygu

Mae dysgu a datblygu yn allweddol i lwyddiant ein sefydliad. Mae'n llywio'r ymddygiadau, y cymwyseddau a'r galluoedd sydd eu hangen ar ein cydweithwyr a'n sefydliad i lwyddo.

Er mwyn datblygu sgiliau arwain, gwnaethom redeg rhaglenni arweinyddiaeth fel Arwain yn Hyderus, Arwain drwy Rymuso ac Arwain gyda Dylanwad. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau hyfforddi tîm un-i-un, gan roi cipolwg i gydweithwyr ar eu cryfderau a'u gwendidau.

Cefnogi ein cydweithwyr

Ym mis Awst, roeddem wedi agor swyddfa newydd yn Wrecsam. Gwnaethom osod tair ystafell gyfarfod, ystafell gyfathrebu, toiled anabl newydd gyda chawod, a lloches y tu allan i feiciau. Cyflawnwyd y prosiect ar amser ac o dan y gyllideb.

Llesiant ein cydweithwyr

Yn TrC, mae iechyd a llesiant ein cydweithwyr yn flaenoriaeth. Rydym eisiau i'n cydweithwyr deimlo'n ddiogel ac yn iach wrth weithio i ni.

Fel rhan o'n rhaglen Llesiant, cynhaliwyd nifer o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ymwybyddiaeth straen ac iechyd meddwl. Ar y cyd â Network Rail, rydym wedi hyfforddi mwy o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl.



RISG

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg ac mae wedi bod yn datblygu ein diwylliant a'n proses Rheoli Risg Menter ers sawl blwyddyn erbyn hyn. Wrth i TrC ddod yn gyfrifol am sawl dull teithio, mae'n hanfodol bod ein proses rheoli risg yn gallu delio â risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae angen i ni allu manteisio ar gyfleoedd hefyd.

Daw ein cryfder o gynllunio a lleoli strategol. Bob blwyddyn, rydym yn datblygu ac yn defnyddio strategaeth risg. Rydym yn dysgu o flynyddoedd blaenorol, gan feincnodi yn erbyn gweithredwyr cludiant a diwydiannau eraill a gwrandar ar adborth gan ein timau a'n rhanddeiliaid.

Rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau eleni. Rydym bellach yn gwneud y gwaith o reoli risg ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd yn fewnol. Bydd hyn yn sicrhau bod risgiau, problemau a chyfleoedd yn cael eu diffinio'n briodol, bod ein parodrwydd i dderbyn risg wedi'i wreiddio ym mhob rhan o TrC, bod dulliau llywodraethu priodol ar waith a bod gennym reolaeth effeithiol drwy'r tair llinell amddiffyn.

Mae cyfarfodydd llywodraethu'r Prif Swyddog Risg wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau i:

- Ymgorffori swyddogaeth sicrwydd TrC yn y broses rheoli risg. Bydd integreiddio risg a sicrwydd yn cryfhau trefniadau rheoli risg TrC ymhellach, gan brofi a gwirio a rhoi adborth ar fesurau lliniaru.
- Adolygu pob un o'r prif risgiau ar lefel gorfforaethol o bob maes busnes i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu diweddarau, bod camau i liniaru ar waith, a bod y sgoriau'n adlewyrchu'r parodrwydd i dderbyn risg ac adrodd.
- Rhoi archwiliad ar waith ar ansawdd rheoli risg lleol i nodi'n gynnar unrhyw angen i gefnogi, gwella effeithiolrwydd a sganio'r gorwel.

Roedd ein rhaglen addysg yn darparu hyfforddiant rheoli risg i fwy na 600 o gydweithwyr TrC sydd â chyfrifoldebau risg.

Mae ein prif risgiau a materion (y rhai sydd â thebygolrwydd uwch o ddigwydd ac a allai gael effaith sylweddol ar strategaeth, enw da, gweithrediadau neu gyllid) ar y cyfan, fel y rhan fwyaf o sefydliadau, wedi aros yr un fath. Yn benodol, y risgiau hyn yw'r her barhaus gydag ariannu, risgiau i gyllid, effeithlonrwydd, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd a llwyddiant prosiectau mawr a'n gweithrediadau craidd.

Ar ben hynny, eleni rydym wedi gweld y risgiau mwyaf taer yn cael eu huwchgyfeirio i'r Tîm Arwain Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am ymwybyddiaeth ac i gael cefnogaeth i'n hymateb. Mae'r canlynol yn rhai o'r enghreifftiau o Brif Risgiau sydd wedi cael eu huwchgyfeirio ers hynny, ac yna eu hisgyfeirio'n ddiweddarach yn dilyn mesurau lliniaru effeithiol:

- Toriad pŵer tymor byr neu raddol sy'n gysylltiedig â chadernid ynni a hinsawdd y gaeaf.
- Recriwtio pobl sydd â sgiliau allweddol a gallu mewn timau craidd i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgareddau ac uchelgeisiau TrC.
- Risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â Llinellau Craidd y Cymoedd, prosiectau mawr, depos a lleoliadau storio.
- Risg y gallai gweithredu diwydiannol amharu'n anuniongyrchol ar wasanaethau TrC oherwydd diffyg signalwyr National Rail a gostyngiad yng ngweithrediadau gweithredwyr eraill yn cynyddu'r defnydd o wasanaethau TrC gan deithwyr.

Edrych ymlaen

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn ymdrechu i gynnal ein dull risg a gwella'n barhaus. Rydym yn datblygu Dangosyddion Risg Allweddol strategol a rhesymegol. Bydd y rhain yn adeiladu ar ein Dangosyddion Risg Allweddol blaenorol sydd wedi ein helpu i ddeall ein proffil risg yn fwy effeithiol. Roedd hyn yn bennaf drwy ein system yn adrodd am risgiau uchel, canolig ac isel a'r statws a'r rhyngweithio rhyngddynt. Dyma enghreifftiau o rai o'r Dangosyddion Risg Allweddol rydym yn eu datblygu ymhellach:

- Orlhain canran y cyfleoedd i arbed arian a chynyddu cyllid o'i gymharu â risgiau a phroblemau.
- Effaith tebygolrwydd. Drwy archwilio a deall tebygolrwydd, gallwn ddadansoddi, blaenoriaethu ac osgoi risgiau rhag cael effaith negyddol ar ein busnes. Drwy ganolbwyntio ar debygolrwydd ein nod yw bod yn fwy effeithlon o ran lleihau'r posibilrwydd o wireddu risgiau, yn hytrach na cheisio lleihau eu heffaith.

Yn 2020, gwnaethom ymchwilio'n ddwfn i'r Gofrestr Risg Genedlaethol i ddeall yr effeithiau posibl ar TrC a lle gallai llywodraeth y DU alw arnom i ddarparu mesurau lliniaru neu adfer. Yn 2023, diweddarwyd y Gofrestr Risg Genedlaethol. O ganlyniad rydym yn gweithio, drwy dimau Risg a Chydnerthedd Busnes TrC, i brofi ein hunain eto o ran y rhain. Mae'r gofrestr newydd yn tynnu sylw at y risgiau ar ôl pandemig y coronafeirws yn y DU, a rhai'r Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol, gan gydnabod effaith wirioneddol a phosibl rhyfeloedd a therfysgaeth.





Prif risgiau

Mae'r tabl hwn yn nodi'r Prif Risgiau a allai effeithio ar TrC y flwyddyn hon fel y pennir gan ein Prif Swyddog Risg, wedi'i oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac wedi'i ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Nid yw'r tabl yn rhestr gynhwysfawr o'r risgiau a'r ansicrwydd a all godi.

1. Methiant y partner rheoli seilwaith i weithredu

Disgrifiad o'r risg

Methiant y partner rheoli seilwaith i fodloni ei awdurdodiad i weithredu fel Rheolwr Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd fel y cytunwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd gan arwain at gollir gallu i reoli a chynnal Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Camau lliniaru

- Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol.
- Monitro iechyd y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd er mwyn deall iechyd cyflenwyr.
- Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd.
- Adborth ac ymgysylltiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
- Proses seilwaith y dewis olaf fel rhan o'r cynllun parhad busnes.

Cynnydd

- Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio.
- Caffael – rheoli cyflenwyr allweddol.
- Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu.
- Rhyngweithio rheolaidd â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
- Rheoli parhad busnes.

Cyflymder yr effaith bosibl

Llai na chwe mis.

2. Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i weithredu

Disgrifiad o'r risg

Methiant Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i gyflawni ei awdurdodiad i weithredu fel Gweithredwr Trên fel y cytunwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, gan arwain at gollir gallu i weithredu gwasanaethau gan arwain at oedi neu darfu ar y rhaglen drawsnewid.

Camau lliniaru

- Llywodraethu ar lefel uwch a monitro perfformiad allweddol.
- Systemau, prosesau a rhaglenni integredig.
- Archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau sicrwydd.
- Adborth ac ymgysylltiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
- Cynlluniau llywodraethu'r bwrdd a pharhad busnes.

Cynnydd

- Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad clir ar waith ac yn cael eu defnyddio.
- Rhaglenni sicrwydd ac archwilio TrC sy'n gysylltiedig â llywodraethu.
- Rhyngweithio rheolaidd â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
- Rheoli parhad busnes.

Cyflymder yr effaith bosibl

Llai na chwe mis.



3. Cyflawni'r gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd

Disgrifiad o'r risg

Risg nad yw rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael ei chyflawni o fewn yr amser a'r gyllideb ac nad yw'r system wedi ei hintegreiddio'n iawn.

Camau lliniaru

- Rheolaeth gadarn dros reoli a rheoli rhaglenni a phrosiectau.
- Adolygiadau rheolaidd o raglenni Gweithredu gwell llywodraethu a chraffu.
- Rheoli risg yn fewnol.
- Cynnydd mewn sgiliau TrC ac integreiddio gallu.

Cynnydd

- Wedi cynnal adolygiadau rheolaidd o'r rhaglen ac ail-bennu llinell sylfaen.
- Cynnal a chadw a chanolbwyntio blaenoriaethol ar gerrig milltir ERDF.
- Is-bwyllgor y Bwrdd yn ei le i fonitro a chefnogi prosiectau mawr.

Cyflymder yr effaith bosibl

Llai na thri mis.

4. Digwyddiadau tywydd eithafol

Disgrifiad o'r risg

Risg barhaus o amharu mawr ar y rhwydwaith oherwydd tywydd eithafol fel llifogydd, eira trwm, tymheredd uchel parhaus a gwyntoedd stormus.

Camau lliniaru

- Strategaethau a rhaglenni tarfu tymhorol ar y cyd.
- Monitro rhybuddion a rhagolygon y tywydd.
- Rheoli llystyfiant ac asesiad ar gyfer coed marw, coed sydd yn marw a choed wedi'u heintio.
- Adolygu safleoedd llifogydd a rhaglenni adfer.
- Caniatáu i docynnau tymor rheilffordd gael eu defnyddio ar linellau eraill cyfagos a chynnal cytundebau gyda gweithredwyr bysiau.
- Aseidiadau risg newid yn yr hinsawdd a chynllun addasu.

Cynnydd

- Cyfarfodydd paratoi a newid tymhorol ar waith gyda Rheolwyr Gweithrediadau Trenau a Seilwaith.
- Wedi gosod gwasanaethau yn lle trenau ar gytundeb.
- Datblygu cynllun addasu a chydnerthedd hinsawdd TrC.

Cyflymder yr effaith bosibl

Llai na thri mis.



5. Rhaglen masnachfreinio bysiau

Disgrifiad o'r risg

Risg na fydd TrC yn masnachfreinio bysiau a'r dyheadau a'r canlyniadau polisi bysiau ehangach yng Nghymru o ganlyniad i'r canlynol:

- Os nad yw'r ddeddfwriaeth i alluogi newid model masnachfreinio yn cael ei gwneud yn gyfraith.
- Dim digon o gyllid i alluogi newid a chyflenwi'r gwasanaeth a ddisgwylir.
- Diffyg adnoddau a chapasiti i gyflawni'r rhaglen.

Camau lliniaru

- Llywodraethu ar y cyd rhwng TrC a Llywodraeth Cymru.
- Strategaeth mapio ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Recriwtio a dyluniad y sefydliad.

Cynnydd

- Dogfen fapio wedi'i chyhoeddi ac yn cael ei defnyddio i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Trefniadau llywodraethu ar waith ac yn cael eu defnyddio gyda phroses uwchgyfeirio ar gyfer penderfyniadau.
- Mae nifer o ffrydiau gwaith busnesau bach a chanolig ar waith sy'n datblygu cynlluniau penodol.

Cyflymder yr effaith bosibl

Llai na chwe mis.



DATGANIAD ADRAN 172

Datganiad uniongyrchol

Yn ystod y flwyddyn, mae ein Bwrdd Cyfarwyddwyr wedi gweithredu i hyrwyddo llwyddiant TrC er budd ei berchennog, Llywodraeth Cymru, gan roi sylw i'r ffactorau (ymhlith materion eraill) a nodir yn adran 172(1)(a) i (f) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae'r materion hyn yn chwarae rhan ganolog yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel Bwrdd a ledled y cwmni. Rydym wedi integreiddio ein hadroddiadau ar draws yr adroddiad blynyddol hwn i'w gwneud yn glir sut rydym wedi ystyried canlyniadau tymor hir ein penderfyniadau. Yn benodol, rydym yn ystyried ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (gweler isod), buddiannau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr, yr amgylchedd, ein cymunedau a Llywodraeth Cymru. Mae'r penderfyniadau hyn bob amser yn seiliedig ar ein dymuniad i gynnal safonau ymddygiad uchel.

Er na fydd pob penderfyniad a wnawn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol i bawb, mae barn ein cyfarwyddwyr am y materion hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein holl rhanddeiliaid yn ymddiried yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n deg ac yn gyson.

Ein dull gweithredu

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau i'r rhai y mae ein gwaith yn effeithio arnynt, mae ein Bwrdd yn darparu arweiniad, her a chyfraniad yn y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae arweinyddiaeth y Bwrdd yn gosod tôn glir ac esiampl i'w dilyn ar gyfer gweddill y cwmni, sy'n cael ei adlewyrchu yng ngwaith ein tîm o ddydd i ddydd gyda'n rhanddeiliaid.

Mae ein Bwrdd wedi mynd ati'n rhagweithiol gyda'n rhanddeiliaid drwy ymgysylltu ag amrywiaeth eang o grwpiau cynrychioliadol i wneud yn siŵr ein bod yn gwybod sut mae ein penderfyniadau'n effeithio arnynt nhw. Rydym hefyd wedi sefydlu strwythurau i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac i'n helpu i greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid drwy rwydwaith trafnidiaeth diogel.

Rydym wedi gwneud ein penderfyniadau o fewn cyfyngiadau ein hawdurdod dirprwyedig gan Lywodraeth Cymru a'n cylch gwaith, ac mae llawer o'n penderfyniadau strategol allweddol dros y flwyddyn hefyd wedi bod drwy brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.



Yn ymarferol

Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru

Sut rydym yn ymgysylltu:

Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru yw perchennog TrC, ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd â nhw ynghylch cynlluniau, cynigion a chymeradwyaethau allweddol.

Mae Bwrdd Llywio misol Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau strategol am gylch gwaith a chyfeiriad TrC yn y dyfodol. Mae'n darparu trosolwg a chraffu pwysig.

Rydym hefyd yn mynd â data a gwybodaeth bwysig am berfformiad, yn enwedig o ran cyflawni ein Cynllun Busnes, i Fwrdd Perfformiad chwarterol Llywodraeth Cymru i roi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ynghylch darpariaeth a pherfformiad TrC.

Cyfraniad y bwrdd:

Mae Cadeirydd Bwrdd TrC, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol yn mynychu Bwrdd Llywio Llywodraeth Cymru.

Mae ein Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod sy'n amlinellu trafodaethau a phenderfyniadau a wnaed yn y Bwrdd Llywio.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn darparu diweddariad misol ar weithgareddau TrC i'r Bwrdd ac yna'r Bwrdd Llywio sy'n cynnwys manylion penderfyniadau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn mynychu'r Bwrdd.

Mae Cadeirydd TrC yn cwrdd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yng nghyd-destun cylch gwaith TrC.

Ein cwsmeriaid

Sut rydym yn ymgysylltu:

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod buddiannau ein cwsmeriaid yn rhan greiddiol o'n prosesau gwneud penderfyniadau.

Rydym yn gwahodd adborth gan ein grwpiau cynghori a chwsmeriaid yn rheolaidd, sy'n helpu i wella ein profiad i gwsmeriaid. Gall cwsmeriaid gysylltu â ni dros y ffôn, drwy lythyr neu ar-lein i gofrestru cwynion a rhoi adborth gwerthfawr iawn i ni.

Ar ein gwefan, rydym yn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am ein gwasanaethau ac unrhyw newidiadau, yn enwedig unrhyw darfu sydd wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio. Rydym yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sut i archebu cymorth teithio hygyrch.

Cyfraniad y bwrdd:

Mae ein Bwrdd yn sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid yn ganolog i'w benderfyniadau, ac mae ei Bwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn darparu arweiniad a her ar faterion sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Mae hefyd yn derbyn gwybodaeth reolaidd am fodlonrwydd cwsmeriaid ac ansawdd gwasanaeth.

Mae pob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Is-bwyllgor Bwrdd yn dechrau gyda 'sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid' lle mae pynciau o ddiddordeb yn cael eu codi a'u trafod a chaiff gwersi eu dysgu.



Ein cyflogeion

Sut rydym yn ymgysylltu:

Rydym yn cydnabod mai ein cydweithwyr yw un o'r ffactorau pwysicaf sy'n sbarduno llwyddiant. Mae nhw'n cael eu gwahodd yn rheolaidd i roi adborth, awgrymiadau a phryderon yn ystod ein 'Trafodaethau Cwmni Cyfan' a'n rhwydwaith Viva Engage mewnol.

Y llynedd gwnaethom lansio ein Siarter Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chydweithwyr. Mae'n helpu ein cydweithwyr ar bob lefel i ddeall ein disgwyliadau o ran sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n gilydd – yn unol â'n gwerthoedd corfforaethol. Mae gennym Friff Craidd: crynodeb o'r hyn sy'n digwydd ar draws y sefydliad sy'n berthnasol neu'n bwysig i gydweithwyr. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod ein dulliau cyfathrebu mewnol yn cefnogi gweledigaeth a gwerthoedd TrC, a'u bod yn effeithlon ac yn gynaliadwy.

Cyfraniad y bwrdd:

Mae sylwedydd undebau llafur yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd i helpu i feithrin perthynas ddiwydiannol o ymddiriedaeth gyda'n gweithwyr.

Mae ein Bwrdd hefyd yn derbyn ac yn herio diweddariadau rheolaidd gan ein tîm Gweithredol a Phwyllgor Pobl ar faterion pwysig sy'n effeithio ar ein pobl, ac yn monitro diwylliant y cwmni a pherfformiad ein strategaeth pobl.

Y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Sut rydym yn ymgysylltu:

Gall ein gwasanaethau a'n gwaith gael effaith ar gymunedau ledled Cymru a'r Gororau. Drwy ein timau Rheilffyrdd Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chymunedau, rydym yn gweithio'n galed i feithrin cysylltiadau â'r cymunedau hynny, eu nodi a'u hyrwyddo drwy brosiectau lleol a digwyddiadau galw heibio cyn gwaith seilwaith mawr.

Nid yw bob amser yn bosibl atal tarfu ac effeithiau negyddol ar y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ond mae ein timau'n darparu adborth yn TrC ar eu rhan er mwyn llywio ein penderfyniadau a lleihau'r tarfu lle bynnag y bo modd.

Mae ein Panel Cyngori chwarterol yn parhau i ddod â chynrychiolwyr ynghyd o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, diwydiant a phobl o gefndiroedd a hunaniaeth sydd ar y cyrion er mwyn rhoi adborth, craffu a chynghor i TrC. Mae eu hymgysylltiad a chynghor yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau ac yn rhoi arweiniad yn ein proses o wneud penderfyniadau.

Dros y cyfnod adrodd, rydym hefyd wedi newid y ffordd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill. Rydym wedi cyflwyno fforwm rhanddeiliaid Cymru a'r Gororau bob tri mis sy'n rhannu'n bedwar fforwm rhanbarthol yn cynnwys Gogledd Cymru, Cymru a'r Gororau, De-ddwyrain Cymru, a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae pob fforwm yn gyfle i gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o grwpiau y mae ein gwaith yn effeithio arnynt, i gael gwybodaeth am lawer o faterion trafndiaeth gyhoeddus a rhoi adborth arnynt, gan amrywio o amserlenni rheilffyrdd i ymgynghoriadau sydd ar y gweill ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

Cyfraniad y bwrdd:

Mae ein Bwrdd yn ymwybodol o bwysigrwydd deall ac ystyried anghenion ein cymunedau. Mae nhw'n cael diweddariadau misol drwy ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr, sy'n rhoi manylion am ein hymgysylltiad â chymunedau ac yn tynnu sylw at feysydd effaith posibl a achosir gan ein rhaglen waith a newidiadau i wasanaethau.

Mae ein Cadeirydd a Phrif Weithredwr yn mynychu ein cyfarfodydd panel cyngori, gan sicrhau eu bod yn cael adborth uniongyrchol gan aelodau. Mae cynrychiolydd yr awdurdodau lleol yn mynychu'r Bwrdd.

Mae ein Prif Weithredwr yn mynychu ein Fforymau Rhanddeiliaid Cymru Gyfan a'r Gororau i gael adborth ac i drafod â'r rhai sy'n bresennol, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff addysg, partneriaid awdurdodau trafndiaeth rhanbarthol, cyrff gwarchod trafndiaeth, partneriaid busnes a thwristiaeth.



Ein cyflenwyr

Sut rydym yn ymgysylltu:

Mae ein cynlluniau tymor hir a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu yn golygu bod ein partneriaethau cyflenwyr yn hanfodol i bopeth rydym yn ei wneud. Rydym wedi parhau i weithio i wella ein cadwyn gyflenwi, sydd wedi golygu bod angen ymgysylltu'n agos â'n cyflenwyr.

Rydym yn aelod o Gyngghair Craidd mewn partneriaeth â Balfour Beatty, Siemens Mobility, Alun Griffiths Contractors Ltd ac Amey Infrastructure Wales. Mae'r gyngghair wedi'i chydabod yn flaenorol am ei dull o rannu adnoddau, profiad a sgiliau er budd ei gyflenwyr, cwsmeriaid a phartneriaid.

Cyfraniad y bwrdd:

Mae Bwrdd TrC yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddarparu her ac adborth ar faterion y gadwyn gyflenwi drwy adroddiadau wedi'u huwchgyfeirio gan ein Tîm Arwain Gweithredol ac ystyried ein cofrestr risg.

Mae Pwyllgor Archwilio a Risg ein Bwrdd hefyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, a'r cyfle i herio, o'r swyddogaeth gaffael.

Gwneud penderfyniadau cynaliadwy

Mae ein Bwrdd yn ymwybodol y bydd llawer o [benderfyniadau y mae'n eu gwneud neu wedi'u dirprwyo yn cael effaith ar genedlaethau'r dyfodol](#) yn y tymor hir, gan gynnwys ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, yr amgylchedd, yr economi ac iechyd y rhai rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein Bwrdd yn deall yn llawn bod rhaid gwneud pob penderfyniad yn unol â nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, pum ffordd o weithio tuag at yr egwyddorion datblygu cynaliadwy, a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru.

Mae cynigion y Bwrdd a'r Weithrediaeth yn gofyn am ystyriaeth gynnar a thystiolaeth o unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o benderfyniadau, yn enwedig yn y tymor hir. Mae hyn yn ein herio i wneud newidiadau i ddatrys neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn gynnar a gwneud penderfyniadau gwell.

Mae ein Bwrdd yn poeni am y cyfraniad rydym i gyd yn ei wneud at newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a heriau amgylcheddol eraill. Maen nhw wedi ymrwymo i leihau ein heffaith a darparu arweinyddiaeth a her ar ein [hymdrechion datgarboneiddio a newid dulliau teithio](#).

Symud Ymlaen

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwaith presennol ymhellach i wella'r ffordd maen nhw'n gwneud penderfyniadau ac i roi sylw dyledus i'r materion o dan Adran 172(1)(a) i (f) o Ddeddf Cwmnïau 2006.

James Price

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Cafodd yr adroddiad blynyddol hwn ei gymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwr ar 26 Mehefin 2024. Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a oedd yn ei swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn cadarnhau, hyd eithaf ei wybodaeth, bod yr adroddiad blynyddol, a gymerwyd yn ei gyfarwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu sefyllfa a pherfformiad TrC, ei fodel busnes a'i strategaeth.



EIN BWRDD

Mae ein Bwrdd yn cynrychioli safbwyntiau annibynnol ac amrywiol ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Mae pob un yn chwarae rhan weithredol a gwerthfawr yn y gwaith o gyflawni ein hamcanion strategol ac maent yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau ein bod yn parhau i yrru gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel y gall pobl Cymru fod yn falch ohono.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

- **Scott Waddington**
Cadeirydd
- **Sarah Howells**
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- **Alison Noon-Jones**
Cadeirydd, Pwyllgorau Pobl a Thâl
- **Nicola Kemmery**
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles
- **Alun Bowen**
Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg
- **Vernon Everitt**
Cadeirydd, Pwyllgor Prosiectau Mawr

Cyfarwyddwyr Gweithredol

- **James Price**
Prif Weithredwr
- **Heather Clash**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Llywodraethu

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gennym chwe is-bwyllgor. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan aelod annibynnol o'r Bwrdd. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Archwilio a Risg
- Cyfathrebu a Chwsmeriaid
- Pobl
- Tâl
- Iechyd, Diogelwch a Lles
- Prosiectau Mawr
- T-Network



Scott Waddington

Cadeirydd

Yn wreiddiol o Abertawe ac wedi graddio o Brifysgol Reading, mae Scott wedi cael amrywiaeth o swyddi uwch yn y sector lletygarwch, yn bennaf ym maes marchnata diodydd a manwerthu tafarndai.

Am 17 mlynedd, ef oedd Prif Weithredwr y bragwr a'r cwmni tafarndai Cymreig, SA Brain & Co, lle bu'n arwain adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth gorfforaethol, gan ail-leoli brand Brains, a buddsoddi'n helaeth mewn ehangu'r tafarndai a chaffael, datblygu a gwerthu'r gadwyn Coffee#1. Roedd hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o greu menter ar y cyd i ailddatblygu safle'r Hen Fragdy yn y Cei Canolog.

Scott oedd Cadeirydd CBI Cymru yn 2010 a 2011. Bu'n Gomisiynydd Cymru ar gyfer Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau am bum mlynedd o fis Ebrill 2012, a bu'n gadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

Ar hyn o bryd mae'n llywodraethwr Bwrdd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.



Sarah Howells

Cyfarwyddwr Anweithredol

Cafodd Sarah ei magu ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae'n Brif Swyddog Cwsmeriaid Jurassic Fibre Limited, y prif ddarparwr gwasanaeth rhynggrwyd sy'n gwasanaethu De Orllewin Lloegr.

Mae'n gyfrifol am arwain yr adrannau marchnata, gwerthu, gosod a gweithrediadau cwsmeriaid wrth iddynt gyflwyno rhynggrwyd ffeibr llawn i gymunedau lleol.

Mae gan Sarah dros 20 mlynedd o brofiad ym maes gwasanaeth cwsmeriaid ar mewn amrywiaeth o ddiwydiannau. Mae hi wedi cael sawl swydd uwch mewn sefydliadau mawr ac adnabyddus yn y DU a Seland Newydd, gan gynnwys Virgin Media, Vodafone, Les Mills Clothing and Merchandising a 2 Degrees Mobile. Bu hefyd yn arwain tîm o dros 1,000 o bobl i ddarparu cymorth gwasanaeth pan oedd hi'n bennaeth gwasanaeth cwsmeriaid Tesco.

Mae gan Sarah enw da am ddatblygu pobl, gwella gallu digidol a sicrhau newid trawsnewidiol.



Alison Noon-Jones

Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae gan Alison Noon-Jones dros 35 mlynedd o brofiad ym maes Adnoddau Dynol, 25 mlynedd ar lefel bwrdd cenedlaethol a rhyngwladol, o fewn ystod o sefydliadau proffil uchel o'r radd flaenaf, gan gynnwys Invacare Corporation, General Motors Acceptance Corporation ac Airbus Defence and Security.

Mae hi wedi gweithio ar draws Ewrop ac yn y Dwyrain Canol. Ar hyn o bryd, Alison yw Is-lywydd Pobl a Diwylliant Leidos UK and Ewrop. Mae hi'n gyfrifol am arwain tîm o 32 o weithwyr proffesiynol, sy'n darparu gwasanaethau adnoddau dynol i gefnogi busnes gwerth \$500m sy'n cynnwys 1,400 o weithwyr a chontractwyr ar 11 o safleoedd ar draws y DU ac Ewrop.

Ymunodd Alison â Leidos yn 2016 a chyn ymgymryd â'r rôl hon, roedd hi'n Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar gyfer rhaglen Logisteg Trawsnewid Gwasanaethau Nwyddau, rhaglen logisteg amddiffyn gwerth £8bn ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae Alison wedi treulio llawer iawn o'i gyrfa ym maes trawsnewid a rhaglenni newid strategol ar raddfa fawr yn y maes adnoddau dynol, ac mae'n ffynnu ar feithrin timau i sicrhau'r perfformiad a'r ddarpariaeth orau bosib. Mae hi'n gydweithredol ac yn meithrin partneriaethau cryf ar draws rhaglenni a busnesau.

Mae gan Alison radd mewn ieithoedd modern o Brifysgol Abertawe, mae'n Gymrawd o'r CIPD ac mae'n Fentor ac yn Hyfforddwr Gweithredol cymwys.



Nicola Kemmery

Cyfarwyddwr Anweithredol

Gyda phrofiad helaeth ym maes iechyd a diogelwch ac uwch reolwyr, Nicola yw Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Dŵr Cymru, lle mae hi wedi bod yn gweithio ers 2010.

Ar ôl treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yn y diwydiant dŵr, mae Nicola yn gyfrifol am ddatblygu ac arwain strategaeth gwella iechyd, diogelwch a llesiant Dŵr Cymru. Mae hi'n adrodd i'r Prif Weithredwr, gan ddarparu cyfeiriad ac arweiniad fel rhan o'r tîm rheoli gweithredol. Mae hi hefyd yn arwain tîm o weithwyr iechyd a diogelwch proffesiynol sy'n rheoli amrywiaeth o swyddogaethau cynghori a llywodraethu sy'n cefnogi dros 3,500 o weithwyr a'u partneriaid contract.

Mae Nicola yn weithiwr iechyd a diogelwch siartredig a dechreuodd ei bywyd gwaith yn Swydd Efrog. Arferai fod yn Rheolwr Iechyd a Diogelwch ar gyfer y Grŵp Kelina (Gwasanaethau Dŵr Swydd Efrog) am 14 mlynedd. Dyfeisiodd a gweithredodd systemau rheoli iechyd a diogelwch a chynlluniau gwella'r Grŵp.

Mae Nicola wedi bod yn aelod o'r Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ers 29 mlynedd, gan gynnwys chwe blynedd fel Aelod etholedig o'r Cyngor. Mae hi hefyd wedi bod yn aelod gweithredol o Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Water UK am y 23 mlynedd diwethaf.



Alun Bowen

Cyfarwyddwr Anweithredol

Ac yntau wedi graddio mewn gwyddorau naturiol yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt, bu Alun yn gweithio i KPMG am 37 o flynyddoedd, gan gyflawni nifer o swyddi ar draws y byd, gan gynnwys yng Nghaerdydd, Llundain, Hong Kong, Sydney a Kazakhstan.

Yn wreiddiol o Landeilo, Alun oedd prif ymgynghorydd cynllunio busnes Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Ef oedd pennaeth bydeang practis gwasanaethau cynaliadwy KPMG cyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros 600 o bobl yn rhanbarth Canol Asia y busnes.

Yn gyn Gadeirydd Busnes yn y Gymuned yng Nghymru, roedd Alun yn aelod o Bwyllgor Archwilio Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac yn aelod o gyngor y Prince's Trust yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Pwyllgor Archwilio KAZ Minerals Limited. Alun hefyd yw Cadeirydd Pullman Rail Limited.



Vernon Everitt

Cyfarwyddwr Anweithredol

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad ar draws y sectorau cyllid, trafndiaeth a thechnoleg, Vernon yw Comisiynydd Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf. Mae'n goruchwyllo'r gwaith o ddarparu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus aml-ddull ac integredig i'r Maer ac Awdurdod Cyfun Manceinion Fwyaf ar gyfer y rhanbarth – y Rhwydwaith Gwenyn – er mwyn sicrhau mwy o gynhyrchiant a thwf economaidd a mynediad at gartrefi, swyddi ac addysg.

Rhwng 2007 ac Ionawr 2022, Vernon oedd Rheolwr Gyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Thechnoleg yn Trafnidiaeth Llundain. Roedd Vernon yn canolbwyntio ar roi cwsmeriaid wrth galon strategaeth a gweithrediadau trafndiaeth, gan gynnwys sut gall integreiddio gwasanaethau, prisiau a thocynnau, technoleg a data sicrhau teithiau gwell. Arweiniodd y strategaeth farchnata a chyfathrebu lwyddiannus ar draws y Llywodraeth a'r diwydiant trafndiaeth ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012.

Mae Vernon hefyd wedi gweithio ar lefel uwch yn yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac ym Manc Lloegr mewn amrywiaeth o swyddi bancio, rheoleiddio, corfforaethol a chyfathrebu. Mae'n uwch ymgynghorydd i'r ymgynghoriaeth Teneo. Ymunodd â TrC fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Medi 2019.



James Price

Prif Swyddog Gweithredol

Penodwyd James, cyn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol yn Llywodraeth Cymru, yn Brif Swyddog Gweithredol TrC ym mis Ionawr 2018 ar ôl bod yn Gadeirydd yn ystod y cyfnod sefydlu.

Dechreuodd James ar ei yrfa ym maes contractio peirianeg sifil yn wreiddiol. Ac yntau'n economegydd proffesiynol, mae wedi gweithio ledled y DU gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gydag asiantaethau sy'n eiddo i'r llywodraeth yng Nghymru a Lloegr.

Tan ddiwedd 2017, ef hefyd oedd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer yr Economi, Trafnidiaeth, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, gan arwain tîm o tua 2,500 o weision sifil.

Mae James wedi bod yn gyfrifol am gyflenwi seilwaith i Lywodraeth Cymru er 2007, yn gyntaf fel Cyfarwyddwr Trafnidiaeth ac yna fel Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol. Erbyn hyn, mae'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd TrC a stiwardiaeth briodol dros arian cyhoeddus. Mae James hefyd yn Gadeirydd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf ac yn Gyfarwyddwr Pullman Rail Ltd.



Heather Clash

Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol

Ar ôl byw, astudio a gweithio yng Nghymru am dros 30 o flynyddoedd, ymunodd Heather â TrC ym mis Gorffennaf 2018. Mae hi'n weithiwr proffesiynol profiadol ym maes cyfrifyddu, ac astudiodd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hi wedi gweithio ym maes cyllid ar hyd ei gyrfa.

Mae Heather yn arbenigo mewn rheolaeth a rheoli portffolios contractau allanol a swyddogaethau corfforaethol mewn sefydliadau corfforaethol mawr. Cyn ymuno â TrC, bu'n gweithio fel Cyfarwyddwr Cyllid mewn amrywiaeth o sefydliadau mawr gan gynnwys Is-adran Gwasanaethau TG Capita Group Plc a Gwerthu a Marchnata yn y DU ar gyfer Compass Group UK ac Iwerddon.

Mae Heather yn aelod o'r uwch dîm arwain yn TrC ac mae'n gyfrifol am gynllunio a strategaeth ariannol, gan ddadansoddi perfformiad a risg y sefydliad, goruchwyllo ei swyddogaeth llywodraethu a chyllid, yn ogystal â'r holl reolaethau archwilio a rheolaeth ariannol fewnol. Mae Heather hefyd yn gyfarwyddwr Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig a TFW Fibre Limited.

PWYLLGORAU BWRDD AC ADRODDIADAU GAN EU CADEIRYDDION

Pwyllgor Archwilio a Risg

Cadeirydd – Alun Bowen

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio system rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC, adroddiadau ariannol ac anariannol, a'r Gymraeg, y tu mewn a'r tu allan i TrC.



Uchafbwyntiau 2023/24

Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei Bolisi Archwilio a Sicrwydd cyntaf ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 ym mis Medi 2022. Mae'r Polisi Archwilio a Sicrwydd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gwaith a wneir gan y pwyllgor. Y llynedd, cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio a Risg ei Adroddiad Gweithredu Blynyddol cyntaf sy'n nodi'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r Polisi Archwilio a Sicrwydd a sut mae'r gweithgarwch sicrwydd a nodir yn y Polisi Archwilio a Sicrwydd yn gweithio'n ymarferol. Mae'r ail Adroddiad Gweithredu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 [ar gael yma](#). Ym mis Rhagfyr 2023, penderfynodd Llywodraeth y DU i beidio â gwneud cyhoeddi Polisi Archwilio a Sicrwydd yn ofyniad deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn credu ei fod ef, y Bwrdd a rhanddeiliaid yn cael gwerth o ymgynghori a chyhoeddi Polisi Archwilio a Sicrwydd a sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd drwy'r adroddiadau gweithredu blynyddol, yn unol ag ymrwymiad TrC i dryloywder yn ei holl weithgareddau. Yn unol â hynny, yn

ddiweddarach yn y flwyddyn bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyhoeddi, ar gyfer ymgynghori, Polisi Archwilio a Sicrwydd drafft ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2028.

Mae'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol hefyd yn rhoi rhywfaint o fanylion am uchafbwyntiau 2023/24. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran gwella rheolaethau mewnol dros adroddiadau ariannol ac anariannol
- cyhoeddi polisi gwrth-dwyll, hyfforddiant cysylltiedig a monitro a lliniaru'r risg o dwyll
- canlyniad Asesiad Ansawdd Allanol annibynnol o'r swyddogaeth archwilio mewnol
- sylwebaeth y pwyllgor ar sut mae'n credu bod y gweithgarwch sicrwydd yn TrC yn gweithio'n ymarferol.



Un o brif gyfrifoldebau'r pwyllgor yw sicrhau bod gwybodaeth ariannol ac anariannol TrC a chynnwys yr adroddiad blynyddol hwn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Mae'r pwyllgor yn herio'r tybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed gan reolwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol ac wrth baratoi'r wybodaeth anariannol sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y mater mwyaf materol yn y datganiadau ariannol yw prisio asedau seilwaith TrC.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod TrC yn parhau i wneud cynnydd da yn ei uchelgeisiau i sicrhau ei bod mor hawdd ymgysylltu â phob agwedd ar waith TrC yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Blaenoriaethau 2024/25

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi ymrwymo yn ystod y deuddeg mis nesaf i sicrhau bod yr agweddau canlynol ar y materion y mae'n eu goruchwyllo yn cael eu cwblhau neu eu datblygu'n foddhaol:

- Parhau â'r cynnydd o ran gwella'r rheolaethau mewnol dros adroddiadau ariannol ac anariannol, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith a sicrhau ei fod wedi'i gynnwys yn llawn yn ystod 2025.
- Sicrhau bod holl argymhellion yr Asesiad Ansawdd Allanol annibynnol o'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cael eu gweithredu a bod y swyddogaeth archwilio fewnol yn cydymffurfio â'r safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol sydd newydd eu cyhoeddi.
- Cyhoeddi Polisi Archwilio a Sicrwydd ar gyfer y tair blynedd a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2028.

Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

Cadeirydd – Sarah Howells

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwylio strategaeth cwsmeriaid TrC a'i gynlluniau cyflawni. Mae'r pwyllgor yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol (fel prydlondeb) ynghyd ag adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn a bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r gwasanaeth a'r trawsnewid y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.



Uchafbwyntiau 2023/24

- Eleni, adolygodd y pwyllgor ei rôl i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chylch gwaith a strwythur sefydliadol diwygiedig TrC.
- Monitro perfformiad a darpariaeth teithwyr ledled Cymru a'r gororau ynghyd â chraffu ar gwynion a pherfformiad ad-dalu am oedi.
- Adolygu'r gwaith o gyflawni'r rhaglen trawsnewid cysylltiadau cwsmeriaid, sy'n ceisio darparu cymorth i'n cwsmeriaid ledled Cymru a'r gororau.
- Adolygu'r rhaglen drawsnewid ddigidol barhaus ar gyfer teithwyr.
- Adolygu'r gwasanaethau parhaus yn lle trenau ynghyd â gwelliannau mawr i gynllunio digwyddiadau.
- Adolygu'r cynlluniau parhaus ar gyfer marchnata a thrawsnewid teithio aml-ddull ynghyd â datblygu strategaethau tocynnau i gefnogi mynediad at deithio cynaliadwy i bob teithiwr.

Blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

- Craffu parhaus ar berfformiad gweithredol a chynlluniau gwella.
- Monitro gwelliannau o ran cymorth i gwsmeriaid, gan sicrhau bod technoleg yn esblygu'n barhaus a bod prosesau a pherfformiad yn cael eu gwella i gyflawni'r canlyniadau a ddisgwyllir gan gwsmeriaid.
- Adolygu perfformiad a rhaglen trawsnewid gorsafodd a Metro yn barhaus.
- Parhau ag ymgyrchoedd newid ymddygiad teithio aml-ddull.

Iechyd, Diogelwch, Lles a Chynaliadwyedd

Cadeirydd – Nicola Kemmery

Mae'r Pwyllgor hwn yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ei fuddiannau a'i atebolrwydd dros iechyd, diogelwch, lles, cynaliadwyedd, addasu hinsawdd, diogelwch gwytnwch a pharhad busnes yn cael eu rheoli'n briodol. Mae'n sicrhau bod mesurau cadarn ar waith yng nghyswllt gweithgareddau'r cwmni fel y maent yn effeithio ar y cyhoedd (gan gynnwys cwsmeriaid), gweithwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol, contractwyr a chyflenwyr. Mae'n adolygu amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol gan wneud argymhellion, creu heriau, ac atgyfnerthu gweithgareddau cadarnhaol i hyrwyddo gwelliant parhaus a rhannu arferion gorau ar draws buddiannau'r cwmni.



Uchafbwyntiau 2023/24

- Adolygodd y pwyllgor ei rôl, ei gylch gwaith a'i aelodaeth yn ystod y flwyddyn i sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n effeithiol â phob agwedd ar weithgareddau TrC. Roedd mwy o bwyslais ar feddwl am deithio amlfodd.
- Roeddent wedi adolygu'r cynlluniau busnes i sicrhau bod trefniadau addas ar waith i reoli risgiau, gosod targedau heriol a gwneud gwelliannau.
- Roedd ffocws ar atal anafiadau a digwyddiadau ynghyd â thresmasu, dwyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau profiad teithio diogel i gwsmeriaid a gweithwyr.
- Dangosodd yr aelodau welliant parhaus o ran rheoli risg iechyd, diogelwch, llesiant a chynaliadwyedd. Sicrhau bod pwyntiau dysgu allweddol o archwiliadau a digwyddiadau yn cael eu nodi a chamau gweithredu addas yn cael eu cymryd.
- Buont yn craffu ar y cynlluniau i sicrhau diogelwch a chadernid, gan gynnwys cynlluniau parhad busnes a pharodrwydd ar gyfer argyfwng.
- Roeddent hefyd yn annog gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau allanol gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain, Network Rail, Bwrdd Safonau Diogelwch Rheilffyrdd a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i sbarduno gwelliannau.
- Bu'r pwyllgor yn monitro gweithrediad effeithiol amrywiaeth o gynlluniau gan gynnwys:
 - Teithiau arweinyddiaeth a digwyddiadau camau diogelwch i sicrhau bod uwch reolwyr yn ymgysylltu'n weithredol â staff a chontractwyr ar draws y busnes.
 - Datblygu a darparu ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd o risgiau llinellau rheilffyrdd trydan uwchben.
 - Sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer cyflwyno fflyd rheilffyrdd newydd yn ddiogel.
 - Gweithgareddau Cynghrair Craidd, gan weithio gyda chontractwyr i osod safonau a rhannu dulliau dysgu, yn enwedig y rheini sy'n gweithio ar Linellau Craidd y Cymoedd, a gwella seilwaith.
 - Cynnal y ffocws ar iechyd galwedigaethol, hylendid a llesiant a chefnogi dyheadau llesiant Llywodraeth Cymru.
 - Cynlluniau i gyflawni datblygu cynaliadwy, y strategaeth ynni, ymateb i heriau addasu i'r hinsawdd a gweithredu asesiadau risg cydnerthedd.



Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25

- Parhau i fonitro perfformiad ar draws holl weithgareddau TrC, gan sicrhau ein bod yn nodi ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn datblygu gwelliannau ac yn ymgymryd â gweithgareddau sicrwydd priodol.
- Hyrwyddo arweinyddiaeth iechyd a diogelwch amlwg, gan gynnwys teithiau diogelwch uwch ar weinwyr, sesiynau briffio iechyd a diogelwch staff a gweithgareddau ymgysylltu.
- Monitro'r gwaith o weithredu, adeiladu a chynnal a chadw asedau'n ddiogel er mwyn sicrhau bod risgiau o anafiadau, salwch ac effeithiau amgylcheddol yn cael sylw effeithiol.
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus, gan sicrhau bod timau'n canfod cyfleoedd i rannu dysgu a rheoli risgiau. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar y tymor hwy gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Sicrhau bod gan y busnes brosesau effeithiol ar waith i reoli iechyd, diogelwch, llesiant a chynaliadwyedd wrth i'r sefydliad weithredu technolegau newydd a chymryd swyddogaethau a chyfrifoldebau ychwanegol.

Y Pwyllgor Prosiectau Mawr

Cadeirydd – Vernon Everitt

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Mawr yn sicrhau bod y weithrediaeth yn canolbwyntio'n drylwyr ar ddiogelwch, cyflawni, rheolaethau a rheoli risg prosiectau mawr. Mae'r pwyllgor hefyd yn monitro'r llif o brosiectau newydd posibl. Mae'r pwyllgor yn cymryd adroddiadau rheolaidd ar gyflawni prosiectau ar ran Bwrdd TrC. Mae'n monitro ac yn herio mesurau lliniaru risg a'r amgylchedd rheoli a sefydlwyd gan y weithrediaeth.



Uchafbwyntiau 2023/24

- Canolbwyntio ar gynllunio a chyflwyno prosiectau'n effeithiol, gyda diogelwch y cyhoedd a'r staff bob amser yn aros yn brif flaenoriaeth. Mae uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd a chyflawni symudiad Llywodraeth Cymru tuag at fasnachfreinio bysiau wedi bod yn eitemau sefydlog ar yr agenda.
- Monitro cynnydd ar uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd, trawsnewid gwasanaethau bysiau, darparu cerbydau rheilffyrdd, datblygu cynllun Metro yng Ngogledd a De Cymru, Cyfnewidfa Bws Caerdydd, uwchraddio Gorsaf Caerdydd Canolog ac adnewyddu seilwaith.
- Wedi adolygu adroddiadau cryno gan y Swyddfa Rheoli Prosiectau ar statws prosiectau sy'n mynd rhagddynt drwy Gylch Bywyd Cynllun Gwaith TrC ac wedi olrhain aeddfedrwydd y Swyddfa Rheoli Prosiectau ei hun fel dull allweddol ar gyfer rheoli prosiectau mawr yn effeithiol.

Blaenoriaethau ar gyfer 2024/25

- Dylunio a chyflwyno prosiectau mawr yn ddiogel.
- Monitro'r gwaith o uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn effeithiol.
- Parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cerbydau fel ffordd o wella perfformiad gwasanaethau rheilffyrdd.
- Dyfnhau'r broses graffu ar drawsnewid bysiau wrth i gynlluniau ar gyfer masnachfreinio ddatblygu ymhellach.
- Monitro aeddfedrwydd dull TrC o reoli prosiectau mawr, gan gynnwys archwilio effeithiolrwydd y Swyddfa Rheoli Prosiectau

Is-bwyllgor T-Network

Tua diwedd y flwyddyn, creodd y Bwrdd is-bwyllgor 'T-Network' newydd dan gadeiryddiaeth Vernon Everitt. Pwrpas yr is-bwyllgor yw arwain datblygiad TrC mewn ymateb i gylch gwaith Llywodraeth Cymru i sefydlu system drafnidiaeth integredig (Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn) a chreu 'un tîm' i'w chyflawni. Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod y rhaglen a'r ffyrdd iawn o weithio ar waith i ddarparu gwell trafnidiaeth i bobl a busnesau Cymru a'i bod yn cefnogi ein rhwymedigaethau trafnidiaeth Sero Net Cymru a'n targedau newid dulliau teithio fel y nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021. Bydd gwaith yr is-bwyllgor hwn yn cael sylw yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

Cadeirydd – Alison Noon-Jones

Mae'r Pwyllgor Pobl yn helpu'r Bwrdd i adolygu Strategaeth Pobl TrC. Mae'n sicrhau bod y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn cadw strwythur, maint a chydbwysedd priodol. Mae'n adolygu cynlluniau datblygu blynyddol timau arwain. Mae'r pwyllgor yn monitro metrigau a dangosfyrddau allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o asesu perfformiad presennol a nodau TrC yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant.



Roedd Pwyllgor Pobl TrC wedi parhau i aeddfedu o ran effaith a gwerth ychwanegol yn ystod 2023/24. Roedd y meysydd ffocws a'r prosiectau'n amrywio o fireinio metrigau gweithredol a dangosyddion perfformiad allweddol, i benderfyniadau proffil uchel ynghylch dillad gwaith ar gyfer staff yr orsaf.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn adolygu ac yn argymhell polisi taliadau sy'n denu ac yn cadw Swyddogion Gweithredol ac Uwch Arweinwyr TrC. Mae'n nodi egwyddorion gwobrwyo cyffredinol y Bwrdd Gweithredol sy'n ysgogi ein huwch staff i gyflawni amcanion TrC.

Datblygu cynllun pobl 5 mlynedd trawiadol yw sylfaen yr ymrwymiad i'n gweithwyr a'n cwsmeriaid yn y dyfodol. Mae'r trawsnewid yn gyffrous; mae'r cyfle i dyfu'n sylweddol.

Mae TrC yn parhau i greu amgylchedd sy'n annog pobl o bob cefndir i ffynnu. Rydyn ni'n dangos hyn drwy ein gwerthoedd, ein hymddygiad a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant fel cyflogwr ac yn annog ein gweithwyr i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n rhoi'r gwerthoedd hyn wrth galon ein sefydliad.

Mae sicrhau cydbwysedd cryf rhwng y rhywiau yn dal yn flaenoriaeth i TrC ac rydyn ni'n parhau i fuddsoddi mewn talent menywod ar bob lefel drwy ddatblygu a hyrwyddo mewnol yn ogystal â phenodiadau allanol lle mae angen i ni sicrhau arbenigedd newydd. Mae penodi Mandy Garrett, y Cyfarwyddwr Strategaeth Ddigidol a TG, yn enghraifft wych o'r ymrwymiad hwn a chydabyddiaeth o fanteision arweinyddiaeth gydweithredol.

Mae datblygiad personol, boddhad a datblygiad gyrfaol yn chwarae rhan allweddol yn ymrwymiad unigolyn i aros gyda'r cwmni. Mae ein harolygon ymgysylltu â gweithwyr a phwls rheolaidd yn annog adborth ar yr elfennau craidd hyn o daith gweithiwr gyda TrC.

Mae'r Pwyllgor Pobl yn parhau i ddathlu'r dalent eithriadol sydd gennym yn TrC. Mae'r Sector Trafnidiaeth a Chyrrff Proffesiynol fel y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) hefyd yn cydnabod gwaith gwyth ein pobl, ar ôl cyrraedd y rhestr fer ar gyfer nifer o gredydau a gwobrau o fri yn ystod 2023/24, gan gynnwys y Wobr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Gorau (CIPD). Cafodd ein ffocws parhaus ar yrfaedd cynnar gydnabyddiaeth bellach yng Ngwobrau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.



Mae arweinyddiaeth pobl yn allweddol i greu diwylliant o dwf ac ymgysylltu ac roedd hyn yn sail i ffocws y Pwyllgor Pobl yn ystod 2023/24. Roedd cynrychiolaeth ar Fyrddau a phwyllgorau yn cynnwys cydnabyddiaeth nodedig i'r Prif Swyddog Cwsmeriaid a Diwylliant, Marie Daly a arweiniodd, fel Cadeirydd Women in Rail sesiynau ysbrydoledig ac a luniodd yr agenda cynhwysiant ac amrywiaeth i lefelau trawiadol o fewn TrC yn ystod y flwyddyn.

Uchafbwyntiau 2023/24

- Penodi menter gymdeithasol, Elite Clothing Solutions i ddatblygu dillad unffurf, gwella arferion cynaliadwy yn ein cadwyn gyflenwi a chefnogi ymrwymadau EDI drwy fynd i'r afael â gofynion y menopos.
- Ymgysylltu â'r gymuned drwy bartneriaeth ag elusen ffoaduriaid a cheiswyr lloches, Oasis.
- Lansio cynllun gwrth-hiliaeth sy'n cyd-fynd ag amcan Llywodraeth Cymru o Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.
- Rhestr fer ar gyfer Cyflogwr Mawr y Flwyddyn Cymru.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl, rwy'n ymfalchïo yn ein cyflawniadau dros y 12 mis diwethaf. Rydw i'n bersonol wedi fy ysbrydoli ac yn edrych ymlaen at y dyfodol a'r cyfle i barhau i greu llwybrau i'n pobl ffynnu yn eu gyrfaoedd dewisol ym maes teithio llesol.

Blaenoriaethau ar gyfer 2024-25

- Noddi datblygiad diwylliannol parhaus.
- Ysgogi cyfranogiad ac ymgysylltiad gweithwyr drwy brosesau trawsnewid cefnogol.
- Annog twf personol drwy lwybrau gyrfa a chyfleoedd mewnlol gwell.
- Cynnal ein partneriaethau cymunedol presennol a pharhau i gryfhau ein hymrwymadau gwerth cymdeithasol.
- Defnyddio technolegau newydd gan gynnwys deallusrwydd artifisial i wella ystwythder a dadansoddi data.



DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n bersonol gyfrifol am reoli a llywodraethu grŵp cyffredinol TrC o gwmnïau, gan gynnwys ei bedwar is-gwmni (Rheilffyrdd TrC, Gwasanaethau Arloesi TrC, TfW Fibre a Pullman Rail).

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n atebol i Fwrdd TrC ac Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Trafnidiaeth Cymru eleni.

Mae TrC wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran llywodraethu, atebolrwydd a thryloywder. Mae'r gwerthoedd hyn yn hollbwysig i lwyddiant pob agwedd ar grŵp TrC.

Mae TrC yn cael ei lywodraethu gan y canlynol:

- Gweinidog y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros y cwmni.
- Cyfrifoldeb Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (i Weinidog y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth) ac yn uniongyrchol i Senedd Cymru) fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer gwariant a rheolaeth TrC.

Fy nghyfrifoldeb i fel Swyddog Cyfrifyddu TrC:

- Bwrdd TrC, a gefnogir gan ei is-bwyllgorau, sydd â chyfrifoldeb ar y cyd dros oruchwylio gwaith y cwmni, yn ogystal â goruchwylio, craffu a chynnig sicrwydd i wneud yn siŵr bod TrC yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gyda lefel priodol o reolaeth fewnol.
- Byrddau is-gwmnïau TrC: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru, TfW Fibre a Pullman Rail Ltd.

Mae system lywodraethu TrC hefyd yn cynnwys y Tîm Arwain Gweithredol.

Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar ein Herthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Rheoli rhwng TrC a Gweinidogion Cymru. Ar gyfer TrC, mae llywodraethu corfforaethol da yn golygu sicrhau bod grŵp cwmnïau TrC yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion Cymru fel y nodir yn y ddwy ddogfen hyn, ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru a'n hamserlen dirprwyo. Gan nad yw TrC yn gwmni rhestredig, nid oes rhaid i ni gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd y cwmni'n cydymffurfio'n wirfoddol ag Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol Wates.



Bwrdd TrC

Mae Bwrdd TrC yn goruchwyllo ein holl weithgareddau gan ddarparu arweinyddiaeth a gweledigaeth strategol. Mae'n sicrhau bod safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol a ffyrdd o weithio yn cael eu cynnal. Mae'n gweithredu ar y cyd, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i oruchwyllo a llywodraethu.
- Materion strategol a sylweddol sy'n effeithio ar weithrediadau grŵp cwmnïau Trafnidiaeth Cymru wrth gyflawni ei gyloch gwaith.
- Rhoi strategaeth y Bwrdd ar waith. Mae'n llywio, yn herio ac yn craffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd perfformiad TrC, gyda'r bwriad o sicrhau ei ddyfodol a'r weledigaeth o greu rhwydwaith trafniadaeth y mae Cymru'n falch ohono.

Gall y Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros weinyddu materion rheoli o ddydd i ddydd i'r Tîm Arwain Gweithredol, ond nhw sy'n dal yn gyfrifol ac yn atebol am bob mater yn y pen draw. Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn craffu ar berfformiad y weithrediaeth o ran cyflawni amcanion y cytunwyd arnynt. Mae aelodau o Dîm Gweithredol TrC yn bresennol yn rheolaidd i gyflwyno papurau gydag argymhellion ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae sylwedydd enwebedig o'r undebau llafur yn ymuno â'r Bwrdd ar gyfer rhan o'r sesiwn strategol. Mae'r arsylwr yn cael ei ethol drwy broses sy'n cael ei goruchwyllo gan TUC Cymru ac, er nad yw'n aelod llawn o'r Bwrdd ac nad oes ganddo hawliau pleidleisio, mae'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau. Croesawodd y Bwrdd sylwedydd Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o'r sector llywodraeth leol hefyd. Nid yw sylwedyddion yn aelodau llawn o'r Bwrdd fel y cânt eu cofnodi ar Dŷ'r Cwmnïau.

Mae ein Cyfarwyddwyr wedi llofnodi datganiad Datgan Buddiannau ac wedi cwblhau diweddariad chwarterol ar ddatganiadau o fuddiant. Mae'r buddiannau a ddatganwyd ar gael ar wefan TrC. Mae datganiadau o fuddiant fel y maent yn berthnasol i eitemau penodol ar yr agenda hefyd yn cael eu gwneud ar ddechrau pob cyfarfod.

Disgwylir i bob cyfarwyddwr ymddwyn yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus ac mae pob un wedi llofnodi telerau Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC sy'n cynnwys Cod Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus.

Eleni, cyfarfu ein Bwrdd un ar ddeg o weithiau. Cyhoeddir cofnodion holl gyfarfodydd y Bwrdd yn www.trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/byrddau-ein-cwmni.

Presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r is-bwyllgorau am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

	Bwrdd	Archwilio a Risg	Cwsmeriaid a Chyfathrebu	Iechyd, Diogelwch a Lles	Prosiectau Mawr	Pobl, Taliadau ac Enwebiadau	T-Network
Alun Bowen	10/11	5/5			4/6		
Heather Clash	11/11	5/5			6/6		
Vernon Everitt	10/11				5/6		2/2
Sarah Howells	11/11	4/5	4/4				
Nicola Kemmery	11/11			4/4		3/3	
Alison Noon-Jones	11/11		4/4			3/3	
James Price	11/11		1/4		6/6		2/2
Scott Waddington	11/11						



Mae ein Bwrdd yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau chwe aelod Anweithredol a dau aelod Gweithredol i ddarparu gwybodaeth a phrofiad sy'n helpu i lunio ein cyfeiriad strategol. Mae bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd ar gael yn <https://trc.cymru/about/team>. Mae ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn dod ag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad i'r Bwrdd ac mae pob un yn weithwyr proffesiynol blaenllaw yn eu meysydd eu hunain. Maent yn rhoi barn annibynnol ar faterion yn ymwneud â strategaeth, perfformiad a risg. Maent mewn sefyllfa dda i herio a chraffu'n adeiladol ar berfformiad y rheolwyr.

Amrywiaeth y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod amrywiaeth ym mhob maes yn allweddol i wneud yn siŵr bod safbwyntiau amrywiol yn cael eu cyflwyno i'w prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn credu bod rhywedd yn elfen bwysig wrth greu'r Bwrdd gorau posibl o ran cydbwysedd a chyfansoddiad. Yn ein Bwrdd ar hyn o bryd mae pedair menyw a phedwar dyn.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo pwerau penodol i chwe is-bwyllgor y Bwrdd, sy'n gweithredu i gynorthwyo'r Bwrdd i gwblhau ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau cyffredinol. Mae'r is-bwyllgor Archwilio a Risg yn cynnig sicrwydd i'r Bwrdd ynglŷn â rheoli risg, rheolaeth fewnol ac adroddiadau ariannol.

Mae'r is-bwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn cynorthwyo'r Bwrdd i adolygu, monitro a rhoi cyfarwyddyd ar bynciau sy'n ymwneud â chwsmeriaid. Rydym yn helpu pobl i deithio'n ddiogel. Rydym yn rhoi sylw penodol i leisiau ein cwsmeriaid. Rydym yn trawsnewid profiad y cwsmer drwy gyfathrebu'n agored ac yn onest. Rydym yn defnyddio arloesedd digidol i wella teithiau.

Mae'r is-bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles yn helpu'r Bwrdd i argymhell polisi iechyd a diogelwch, monitro ac asesu cydymffurfiaeth, a datblygu a chyflawni gwelliant parhaus. Rydym yn adolygu ac yn ymchwilio i ddiwyddiadau iechyd a diogelwch. Mae ein gwaith yn cynnwys ystyried materion iechyd a diogelwch a allai fod â goblygiadau strategol, o ran busnes ac enw da'r cwmni ac argymhell mesurau ac ymatebion priodol.

Mae'r is-bwyllgor Prosiectau Mawr yn helpu'r Bwrdd i adolygu a chraffu ar brosiectau mawr ac argymhell penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'r brosiectau mawr ym mhorthfolio TrC. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni rhaglen buddsoddi TrC mewn seilwaith cyfalaf.

Mae'r is-bwyllgor Pobl, Taliadau ac Enwebiadau yn cynorthwyo'r Bwrdd gyda phob mater sy'n ymwneud â strwythur y sefydliad, cydymffurfiaid â pholisi, fframweithiau cyflog a pholisi, hyfforddi a datblygu, egwyddorion a pharmedrau polisi taliadau, gweinyddu'r cynllun buddion ac enwebiadau'r Bwrdd.

Ym mis Chwefror 2024, sefydlwyd y Pwyllgor T-Network i osod egwyddorion a pharmedrau T-Network TrC ac i oruchwylio'r ffrydiau gwaith cysylltiedig a fydd yn cefnogi'r amcan strategol o gyflawni'r T-Network. Bydd y pwyllgor hwn yn sicrhau bod TrC yn ymateb i gylch gwaith Llywodraeth Cymru i ddarparu system drafndiaeth integredig (Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn) ac i greu 'un tîm' i gyflawni hyn drwy raglen newid diwylliant.

Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol, ac maent yn cwrdd bob chwarter o leiaf. Mae'r pwyllgorau Prosiectau Mawr, Profiad Cwsmeriaid a Chyfathrebu a T-Network yn cyfarfod bob dau fis. Mae gan bob is-bwyllgor Bwrdd awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl. Mae Cadeirydd pob is-bwyllgor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau'r is-bwyllgor yn ystod y mis blaenorol a (lle bo angen) yn gwneud argymhellion ar ran yr is-bwyllgor i'r Bwrdd eu cymeradwyo.



Fframwaith llywodraethu

Mae ein Bwrdd yn atebol i Weinidogion Cymru, sef yr unig aelod o'r cwmni. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi strategol sy'n gysylltiedig â'r holl faterion trafndiaeth datganoledig. Ar gyfer y rhan fwyaf o 2023/24, rhoddodd y Prif Weinidog y prif gyfrifoldeb dros oruchwylio TrC i'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Aeth y Gweinidog ati i gymeradwyo TrC drwy osod amcanion, blaenoriaethau a chyllidebau gweithredol a chyfalaf, sy'n sail i gynllun busnes blynyddol TrC a'i strategaeth gorfforaethol pum mlynedd. O ddiwedd mis Mawrth 2024 ymlaen, dyrannwyd prif gyfrifoldeb dros oruchwylio TrC i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth.

Mae'r berthynas rhwng TrC a Llywodraeth Cymru o ran rheoli arian a llywodraethu corfforaethol wedi'i amlinellu yn y Cytundeb Rheoli. Mae'r ddogfen hon yn nodi telerau'r cytundeb rhwng TrC a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi cysylltiadau adeiladol a chllir rhyngddynt.

Y Tîm Arwain Gweithredol

Mae ein tîm arwain gweithredol yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol (fi) a naw aelod arall sy'n canolbwyntio ar reolaeth TrC o ddydd i ddydd. Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn cwrdd bob wythnos i drafod a gwneud penderfyniadau ar faterion gweithredol a strategol. Mae'r tîm yn gyfrifol am gyllid, iechyd a diogelwch, pobl, rheoli risg, llywodraethu a pherfformiad a chynnydd prosiectau a rhaglenni.

Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Mae Bwrdd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gyfrifol am yr holl rwymedigaethau sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb Grant Gweithredwr Dewis Olaf sy'n ymwneud â masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Fel Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n cadeirio'r Bwrdd sy'n fy ngalluogi i ddal i gyfrif Prif Swyddog Gweithrediadau TrC sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros yr holl faterion gweithredol sy'n ymwneud â Rheilffyrdd TrC Cyf. Yn ei dro, mae Bwrdd TrC yn fy nal i gyfrif am berfformiad Rheilffyrdd TrC Cyf. Mae aelodau eraill o Fwrdd Rheilffyrdd TrC yn cynnwys y Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, y Prif Swyddog Masnachol, y Prif Swyddog Gweithrediadau, y Prif Swyddog Cwsmeriaid a Diwylliant, un Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol sydd hefyd yn cadeirio Grŵp Gweithredol Diogelwch Rheilffyrdd TrC Cyf; a Chyfarwyddwr Anweithredol Cyswllt sy'n arbenigo mewn cyllid.

Bwrdd Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf

Mae Bwrdd Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyf yn goruchwylio'r fenter ar y cyd rhwng TrC, Keolis ac Amey. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio cylch gwaith y cwmni gan gefnogi'r gwaith o ddarparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol TrC ac mae'n cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol arall TrC, Cyfarwyddwr o Amey a Chyfarwyddwr o Keolis.

TfW Fibre Ltd

Sefydlwyd TfW Fibre ddechrau 2024 i wneud defnydd masnachol o'r capasiti ffeibr sbâr sydd wedi'i osod yn bennaf i gludo'r signalau gweithredol a'r dulliau cyfathrebu sydd eu hangen i redeg y rheilffordd. Mae'r ffeibr ar gael drwy uwchraddio a moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Gellir defnyddio'r capasiti dros ben hwn yn awr i gefnogi gwasanaethau cyfathrebu yn yr ardal.

Rwy'n cadeirio'r Bwrdd dros dro ac mae ein Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Prif Swyddog Masnachol yn ymuno â mi. Rydym wedi dechrau proses i ddod o hyd i aelodau Anweithredol o'r Bwrdd.

Pullman Rail Ltd

Mae Pullman Rail yn gweithredu fel cwmni annibynnol sy'n darparu gwasanaethau o dan ei frand ei hun. Gan weithredu o'i depo yn Nhrefanna, Caerdydd, mae Pullman Rail yn darparu arbenigedd technegol ar y rheilffyrdd; uwchraddio cerbydau arbenigol; atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw pob cerbyd rheilffordd sy'n cludo teithwyr neu nwyddau; ac atebion rheilffyrdd peirianeg.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol TrC ac mae hefyd yn cynnwys dau Gyfarwyddwr Gweithredol arall TrC ac uwch reolwr o TrC. Mae Rheolwr Cyffredinol Pullman ac uwch reolwyr eraill yn bresennol fel y bo'n briodol.



Mae Bwrdd TrC yn cael diweddariadau ar ôl cyfarfod pob un o'i is-bwyllgorau cwmni.

Fframwaith rheolaeth fewnol

Mae pob corff sy'n cael ei gyllido gan arian cyhoeddus yng Nghymru yn gaeth i reolaethau mewnol ac allanol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â fframweithiau Llywodraeth Cymru, fel Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Drwy waith y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae TrC wedi rhoi trefniadau rheoli mewnol ar waith i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod arian ac adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn effeithlon. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol gyda sicrwydd a gafwyd gan ddefnyddio'r model "tair llinell amddiffyn".

Mae ein hamserlen dirprwyo'n nodi gyda phwy mae'r awdurdod yn y cwmni ar gyfer mathau penodol o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn enw neu ar ran TrC, a lle mae'r Bwrdd wedi dirprwyo unrhyw benderfyniadau o'r fath i'r Weithrediaeth neu un o is-bwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Amserlen yn nodi pa faterion sydd wedi'u cadw ar gyfer y Bwrdd yn unig, ac mae'n cynnwys awdurdodau gwario a gwneud penderfyniadau corfforaethol. Adolygodd y Bwrdd yr amserlen dirprwyo a gadwyd ar gyfer y Bwrdd ym mis Mehefin a Rhagfyr 2023. Ym mis Rhagfyr 2023, cyfunwyd dirprwyaethau awdurdod TrC a Rheilffyrdd TrC.

Yn ystod 2023/24 roeddem wedi parhau i wneud cynnydd boddhaol o ran datblygu a gweithredu ein hamgylchedd rheolaethau mewnol. Fe wnaethom gynnal dadansoddiad risg a chwmpasu o'r brig i lawr i nodi elfennau ariannol arwyddocaol cyfuno Grŵp TrC a datblygu ein tirwedd rheolaethau lefel endid hefyd. Rydym wedi gosod y fethodoleg, y dull gweithredu a'r rhaglen i wella ein amgylchedd rheolaethau mewnol a fydd yn dangos a yw ein rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol a (lle mae bylchau mewn rheolaethau wedi cael eu nodi) bydd cynllun adfer yn cael ei roi ar waith ac yn cael ei ail-brofi ar ôl adfer. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu ac amddiffyn ein hasedau, sicrhau cywirdeb yn ein datganiadau ariannol, glynu wrth bolisiau, rheoliadau, cyfreithiau a hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd yn ein prosesau.

Llywodraethu a rheoli ariannol

Mae cynlluniau busnes TrC yn dibynnu ar y gyllideb sy'n cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei nodi yn y llythyr cyllido blynyddol a'r llythyr cylch gwaith bob pum mlynedd. Mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu gyda'r rhagolygon ac yn cael eu hadolygu bob mis i wneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n unol â chyllidebau sydd wedi'u cymeradwyo ac er mwyn rhoi sicrwydd a chynghor i'r Bwrdd.

Gwrth-dwyll, gwrth-llwgrwobrwyo a chwythu'r chwiban

Nid yw TrC yn goddef unrhyw fath o ymddygiad sy'n ymwneud â thwyll, llwgrwobrwyo na llygredd. Yn ystod 2023/24, fe wnaethom lansio Strategaeth Atal Twyll newydd gyda Pholisi Gwrth-dwyll wedi'i ddiweddarau a'i uwchraddio ynghyd â gweithdrefnau wedi'u diweddarau ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau a chwythu'r chwiban. Roeddem hefyd wedi cytuno ar bolisi a gweithdrefn atal gwyngalchu arian. Ymchwili'r llawn i unrhyw achosion posibl o dwyll, llwgrwobrwyo neu lygredd. Cymerir camau disgyblu a/neu gyfreithiol lle bo'n briodol yn unol â'n polisi. Ni chafwyd gwybod am unrhyw achos o dwyll, llygredd na llwgrwobrwyo yn TrC yn ystod 2023-24. Rhaid rhoi gwybod yn ddi-oed i'r Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol am unrhyw weithgareddau sy'n cael eu hamau o wyngalchu arian. Ni wnaethpwyd unrhyw adroddiadau yn 2023/24.

Mae'n ofynnol i holl weithwyr newydd TrC ddilyn proses gynefino Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys modiwlau ar atal twyll, gwrthdaro rhwng buddiannau, rhoddion a lletygarwch a chwythu'r chwiban.

Mae ein polisi a'n trefniadau chwythu'r chwiban wedi'u cynllunio i sicrhau diwylliant o hyder ac amgylchedd diogel pe byddai rhywun yn mynegi unrhyw bryder yn TrC. Codwyd nifer o bryderon drwy ein gweithdrefn datgelu camarfer yn ystod y flwyddyn ac ymchwiliwyd iddynt.

Agored a thryloyw

Rydym ni wedi ymrwmo i fod yn agored a thryloyw yn y ffordd y mae TrC yn gweithredu fel busnes, ac rydym ni wedi mabwysiadu'r Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol sydd wedi'i lunio a'i gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r Cynllun yn ymrwmo TrC i wneud gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn.

Yn 2023/24, cafodd TrC 327 o geisiadau am wybodaeth ac roedd wedi bodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer bron 95% o geisiadau.



Rheoli Risg

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithrediadau TrC. Rydym yn cynnal asesiadau rheolaidd o'r risgiau rydym yn eu hwynebu. Mae'r prif risgiau'n cael eu cofnodi yn y Gofrestr Risgiau Strategol ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr hon ym mhob cyfarfod. Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn ystyried y Cofrestrau Risg Strategol a Gweithredol yn ei gyfarfodydd.

Mae ein prosesau risg yn nodi risgiau posibl ac yn eu blaenoriaethu yn ôl yr effaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Mae camau lliniaru yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â phob risg er mwyn rheoli a lleihau'r risgiau a nodwyd.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd ein Bwrdd ei barodrwydd i dderbyn risg yn ffurfiol i bennu maint, lefel a math y risgiau y mae prosiectau, rhaglenni, gweithgareddau busnes a TrC yn fodlon eu cymryd i gyflawni ei amcanion strategol ar bob lefel. Mae'r broses a ddilynir gan y Bwrdd yn seiliedig ar Lyfr Oren Llywodraeth y DU.

Sicrwydd

Mae prif ffynhonnell sicrwydd TrC yn dod o nodi a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal â threfniadau archwilio mewnol TrC, rydym hefyd yn cael sicrwydd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, y tîm arwain gweithredol, cofrestrau risgiau a gwybodaeth reoli arall. Rydym hefyd wedi darparu adroddiadau i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Bwrdd Llywio.

Mae gweithgareddau archwilio mewnol wedi cael eu cyflawni ar draws Grŵp TrC yn ystod 2023/24. Mae'r tîm archwilio'n parhau i ehangu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o TrC ac mae wedi ymchwilio i feysydd newydd yn ogystal â meysydd risg. Mae hyn wedi eu galluogi i gefnogi'r busnes ymhellach gydag argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r cynllun archwilio a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2023 wedi cael ei gyflawni dros y flwyddyn gan gynnwys adolygiadau ym meysydd systemau a phrosesau cyllid, cydymffurfiaid cyfreithiol (gan gynnwys gofynion ar gyfer yr ombwdsmyrn gwasanaethau cyhoeddus a rheilffyrdd), cyflenwadau tanwydd, prosesau rheilffyrdd penodol, rheoli cofnodion, rheoli contractau a chyflenwyr, systemau adnoddau dynol a chyflogres, rheoli risg a Pullman Rail.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2024/25 ym mis Mawrth 2024 gyda rhaglen seiliedig ar risg sy'n cwmpasu pob endid busnes ac amrywiaeth o feysydd ariannol ac anariannol.

Rwyf yn fodlon nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn fframwaith llywodraethu TrC na'n systemau rheoli mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd fframwaith llywodraethu a systemau rheolaeth fewnol TrC yn cefnogi cyflawniad polisiâu, nodau ac amcanion TrC, yn hwyluso arfer swyddogaethau'r Cwmni'n effeithiol ac yn diogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn bersonol gyfrifol amdanynt.

James Price

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu



DATGANIAD CYDNERTHEDD

Mae llawer o'r gweithgareddau y mae TrC yn ymwneud â nhw yn gofyn am bersbectif hirdymor.

Rydym yn cael ein cyllido'n bennaf o'r pwrs cyhoeddus gan grant cylch gwaith a chyllid arall ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu i Lywodraeth Cymru. Mae'r grant cylch gwaith hwn yn cynnwys y cymhorthdal grant ar gyfer gwasanaethau teithwyr rheilffyrdd ledled Cymru a'r Gororau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi llythyr cylch gwaith pum mlynedd i TrC ac mae'n darparu llythyr cyllido ar wahân ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i gyflawni gweithgareddau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi cyfarwyddiadau uniongyrchol eraill yn ystod y flwyddyn ar gyfer prosiectau a gweithgareddau penodol. Ar ben hynny, mae gan TrC strategaeth gorfforaethol pum mlynedd sy'n para tan 2027 ac mae wedi cyhoeddi ei gynllun busnes ar gyfer 2024/25 ym mis Mawrth 2024. Cytunwyd ar y ddau gyda Llywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, mae llawer o'n gweithgareddau'n gofyn am feddwl yn fwy hirdymor fel cynllunio ar gyfer prosiectau seilwaith, integreiddio mwy ar system drafndiaeth Cymru a sicrhau dyfodol gydag allyriadau carbon is.

Yn unol â hynny, mae ein dadansoddiad o'n cydnerthedd yn y tymor hwy wedi ei seilio ar wybodaeth y cyfarwyddwyr am y gweithgareddau hynny y gofynnwyd i ni gymryd cyfrifoldeb drostynt gan Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n rhagweld effaith rhagor o weithgareddau a allai o bosibl effeithio ar ein cydnerthedd yn y tymor byr a chanolig.

Cydnerthedd tymor byr

Mae'r cyfarwyddwyr wedi pennu "tymor byr" at ddibenion y Datganiad Cydnerthedd hwn fel y deuddeg mis ar ôl llofnodi'r datganiadau ariannol. Yn benodol, tan ddiwedd mis Mehefin 2025. Mae hyn yn cyd-daro â chyfnod asesiad y cyfarwyddwyr bod TrC yn fusnes gweithredol at ddibenion paratoi ein datganiadau ariannol.

Mae cydnerthedd tymor byr TrC yn cael ei gefnogi gan ffocws ar gydnerthedd gweithredol. Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod hyn yn bwysicach mewn tri phrif faes. Yn bennaf, argaeledd cerbydau, adnoddau ac isadeiledd a tharfu ar y rhwydwaith. Mae cynllunio yn y meysydd allweddol hyn yn hanfodol ac mae TrC yn canolbwyntio ei ymdrechion ar gynllunio a hefyd ar barhad busnes er mwyn cynyddu cadernid gweithredol ac felly ei berfformiad ariannol yn y tymor byr.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, mae'r cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos ei pharodrwydd i ddarparu cymorth ariannol ar adegau o straen eithafol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu at ein cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu hymrwymiad i ariannu TrC a'i is-gwmnïau am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad llofnodi ein datganiadau ariannol.

Cydnerthedd tymor canolig

Roedd Polisi Archwilio a Sicrwydd TrC ar gyfer y tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 yn cynnwys sefyllfa i ddangos cadernid TrC: sensitifrwydd ariannol i newidiadau yn ymddygiad cwsmeriaid trafndiaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi dewis dangos effaith ariannol y senario cyntaf drwy ddefnyddio cynnydd neu ostyngiad o 10% yn nifer y teithwyr rheilffyrdd. Mae'r sensitifrwydd hwn yn tybio bod y cymysgedd a'r gwariant cyfartalog fesul teithiwr yn aros yr un fath ac nad yw'r rheolwyr yn cymryd unrhyw gamau i gymell neu osgoi annog galw.

Byddai cynnydd neu ostyngiad o'r fath (nad yw hefyd yn ystyried gorlenwi posibl yn ystod oriau brig os bydd cynnydd yn nifer y teithwyr) yn arwain at lai neu fwy o ofynion cyllid referniw gan Lywodraeth Cymru o tua £16 miliwn y flwyddyn.



Cydnertedd tymor hir

Yn y cyfnod ar ôl 2027, rydym yn debygol o wynebu sawl her arall, a fydd yn effeithio ar ein gwytnwch yn y tymor hir. Y rhain yw:

- Bydd newid yn yr hinsawdd wrth i ni symud i economi carbon is yn cael effaith sylweddol ar TrC. Mae'r heriau hyn wedi'u nodi yn yr adran ar wahân ar newid yn yr hinsawdd.
- Newidiadau posibl i bolisi trafnidiaeth Cymru a'r DU yn y dyfodol.

Mae ein dull o adnabod risgiau sy'n dod i'r amlwg, sganio'r gorwel a chydweithio â chyrff trafnidiaeth a llywodraeth eraill yn rhoi rhywfaint o hyder i'r cyfarwyddwyr y bydd amser i allu mynd i'r afael â materion o'r fath ymhell ymlaen llaw, yn amodol ar gyllid priodol.



DATGANIAD GWYBODAETH ANARIANNOL A CHYNALIADWYEDD

Datganiad risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd – 2024

Yn 2020, roedd trafndiaeth yn gyfrifol am 15% o allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi cynnig llwybr lleihau carbon i gyflawni sero net yng Nghymru lle mae angen haneru allyriadau o drafnidiaeth (ac eithrio teithio awyren) yn fras erbyn 2030.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o faes trafndiaeth yng Nghymru drwy newid dulliau teithio o gerbydau preifat i drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Rydym yn galluogi'r newid hwn drwy ddarparu gwasanaethau sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd a mwy o seilwaith yn unol ag argymhellion Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Rydym wedi ymrwmo i gefnogi targed sector cyhoeddus Cymru o sero net erbyn 2030 fel yr amlinellir yng Nghanllaw Adroddiadau Carbon Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru.

Llywodraethu

Pwyllgorau: Rolau, Cyfrifoldebau a Gweithgareddau

Grŵp Llywio Newid yn yr Hinsawdd (CCSG)

Mae'r CCSG yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Diogelwch, Cynaliadwyedd a Risg TrC ac mae ganddo gynrychiolaeth traws-sefydliadol. Cynhelir cyfarfodydd bob mis. Mae'r Grŵp Llywio yn ail-gyfeirio Agwedd at Risgiau Hinsawdd TrC bob chwarter ac yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch, Llesiant a Chynaliadwyedd ar strategaeth a chanfyddiadau.

Yn 2023, fe wnaethom sefydlu'r Grŵp hwn i oruchwylio a darparu fframwaith atebolrwydd ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gweithgorau Addasu Hinsawdd ac Ynni a Charbon. Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob mis ac yn goruchwylio ac yn cynghori ar benderfyniadau sy'n ymwneud â datgarboneiddio, rheoli ynni ac addasu i'r hinsawdd. Yn ogystal â darparu swyddogaeth sicrwydd effeithiol, mae'r Grŵp yn cynnal cysondeb o ran y dulliau gweithio ar draws y ddau weithgor adrodd.

Gweithgor Addasu Hinsawdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL CCAWG)

Mae CCAWG Llinellau Craidd y Cymoedd yn cyfarfod bob mis ac yn adrodd i'r CCSG ar ei weithgareddau a'i gynnydd.

Gweithgor Ynni a Charbon

Bydd y Gweithgor Ynni a Charbon yn weithredol o Ch2 2024/25 ymlaen. Nid yw Cylch Gorchwyl y gweithgor hwn wedi'i bennu eto, ond bydd y grŵp yn adrodd ar ei gynnydd i'r CCSG i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol ynni a charbon.

Pwyllgor Iechyd, Diogelwch, Lles a Chynaliadwyedd

Mae'r Pwyllgor hwn yn monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, safonau a systemau perthnasol ym maes ynni a newid yn yr hinsawdd. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau chwarterol gan y CCSG ar gynnydd i gyflawni amcanion strategol carbon, ynni ac addasu i'r hinsawdd a chydnerthedd TrC a phenderfyniadau buddsoddi cysylltiedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio'r cynnydd o ran cyflawni amcanion strategol TrC sy'n ymwneud â charbon, ynni, addasu i'r hinsawdd, cydnerthedd, ac unrhyw benderfyniadau buddsoddi cysylltiedig.



Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro rheolaethau mewnol TrC ar gyfer rheoli risgiau a chyfleoedd newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys risgiau pontio a'r rheini sy'n effeithio ar gyflawni'r amcanion a amlinellir yn y tri chynllun craidd. Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwe mis ar y canlynol:

- Proffil risg newid hinsawdd sefydliadol TrC sy'n newid, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â newid i economi sero net.
- Sut rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a phenderfyniadau buddsoddi drwy systemau a phrosesau rheolaeth fewnol yn unol â'r gofynion a nodir yn y "Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd" TCFD.

Y Pwyllgor Prosiectau Mawr

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Mawr yn darparu dulliau llywodraethu a goruchwyliaeth ar gyfer prosiectau mawr datgarboneiddio, ynni ac addasu i'r hinsawdd, gan gynnwys buddsoddiadau cysylltiedig. Bydd unrhyw brosiectau mawr cydnerthedd, lleihau carbon neu ynni sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Buddsoddi i wneud penderfyniadau, ar ôl cyflwyno achos busnes.

Bwrdd TrC

Ein nod yw dilyn arferion gorau a chysoni ein hadroddiadau ar risg hinsawdd, rheoli carbon ac ynni â gofynion adrodd TCFD. Drwy ein Pwyllgor Archwilio a Risg, bydd adroddiadau yn erbyn parodrwydd i dderbyn risg hinsawdd TrC yn cael eu datgelu i Fwrdd TrC bob chwe mis a bob blwyddyn. Mae hyn yn galluogi ein Bwrdd i oruchwyllo a chraffu ar benderfyniadau a allai effeithio ar y parodrwydd i dderbyn risg corfforaethol yn unol â Matrics Risg y cwmni. Mae'r Bwrdd yn goruchwyllo ac yn monitro cynnydd yn erbyn nodau a thargedau yn uniongyrchol a thrwy'r is-bwyllgorau.

Llywodraeth Cymru

Ar hyn o bryd nid oes pŵer Adrodd ar Addasiadau na swyddogaeth debyg i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer datgelu risgiau i'r hinsawdd. Serch hynny, mae ein fframwaith adrodd wedi cael ei ddylunio i roi proses gadarn i ni ar gyfer rhoi gwybod i'n corff llywodraethu am risgiau o'r fath os bydd yn rhaid rhoi gwybod am risgiau hinsawdd yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cael copïau o'n prif risgiau, adroddiadau ar lefel bwrdd a strategaethau.

Strategaeth

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd adnabod a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gweithrediadau ac yn cyd-fynd â nodau hinsawdd Cymru. Rydym wedi datblygu [Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnherthedd \(CARP\)](#) sy'n rhoi manylion am sut byddwn ni'n asesu ac yn rheoli risg hinsawdd ar draws rhwydwaith, seilwaith a gweithrediadau Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r CARP yn rhoi map strategol i ni ar gyfer lliniaru ein bregusrwydd i risgiau hinsawdd ffisegol yn unol â'n cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru, sef sicrhau bod holl weithrediadau TrC sy'n cael eu cyflawni ar ran Gweinidogion Cymru yn cael eu dylunio a'u darparu ar sail y data diweddaraf ar risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a chynlluniau cadarn i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ar waith. Nod y CARP yw gwella cadernid ein holl weithrediadau a rhwydweithiau trafndiaeth, gan gynnwys unrhyw wasanaethau teithio ychwanegol posibl sy'n dod o dan ambarél TrC yn y dyfodol.

Mae newid dulliau teithio yn rhan allweddol o bolisi hinsawdd Llywodraeth Cymru ac er gwaethaf datgarboneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd, po fwyaf llwyddiannus yw TrC a Llywodraeth Cymru o ran sicrhau newid moddol, y risg fydd cynnydd yn allyriadau TrC, er y bydd hyn yn golygu y bydd allyriadau cyffredinol Cymru yn gostwng. Yn unol â hynny, rydym yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i leihau ein hallyriadau carbon i sero net ar y cyd erbyn 2030. I amlinellu'r gweithgarwch, byddwn yn ei gyflawni i helpu sector cyhoeddus Cymru i gyflawni'r targed hwn, rydym yn datblygu Cynllun Rheoli Carbon, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2024. Bydd y Cynllun yn rhoi map strategol a chynllun gweithredu wedi'i gostio i ni ar gyfer rheoli allyriadau sy'n deillio o'n gweithgareddau Cwmpas 1, 2 a 3.

Gan y bydd ein defnydd o ynni yn cynyddu'n sylweddol wrth i ni newid i drydan i bweru ein gwasanaethau trafndiaeth, rydym wedi datblygu Strategaeth Ynni 2030 (sydd i fod i gael ei chyhoeddi yr haf hwn). Nod y strategaeth yw lleihau faint o arian sy'n cael ei wario ar ynni ac allyriadau cysylltiedig ar draws ein hystâd a'n gwasanaethau trafndiaeth wedi'u trydaneiddio a bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni ein Cynllun Rheoli Carbon. Rydym wedi llunio cyfres o dargedau penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol sy'n seiliedig ar amser (SMART) yn ogystal â chyfrifo'r camau



gweithredu rydym yn ceisio eu cyflawni erbyn 2030 i'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i leihau risgiau hinsawdd sy'n deillio o'r ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio.

Byddwn yn datblygu Cynllun Gwella Ynni a Charbon i ddarparu'r map technegol ar gyfer rhoi cynlluniau ynni carbon isel ar waith. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau posibl a allai ein helpu i ddatgarboneiddio'r ynni rydyn ni'n ei ddefnyddio ar draws ein hystâd a gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u trydaneiddio, ar yr un pryd â chynyddu ein cydnerthedd tymor hir, mewn ffordd sy'n ein helpu i leihau gwariant gweithredol ar gyfer nwy a phŵer. Mae'r holl fesurau yng nghynllun gweithredu'r ail gam y tu allan i'r ffrydiau cyllido presennol a bydd angen buddsoddiad ychwanegol i alluogi eu cyflawni.

Ymaddasu i'r Hinsawdd, Cydnerthedd a Rheoli Risg

Rydym wedi datblygu a gweithredu Fframwaith Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd cadarn i fynd i'r afael ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar asedau a gwasanaethau. Cymeradwywyd y fframwaith hwn gan y tîm Arwain Gweithredol ym mis Mawrth 2023, ac mae'n darparu dull strwythuredig a mesuradwy o asesu risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws ein sefydliad. Yn unol â'n cyfarwyddeb cylch gwaith Llywodraeth Cymru, mae fframwaith CCRA wedi cael ei ddatblygu yn unol â sefyllfaoedd diweddaraf y DU ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

Mae Canolfan Hadley y Swyddfa Dywydd yn creu rhagolygon hinsawdd ar gyfer y DU ac yn fyd-eang gan ddefnyddio offer rhagamcanu arloesol a gwyddoniaeth hinsawdd. Cyhoeddwyd y diweddaraf yn 2018 (UKCP18). Mae fframwaith CCRA yn defnyddio Amcanestyniadau Tebygol seiliedig ar dir UKCP18 ar raddfa 25km sy'n cwmpasu rhanbarth Llinellau Craidd y Cymoedd er mwyn ein galluogi i asesu sut mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar yr asedau sy'n eiddo i ni.

Bydd y tîm Newid Hinsawdd yn cefnogi'r asesiad o risg hinsawdd gan ddefnyddio amcanestyniadau amgen ar gyfer unrhyw asedau newydd a fydd y tu allan i'r rhanbarth hwn. Mae holl amcanestyniadau UKCP18 yn cael eu mesur yn erbyn data gwaelodlin 1981-2000 ar gyfer pob newidyn perthnasol yn yr hinsawdd (tymheredd a dyddodiad).

Rydym yn defnyddio'r un fethodoleg ar gyfer y cyfnodau amser i asesu risg hinsawdd:

- Risgiau tymor byr (2020-2040)
- Risgiau tymor canolig (2040-2060)
- Risgiau tymor hir (2080-2099)

Gan gyd-fynd â chanllawiau'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, rydym yn cydnabod pwysigrwydd paratoi ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd a'n hamcan yw cynnal diogelwch teithwyr drwy addasu i effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd. Dewiswyd ein sefyllfaoedd drwy ddadansoddi effaith sylweddol bosibl, yn seiliedig ar ddiwyddiadau hanesyddol, risgiau hysbys ac effaith bosibl a ragwelir ac felly dyma'r rhai mwyaf priodol ar gyfer gweithrediadau TrC. Mae'r rhain wedi cael eu meincnodi yn erbyn cyrff tebyg yn y diwydiant gan gynnwys Network Rail, HS2 a Transport for London.

Er mwyn sicrhau asesiad cynhwysfawr, mae Fframwaith CCRA yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr werthuso risgiau yn erbyn y sefyllfaoedd newid hinsawdd canlynol:

1. **RCP6.0 (sefyllfa cynhesu byd-eang uchel – 2.8°C erbyn 2100):** Mae'r llwybr hwn yn cyfateb i gynhesu mwy na 2°C.
2. **RCP8.5 (sefyllfa cynhesu byd-eang uchel iawn – 4.3°C erbyn 2100):** Mae'r llwybr hwn yn cyfateb i gynhesu mwy na 4°C.

Cefnogir Fframwaith CCRA gan ddogfen ganllaw gynhwysfawr ac adnodd asesu sythweledol. Mae'r adnodd asesu yn ymgorffori data rhagamcanu hinsawdd, gan ganiatáu cwblhau CCRA manwl ar gyfer pob ased neu system. Mae'r adnodd yn cyd-fynd â matrices risg corfforaethol TrC, gan sicrhau dull cyson o asesu risg. Drwy weithredu'r Fframwaith CCRA hwn, nod TrC yw mynd ati'n rhagweithiol i nodi a lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, sicrhau cadernid ein hasedau a'n gwasanaethau, a blaenoriaethu diogelwch teithwyr yn wyneb hinsawdd sy'n newid.

Er bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda i helpu TrC i ddeall ei barodrwydd i dderbyn risg hinsawdd, drwy wreiddio Fframwaith Asesu Risg Newid yn yr Hinsawdd ar draws y sefydliad cyfan, nid ydym ar hyn o bryd yn deall pryd y bydd angen buddsoddi mewn mesurau addasu o ran pryd y bydd ein hasedau'n methu dan sefyllfaoedd hinsawdd penodol. Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o ddatblygu llwybrau addasu i'r hinsawdd i'n helpu i bennu trothwyon ar gyfer methiant asedau a phryd mae angen buddsoddi.



Defnyddir y dull llwybrau addasu ym maes cydnerthedd hinsawdd i gefnogi penderfyniadau strategol, hyblyg a strwythuredig drwy nodi'r adegau gorau i gymryd camau addasol i leihau'r gost o weithredu'n rhy gynnar neu'n rhy hwyr.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag arbenigwyr i ddatblygu llwybrau addasu ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd – sy'n seiliedig ar ein data risg hinsawdd. Byddwn yn defnyddio allbynnau'r llwybrau i flaenoriaethu meysydd ffocws ar gyfer gweithredu a buddsoddi manylach mewn cynllun Cyflawni Addasu Hinsawdd ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd.

Cynhelir Asesiadau Risg Newid Hinsawdd ar gyfer ein hasedau/gweithgareddau sy'n agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd/tywydd eithafol, gan gynnwys, er enghraifft:

- Asedau newydd (e.e. trac, gorsafoedd, offer signalau)
- Adnewyddu/uwchraddio asedau
- Gwasanaethau trafnidiaeth newydd

Rydym yn asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn erbyn ein Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risgiau sefydliadol. Mae allbynnau CCRA yn cael eu rheoli drwy'r prosesau rheoli risg presennol sy'n cael eu goruchwyllo gan y tîm Rheoli Risgiau. Bydd y tîm yn cwrdd â Pherchnogion Risgiau, sy'n gyfrifol am reoli asedau a/neu brosiectau penodol, i sicrhau bod risgiau hinsawdd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd yn system Rheolwr Risgiau Gweithredol TrC. Mae Perchnogion Risgiau hefyd yn atebol am weithredu dulliau rheoli lliniaru effeithiol, fel y rheini sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Addasu i'r Hinsawdd (CAP) ar gyfer risgiau sy'n uwch na'r lefelau y cytunwyd arnynt gyda'n Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risgiau. Mae amllder adolygiadau risg yn amrywio yn dibynnu ar natur ac amserlen y risgiau a nodwyd. Efallai y bydd risgiau tymor byr yn galw am asesiadau mwy aml, ac efallai y bydd risgiau tymor hwy yn galw am ddull strategol ar lefel uwch o reoli risg.

Mae Proses Gymeradwyo CCRA yn darparu'r drefn lywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch risg hinsawdd yn unol â'n Matrics Parodrwydd i Dderbyn Risgiau. Bydd angen cyfeirio sgoriau risg cyffredinol sy'n rhagori ar ein lefelau parodrwydd i dderbyn risgiau at y Grwpiau Llywio Newid yn yr Hinsawdd i benderfynu a yw'r sgôr yn dderbyniol ai peidio. Bydd angen monitro ac ailasesu sgoriau risg sy'n cael eu hystyried yn dderbyniol bob pum mlynedd er mwyn penderfynu a yw'r sgôr wedi newid. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i'n gwybodaeth am sut bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein hasedau yng Nghymru ddatblygu dros amser, a allai ddylanwadu ar lefel y risg hinsawdd.

Rydym dal wrthi'n datblygu ein strategaethau ar gyfer rheoli risgiau hinsawdd. Mae ein strategaethau presennol ar gyfer gwrthsefyll yr hinsawdd yn canolbwyntio ar addasu ein gweithrediadau i risgiau ffisegol o ran yr hinsawdd.

Drwy integreiddio rheoli risgiau hinsawdd yn y prosesau presennol, nod TrC yw meithrin dull rhagweithiol sy'n seiliedig ar ddata o fynd i'r afael ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar ei weithrediadau, ei asedau a'i wasanaethau. Mae'r allbynnau o ddangosfwrdd CCRA yn cael eu defnyddio yn ein hadroddiadau yn erbyn ein parodrwydd i dderbyn risgiau hinsawdd i'r pwyllgorau Bwrdd perthnasol a amlinellir yn ein fframwaith llywodraethu a hefyd yn sail i ddatblygu ein llwybrau addasu i'n helpu i flaenoriaethu buddsoddiad mewn camau gweithredu addasol.

Mae ein tîm Rheoli Risg yn goruchwyllo'r gwaith o reoli risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â'r hinsawdd i sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio'n ddiwylliannol mewn busnes o ddydd i ddydd ac fel rhan o raglen rheoli risg y cwmni dan oruchwyliaeth y Prif Swyddog Risg. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'n risgiau craidd, strategol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac sy'n cael eu monitro gan y tîm Rheoli Risg a'r mesurau lliniaru rydyn ni wedi'u nodi i leihau lefel bresennol y risg.

Ar hyn o bryd, nid yw'r risgiau hyn yn cael eu nodi fel Prif Risgiau (risgiau sy'n cael mwy o debygolrwydd ac effaith sylweddol ar strategaeth, gweithrediadau enw da, neu gyllid) o dan raglen risgiau TrC. Mae effeithiau presennol newid yn yr hinsawdd yn lleol ac mae effeithiau tywydd fel llifogydd, effaith gwres, gwynt / difrod storm yn cael eu rheoli a'u lliniaru drwy gynlluniau parhad busnes, proses parodrwydd o ran tywydd a chynlluniau buddsoddi sy'n cael eu datblygu drwy ein tîm peirianeg ac sy'n cael eu huwchgwyfeirio i'w cymeradwyo gan yr uwch dîm arwain i'w cymeradwyo gan y tîm buddsoddi. Mae prosiectau mawr, gan gynnwys y rhai sy'n lleihau effeithiau ar yr hinsawdd, yn cael eu holrhain drwy'r Pwyllgor Prosiectau Mawr.

Ni fydd effaith bresennol newid yn yr hinsawdd yn cael effaith gyfannol, sylweddol ar allu TrC i ddarparu gwasanaeth. Mae hyn wedi cael ei ddangos yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda nifer o stormydd mawr a enwyd yn achosi rhywfaint



o darfu, ond mae hyn wedi cael ei liniaru drwy ddarparu trafndiaeth arall fel gwasanaethau bysiau yn lle trenau. Mae amhariadau'n cael eu cyfleu drwy wahanol gyfryngau cyn ac yn ystod stormydd sylweddol gan leihau'r effeithiau posibl. O ran diogelwch cwsmeriaid a staff, mae gan TrC broses gofal cwsmeriaid ar waith ac yn cael ei defnyddio.

Ar hyn o bryd mae'r tîm cynaliadwyedd a risg yn diweddarau ein hasesiad yn erbyn [rhifyn 2023 y Gofrestr Risg Genedlaethol](#) ac yn diweddarau'r dadansoddiad o fersiwn 2020. Bydd unrhyw risgiau ychwanegol neu risgiau wedi'u diweddarau yn mynd drwy'r broses lywodraethu.

Rydym wedi gwreiddio ein fframwaith CCRA yn ein Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) i'w gwneud yn orfodol i bob prosiect cyfalaf newydd asesu risgiau a chyfleoedd newid yn yr hinsawdd yn y cam cyn dylunio. Bydd hyn yn sicrhau bod risgiau hinsawdd yn cael eu cofnodi a'u lliniaru drwy'r broses ddylunio, er mwyn lleihau ein cysylltiad, atal cloi i mewn a phennu hyfywedd hirdymor ased posibl.

Fel y nodir yn Natganiad Cydnerthedd TrC, mae cydnerthedd ariannol TrC yn dibynnu ar lefel y cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Yng ngoleuni'r pwysau cyllido presennol, mae cynllunio ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig yn cael ei ailasesu yn unol â'r cyllid tebygol sydd ar gael ar gyfer addasu i'r hinsawdd a'i flaenoriaethu hyd yn oed yn fwy i'r gweithgareddau hynny, a fydd yn cael y budd mwyaf cadarnhaol.

I gloi, rydym yn gwneud cynnydd da o ran asesu effaith newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ar ein hasedau sy'n eiddo i ni, a ddaeth o dan ein rheolaeth bedair blynedd yn unig yn ôl ac sydd eisoes wedi cael eu huwchraddio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn ehangu'r gwaith hwn ymhellach i gynnwys risgiau trosiannol. Bydd ein gwaith i ddatblygu matrices aeddfedrwydd capasiti addasol y gwaith hwn yn ein helpu i ddeall pa gamau y mae angen i ni eu cyflawni i wella ein gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol a nodi sut gallwn ni fod yn wydn, fel busnes, i'r risgiau newid yn yr hinsawdd rydym wedi'u nodi.

Risgiau craidd, strategol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Math o Risg	Risg	Effaith	Rheoli'r broses lliniaru
Tymor byr	Methu cyrraedd targed datgarboneiddio 2030 oherwydd fflyd cerbydau disel.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion cylch gwaith Llywodraeth Cymru.	Rheolir drwy'r Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau a rhaglen o fonitro ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.
Tymor byr	Methu cyflawni targed sero net 2030 oherwydd allyriadau'r gadwyn gyflenwi.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru.	Tîm Datblygu Cynaliadwy i gynnal dadansoddiad manwl o allyriadau'r gadwyn gyflenwi er mwyn cael cynrychiolaeth fwy cywir ac ychwanegu hyn i wrthbwysio adroddiadau lefel uwch, a chydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull hybrid o gyfrifo carbon ar gyfer y gweithgaredd hwn.
Tymor byr	Methu dangos yn llawn bod targedau sero net yn targedu cyflawniadau gan nad ydynt yn gallu adlewyrchu allyriadau tariff trydan gwyrdd yn y dull adrodd ôl troed carbon presennol.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion cylch gwaith Llywodraeth Cymru.	Bydd opsiynau ar gyfer cael ynni'n uniongyrchol o ffynonellau adnewyddadwy lleol yn cael eu hystyried wrth fynd ar drywydd sero net ar gyfer cwmpas 2.
Tymor byr	Gallai cynnydd mewn costau trydan gynyddu costau cyflawni rhaglen datgarboneiddio a gallai olygu ei bod yn anodd cyflawni targed sero net o dan gyfyngiadau ariannol.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion cylch gwaith Llywodraeth Cymru.	Bydd opsiynau ar gyfer cael ynni'n uniongyrchol o ffynonellau adnewyddadwy lleol yn cael eu hystyried wrth fynd ar drywydd sero net ar gyfer cwmpas 2.



Math o Risg	Risg	Effaith	Rheoli'r broses lliniaru
Tymor canolig	Methu cyflawni'r targed sero net o ganlyniad i ddatblygu asedau tir maes glas.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion cylch gwaith Llywodraeth Cymru.	Gweithio gyda'r rheolwr tir, timau peirianeg a phrosiectau i sicrhau bod diwydrwydd dyladwy'n cael ei wneud wrth ystyried datblygu unrhyw asedau tir TrC a datblygu strwythur llywodraethu ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid ar brynu/ asedau tir. - wedi'i gwblhau, gan gyflawni yn unol â'r trefniadau llywodraethu.
Tymor hir	Gall digwyddiadau tywydd eithafol (llifogydd, gwres eithafol, rhew, eira) amharu ar seilwaith a allai arwain at oblygiadau gweithredol a chost.	Gallai hyn effeithio ar allu TrC i gynnal darpariaeth gwasanaeth a chyflawni gofynion Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru yn llawn drwy oblygiadau ariannol annisgwyl o ganlyniad i ddamweiniau, difrod asedau a tharfu ar wasanaethau.	<ol style="list-style-type: none"> 1. Mesurau lliniaru sy'n diogelu'r dyfodol (e.e. adeiladu) ac asesiadau amgylcheddol cyn gwaith. 2. Cynnal asesiadau risg ar draws y rhwydwaith i sicrhau bod risgiau newid hinsawdd yn cael eu cofnodi. 3. Cyhoeddi cynllun addasu i'r newid yn yr hinsawdd sy'n rhoi manylion cynlluniau TrC i wella cadernid y rhwydwaith a'r rhwydweithiau gweithredol. 4. Sefydlu sianeli llywodraethu ar gyfer monitro ein cynnydd i wella ein gallu i ymaddasu i ddigwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan newid yn yr hinsawdd.

Cyfleoedd craidd, strategol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Tymor y Cyfle	Cyfleoedd
Tymor Byr	Mae TrC wedi cynyddu'r cyfrifoldebau dros gerbydau trydan, dim allyriadau o bibellau cynffon Bysiau a Thacsis a Theithio Llesol a allai leihau ôl troed pobl Cymru os bydd yn llwyddiannus.
Tymor Canolig	Gallai gwell gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a mwy o fynediad at seilwaith gwefru cerbydau trydan arwain at newid moddol sylweddol.
Tymor Canolig	Gallai cwblhau Metro De-ddwyrain Cymru gynyddu graddfa'r newid moddol ymhellach.
Tymor Canolig	Mae TrC yn gweld mwy o gyfleoedd, ar y cyd â phartneriaid, i ddatblygu ei ynni adnewyddadwy ei hun, fel ynni solar ffilm denau ac ynni adnewyddadwy ar ochr y cledrau a lleihau faint o ynni mae'n ei ddefnyddio drwy, er enghraifft, ddefnyddio mwy o oleuadau LED, gan leihau dibyniaeth TrC ar y grid cenedlaethol ac felly gwneud TrC yn fwy gwydn yn wyneb digwyddiadau tywydd garw.
Tymor hir	Gallai cwblhau Metro Gogledd a De-orllewin Cymru gynyddu graddfa'r newid moddol ymhellach.
Tymor hir	Cyfle i TrC leihau'r costau sy'n gysylltiedig â damweiniau, difrod i asedau a tharfu ar wasanaethau a achosir gan dywydd eithafol drwy gyflawni ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnherthedd.



Cydweithio

Rydym yn cydweithio'n agos â Network Rail, perchennog y rhan fwyaf o asedau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae nhw'n cynnal Asesiadau Risg Newid Hinsawdd (CCRA) ar rwydwaith Cymru a'r Gororau ac wedi cyhoeddi Adroddiad Ymaddasu newydd ym mis Rhagfyr 2021. Ein cynllun yw gweithio ar y cyd â Network Rail i ddatblygu llwybrau addasu hinsawdd ar gyfer ein hasedau hanfodol – wedi'u pennu gan ddata CCRA – a datblygu cynlluniau ar y cyd i wella cydnerthedd hinsawdd rhwydweithiau rheilffyrdd Cymru. Bydd y dull hwn yn helpu i nodi penderfyniadau hanfodol i wella'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Network Rail i ddatblygu cynlluniau/prosiectau i gefnogi datgarboneiddio'r rheilffyrdd yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2020, daeth Trafnidiaeth Cymru yn berchen ar Linellau Craidd y Cymoedd, gydag Amey Infrastructure Wales (AIW) fel ei bartner cyflenwi. Mae rôl AIW yn cynnwys cydymffurfio â Safonau Network Rail, gan gynnwys datblygu cynlluniau tywydd eithafol (NR/L3/CIV/190) ar gyfer rheoli asedau yn ystod tywydd eithafol. Fel rhan o ddyletswyddau rheoli asedau, mae Trafnidiaeth Cymru wrthi'n diweddarau ei Gynllun Rheoli Asedau Strategol (SAMP). Mae'r SAMP yn tynnu sylw at y weledigaeth strategol ar gyfer rheoli asedau fel draenio, strwythurau a gwaith cloddio. Mae hefyd yn pwysleisio gweithgareddau allweddol sy'n ymwneud â gwella gwybodaeth a chadernid asedau. Ar ben hynny, mae AIW yn llunio Cynlluniau Rheoli Asedau, sy'n amlinellu gweithgareddau allweddol, gan gynnwys digwyddiadau tywydd gwael a sefydlu safleoedd treialu.

Cam gweithredu allweddol yn y Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chydnerthedd yw datblygu Cynllun Rheoli Llystyfiant i'n helpu i leihau'r effaith a lleihau effaith yr hydref (a thymhorau eraill fwy a mwy) ar wasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2024.

Rydym wedi defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol i fapio asedau Llinellau Craidd y Cymoedd a'u rhyngwyneb â safleoedd llifogydd hysbys, yn seiliedig ar ddata llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer llifogydd afon a wyneb. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal astudiaeth gynhwysfawr o lifogydd afon sydd â'r potensial i effeithio ar rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng TrC a sefydliadau eraill (fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru) ynghylch cydweithio a sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i wella dealltwriaeth o asedau a hyrwyddo dull ar y cyd o ddeall a gweithredu cydnerthedd. Rydym yn deall pwysigrwydd gweithio gyda pherchnogion seilwaith eraill yng Nghymru i nodi ac asesu risgiau hinsawdd, yn enwedig y rheini sy'n rhyngweithio, yn gwaethygu neu'n draws-sefydliadol eu natur.

Metrigau a thargedau

Mae cyfres o dargedau Llywodraeth Cymru a'r diwydiant sy'n ymwneud â risgiau a chyfleoedd hinsawdd rydyn ni'n gweithio tuag atynt yn TrC (mae'r manylion yn y tabl isod).

Targedau ac ymrwymïadau Llywodraeth Cymru

Math o Risg	Ymrwymiad	Ein hamcanion a'n targedau
Tymor Byr	Erbyn 2030, bydd dewis dim carbon yn arferol, wedi'i wreiddio'n ddiwyllianol ac yn rheoleiddio ei hun ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.	<ul style="list-style-type: none"> 100% o ynni adnewyddadwy ar Linellau Craidd y Cymoedd. Allryiadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd: gwneud gostyngiadau sylweddol yn allyriadau Cwmpas 1 erbyn 2024, gan ganolbwyntio ar sicrhau gostyngiad o 100%.
Tymor Canolig	Cynyddu cyfran modd teithiau trafndiaeth gyhoeddus o gyfran amcangyfrifedig gyfredol o 5% i 7% erbyn 2030 a 13% erbyn 2040.	Yn ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2022-27, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo teithio cynaliadwy a lleihau'r angen i ddefnyddio ceir preifat. Amlinellir yr amcanion llawn i'n helpu i gyflawni'r nod hwn yn y cynllun isod. SDP_22_2911.pdf (tfw.wales)



Targedau'r diwydiant


Math o Risg	Risg	Rheoli'r broses lliniaru
Tymor Canolig	Cael gwared ar drenau diesel yn unig erbyn 2040.	Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd: gwneud gostyngiadau sylweddol yn allyriadau Cwmpas 1 erbyn 2024, gan ganolbwyntio ar sicrhau gostyngiad o 100%.
Tymor Hir	Mae Network Rail wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050 yng Nghymru a Lloegr.	Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd: gwneud gostyngiadau sylweddol yn allyriadau Cwmpas 1 erbyn 2024, gan ganolbwyntio ar sicrhau gostyngiad o 100%.

Allyriadau carbon

Rydym yn cofnodi ac yn adrodd ar ein hallyriadau carbon blynyddol yn unol â [chanllaw adrodd sector cyhoeddus sero net Llywodraeth Cymru](#). Mae'r canllawiau wedi cael eu datblygu i helpu cyrff sector cyhoeddus Cymru i leihau allyriadau ar y cyd i sero net erbyn 2030. Mae'r canllawiau'n cyd-fynd â chanllawiau adrodd rhyngwladol ar gyfer rhoi gwybod am allyriadau carbon.

Ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24

Yn 2023/24, cynhyrnodd TrC gyfanswm o **345,030 tCO₂e**. Yn gyffredinol, mae ein hallyriadau wedi cynyddu **53,285tCO₂e** o'i gymharu â 2022/23, cynnydd o 18% yn allyriadau'r llynedd o **291,745 tCO₂e**. Mae 73% o'n hallyriadau'n dod o weithgareddau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol (Cwmpas 3) 2023/24 Mae allyriadau carbon yn ôl cwmpas wedi'u nodi yn y siart isod.



Rydym yn mesur ein newid blynyddol o flwyddyn i flwyddyn mewn allyriadau carbon yn ein hadroddiad carbon blynyddol yn erbyn ein llinell sylfaen 2020/21. Mae ein hallyriadau carbon gweithredol wedi cynyddu 39% yn erbyn y waelodlin hon. Dangosir y dadansoddiad fesul cwmpas yn Nhabl 1.

Cwmpas	Newid mewn allyriadau
Cwmpas 1	+31%
Cwmpas 2	-22%
Cwmpas 3	+42%



Mae'r cynnydd yn ein hallyriadau gweithredol yn ystod y pedair blynedd diwethaf yn cael ei briodoli i'r cynnydd yn y gwasanaethau a ddarperir gennym a'n gwariant cynyddol ar drawsnewid gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Mae ein Cynllun Rheoli Carbon a'n targedau carbon cysylltiedig yn cael eu datblygu; fodd bynnag, rydym yn adrodd ar ddwysedd carbon ein cerbydau (gramau o garbon deuocsid sy'n cyfateb fesul km teithiwr) bob cyfnod ariannol o 4 wythnos). Caiff hyn ei fesur a'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Rydym hefyd yn adrodd ar ein dwysedd carbon blynyddol ar gyfer cerbydau, sef 84.07 gCO₂e/PAX km ar gyfer 2023/24. Mae hyn yn ostyngiad o 7.6% ar 2022/23.

Diwygio targedau carbon

Yn 2019, fe wnaethom gyhoeddi Strategaeth Effaith Carbon Isef sy'n cynnwys y targedau canlynol ar gyfer ein hallyriadau carbon:

- Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Craidd y Cymoedd – gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023.
- Allyriadau Cwmpas 1 (tyniant) Llinellau Cymru a Cymru a'r gororau – gostyngiad o 30% erbyn diwedd 2023.
- Allyriadau Cwmpas 2 – gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2023.

Bu heriau o ran cael gafael ar ein hynni'n uniongyrchol gan gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol, oherwydd oedi wrth gysylltu â'r grid a diffyg argaeledd. Mae ein trydan ar darriff 100% adnewyddadwy, fodd bynnag, nid ydym yn gallu adrodd ar allyriadau sero sy'n gysylltiedig â'r contract hwn.

Yn dilyn y pandemig, rydym wedi bod yn cynyddu ein darpariaeth o wasanaethau i helpu pobl yng Nghymru i symud oddi wrth deithio mewn ceir. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau'r sector trafndiaeth yng Nghymru. Mae hyn wedi golygu bod ein hallyriadau o rwydwaith Cymru a'r Gororau wedi cynyddu. Mae rhwydwaith Cymru a'r Gororau y tu allan i'n rheolaeth weithredol o ran datgarboneiddio. Rydym yn dibynnu ar Network Rail i gyflwyno Trydaneiddio Llinellau Uwchben ar y llwybrau hyn cyn y gallwn newid i fflyd wedi'i thrydaneiddio. Er nad oes modd cyrraedd y targedau gwreiddiol o fewn yr amserlen gychwynnol, rydym yn parhau'n ymrwymedig i gymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r targedau hyn yn y dyfodol.

Bydd gwella ein dulliau adrodd ar allyriadau yn ein helpu i asesu ein hól troed carbon yn llawn a datblygu targedau rheoli carbon mesuradwy ac adroddadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y targedau hyn yn sail i'n Cynllun Rheoli Carbon (a gyhoeddwyd yn 2024/25). Bydd y Cynllun yn rhoi map strategol i ni ar gyfer rheoli ein hallyriadau carbon yn y dyfodol, gan ein helpu i leihau effaith amgylcheddol ein gweithrediadau busnes, ar yr un pryd â chefnogi Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio'r sector trafndiaeth drwy newid dulliau teithio.

Felly, mae TrC yn defnyddio mwy a mwy o allyriadau cwmpas 1 fesul cilomedr teithwyr, fel y metrig mwyaf perthnasol ar gyfer ei wasanaethau rheilffyrdd. Bydd y metrig hwn yn un o'r gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a fydd yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd gan TrC yn 2024.



ADRODDIAD AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd. Mae'n cynnwys cyflogau a hawliau pensiwn.

Cyfanswm tâl unigol

Cyfarwyddwr	Cyflog 2023/24 £000	Cyflog 2022/23 £000	Buddion pensiwn 2023/24 £000	Buddion pensiwn 2022/23 £000	Cyfanswm 2023/24 £000	Cyfanswm 2022/23 £000
James Price Prif Swyddog Gweithredol*	230-235	195-200	-	10-15	230-235	210-215
Heather Clash Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	145-150	135-140	10-15	10-15	160-165	150-155
Scott Waddington Cyfarwyddwr Anweithredol - Cadeirydd	35-40	35-40	-	-	35-40	35-40
Sarah Howells Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25
Nicola Kemmery Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25
Alison Noon-Jones Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25
Alun Bowen Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25
Vernon Everitt Cyfarwyddwr Anweithredol	20-25	20-25	-	-	20-25	20-25

* Tan 9 Hydref 2022, aeth James Price ar secondiad i TrC o Lywodraeth Cymru gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £160,000-165,000 a buddion pensiwn wedi'u cronni fel aelod o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar y dyddiad hwn, ymunodd â TrC fel gweithiwr gyda chyflog cyfwerth â blwyddyn lawn o £215,000-220,000 heb unrhyw fuddion pensiwn. Mae ei gyflog cyfwerth â blwyddyn lawn uwch yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'n cael unrhyw fuddion pensiwn gan TrC. Mae'r newid hwn yn arbediad i TrC o'i gymharu â'r tâl secondiad gan Lywodraeth Cymru. Ei dâl yn ystod 2022/23 yw cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru a TrC yn ystod y flwyddyn. Mae ei gydnabyddiaeth ariannol yn ystod 2023/24 yn ymwneud â'i gyflogaeth gyda TrC yn unig.

Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Nid yw TrC wedi talu unrhyw fuddion mewn nwyddau na bonysau i aelodau'r Bwrdd.



Pensiynau

Mae gweithwyr TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae'r ffigur budd-daliadau pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr o 8%. Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn cyflogwyr TrC.

Roedd James Price yn aelod gweithredol o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn ystod ei gyflogaeth gyda Llywodraeth Cymru (ar secondiad i TrC). O'r herwydd, mae adroddiadau blynyddol blaenorol wedi datgelu ei fuddion o dan y cynllun hwn. Ers ymuno â TrC ym mis Hydref 2022, nid yw bellach yn aelod gweithredol o'r CSPS ac felly nid oes angen y datgeliadau hyn mwyach. Nid yw chwaith yn aelod o gynllun cyfraniadau diffiniedig TrC.

Datgeliadau Cyflog Teg

Cyfrifir y Datgeliadau Cyflog Teg canlynol fel sy'n ofynnol gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth Trysorlys EF. Mae cyfanswm y tâl a ddefnyddir yn y cyfrifiadau'n cynnwys cyflog ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Taliad bandio cyfarwyddwr uchaf ei dâl TrC ym mlwyddyn ariannol 2023/24 oedd £230,000-235,000 (yn 2022/23, £195,000-200,000) – gweler tudalen 88 am esboniad o'r newid hwn. Ni chafodd unrhyw weithiwr dâl sy'n uwch na'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf.

Mae'r gymhareb tâl rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a chyflog a buddion y gweithiwr ar wahanol ganraddau cyflog a buddion cyflogaion y grŵp ar 31 Mawrth wedi'u nodi isod:

	2023/24		2022/23	
	Cyflog a buddion	Cymhareb	Cyflog a buddion	Cymhareb
25ain Canradd	£35,193	6.6 gwaith	£34,633	5.7 gwaith
50fed Canradd (Canolrif)	£48,384	4.8 gwaith	£45,159	4.4 gwaith
75ain Canradd	£64,498	3.6 gwaith	£59,720	3.3 gwaith

Y symudiad o un flwyddyn i'r llall yn y cymarebau yw oherwydd bod y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf wedi trosglwyddo i TrC o Lywodraeth Cymru yn ystod 2022/23, a'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad cymhareb ar gyfer 2022/23 yw cyfanswm y taliadau cyfunol gan Lywodraeth Cymru a TrC yn ystod y flwyddyn (gweler uchod am esboniad o'r newid hwn). Bu newid ym mhecyn tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf ers trosglwyddo i TrC o Lywodraeth Cymru, gan adlewyrchu'r ffaith nad yw'n cael unrhyw fuddion pensiwn gan TrC. Mae'r datgeliadau cymhareb yn cael eu cyfrifo heb gynnwys buddion pensiwn, ac felly nid ydynt yn rhoi darlun cyflawn o daliadau'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf na'r gweithwyr.

Roedd cyflogau sylfaenol blynyddol y grŵp yn amrywio o £20,319 i £230-235,000 (2022/23: £18,525 i £190-195,000).

Y newid cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol yng nghyswllt cyflog a lwfansau ar gyfer holl weithwyr y grŵp (a gyfrifir drwy rannu cyfanswm y cyflogau blynyddol â nifer cyfwerth ag amser llawn y cyflogaion) yw 7.0%. Mae'r cynnydd canrannol cyflog cyfartalog hwn yn cynnwys llawer o ffactorau o ran y codiadau cyflog blynyddol ar draws TrC. Mae hyn yn cynnwys cytundebau tâl amrywiol o dan wahanol fodolau cyflog. Mae nifer o'r codiadau cyflog yn cynnwys taliadau cynhyrchiant ar gyfer cydweithwyr rheng flaen ar drenau er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau i delerau ac amodau. Bydd y newid hwn yn gwella ein gwasanaeth rheilffyrdd, fel y gwaith o reoli'r Metro yn weithredol, a chynnwys dyddiau Sul yn ystod yr wythnos waith.

Er bod codiadau cyflog yng Ngrŵp TrC yn adlewyrchu perfformiad unigolion, ychydig iawn o gyflog perfformiad penodol a bonysau uwchlaw cyflogau sylfaenol sy'n cael eu talu ar draws Grŵp TrC i grwpiau penodol o weithwyr (er enghraifft, comisiwn ar gyfer staff rheng flaen). Cyfanswm y cyflog ar sail perfformiad a dalwyd ar draws y grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 2023/24 oedd £616,120, sydd, o'i gymharu fel cyfartaledd ar draws yr holl gyflogaion yn unol â gofynion cyfrifo FReM, wedi cynyddu 24% o'i gymharu â 2022/23 (£453,106). Mae'r cynnydd yn y cyfartaledd yn bennaf o ganlyniad i fwy o deithwyr, gan fod y comisiwn ar gyfer cydweithwyr rheng flaen yn gysylltiedig â gwerthu tocynnau a gweithgarwch diogelu refeniw. Nid oes cynlluniau bonws uwch reolwyr.



Pecynnau Ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau ymddeol yn gynnar na chynlluniau diswyddo yn ystod 2023/24 na 2022/23 a dim ond pecynnau ymadael unigol oedd ar waith. Ar gyfer 2023/24,(2022/23: 3) mae 22 o weithwyr wedi gadael neu wedi cytuno i adael o dan ymddeoliad oherwydd salwch neu resymau ymadael gwirfoddol eraill rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt oedd £352,999 (2022/23: £168,629). Ymddeoliadau oherwydd salwch yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael. Mae hyn yn adlewyrchu proffil oedran ein gweithlu.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm cost pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac a gafodd eu hystyried yn ystod y flwyddyn (gyda'r llynedd fel cymhariaeth). Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl yn darparu cyfanswm cost unrhyw allanfa i TrC (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau).

	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer y mathau eraill o ymadael y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer 2023/24	Cyfanswm nifer 2022/23
<£10,000	-	16	16	-
£10,000 – £25,000	-	2	2	1
£25,000 – £50,000	-	1	1	-
£50,000 – £100,000	-	3	3	2
£100,000 – £150,000	-	-	-	-
£150,000 – £200,000	-	-	-	-
£200,000 +	-	-	-	-
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael	-	22	22	3
Cyfanswm y gost £			352,999	168,629



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Cyfarwyddwyr

Dyma'r Cyfarwyddwyr a oedd dal mewn swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn:

Enw	Rôl
J S Waddington	Cadeirydd / Cyfarwyddwr Anweithredol
S Howells	Cyfarwyddwr Anweithredol
N J Kemmery	Cyfarwyddwr Anweithredol
A J Noon-Jones	Cyfarwyddwr Anweithredol
D A Bowen	Cyfarwyddwr Anweithredol
V J Everitt	Cyfarwyddwr Anweithredol
J R Price	Cyfarwyddwr Gweithredol
H J Clash	Cyfarwyddwr Gweithredol

Does dim penodiadau nac ymddiswyddiadau wedi bod yn 2022/23.

Offerynnau Ariannol

Hylifedd a risg llif arian

Rydym yn monitro ein cyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ein rhwymedigaethau pan fyddan nhw'n ddyledus.

Mae gan y Grŵp gynllun ymddiogelu prisiau tanwydd i liniaru effaith amrywiadau ym mhris tanwydd a fyddai'n peri ansicrwydd arall o ran mewforion i berfformiad ariannol y busnes. Daeth y cynllun ymddiogelu blaenorol i ben ar 31 Mawrth 2023; ym mis Ebrill 2023 ymrwymodd y Grŵp i gynllun newydd tan 31 Mawrth 2026.

Risg credyd

Nid ydym yn wynebu risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp naill ai'n cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a dderbynnir ymlaen llaw, drwy fasnachu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy werthu arian parod i'r cyhoedd. Caiff ein risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Difidend arfaethedig

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymhell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.

Gweithwyr

Mae gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant ar gael ar [dudalen 46](#) ac yn adroddiad y pwyllgor pobl ar [dudalen 69](#). Mae rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â gweithwyr ar gael yn y datganiad Adran 172 ar [dudalen 54](#).



Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill mewn perthynas fusnes â'r Cwmni

Mae gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â'n cyflenwyr, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill ar gael yn ein datganiad Adran 172 ar [dudalen 54](#). Ein nod yw talu ein holl gyflenwyr cyn gynted ag y caiff y gwariant ei gymeradwyo gan gydymffurfio â Chod Talu'n Brydlon y Llywodraeth.

Adroddiadau ynni a charbon

Mae gwybodaeth am ein defnydd o ynni a'n camau gweithredu wedi'i chynnwys yn y datganiad datgarboneiddio trafniadaeth ar [dudalen 79](#).

Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru, nid oes gan TrC yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwmo i wneud yn siŵr ei fod yn cyrraedd safonau uchel, ac yn cadw'r safonau hynny, o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, a'i holl arferion gwaith. Disgwylir i'n gweithwyr ymddwyn yn gywir, yn ddiduedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â hwy nac yn eu cosbi am wneud hynny.

Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r Cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gwyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ail-benodi, ac felly bydd KPMG LLP yn parhau yn y swydd.

Drwy orchymyn y Bwrdd

James Price

Cyfarwyddwr/Prif Weithredwr

3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
26 Mehefin 2024

Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-gwmni yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, mae'n rhaid i'n Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r rhiant-gwmni am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y grŵp yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU ("IFRS a fabwysiadwyd yn y DU") yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a'r gyfraith berthnasol, ac wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Fframwaith Datgelu Gostyngol FRS 101.

O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff ein Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni yn ogystal â sefyllfa elw a cholled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn graff;
- ar gyfer datganiadau ariannol y grŵp, nodi a ydynt wedi cael eu paratoi yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU;
- ar gyfer datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau'r rhiant-gwmni a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant-gwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r grŵp a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd ar [wefan](#) y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.



DATGANIADAU ARIANNOL



Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian, Datganiad Sefyllfa Ariannol y Cwmni, Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2024 ac o ddiffyg y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU;
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys Fframwaith Datgelu Llai FRS 101;
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â gofynion moesegol y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r Grŵp na'r Cwmni na rhoi'r gorau i'w gweithrediadau, a chan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni yn golygu bod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Fe wnaethom ddefnyddio ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i nodi'r risgiau cynhenid i'w fodel busnes a dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni neu'r gallu i barhau â gweithrediadau dros gyfnod y busnes gweithredol. Y risgiau yr oeddem yn eu hystyried yn fwyaf tebygol o effeithio'n andwyol ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni dros y cyfnod hwn oedd parhau ar gael gan Lywodraeth Cymru yn unol â chylch gwaith y Grŵp a'r Cwmni.

Gan fod y Grŵp a'r Cwmni yn dibynnu ar gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom asesu'r risg na fyddai'r cymorth hwn ar gael. Roeddem wedi archwilio llythyrau a dderbyniwyd gan y cyfarwyddwyr yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, wedi archwilio datganiadau ariannol i asesu ei allu i ddarparu'r cymorth hwn dros gyfnod asesiad busnes gweithredol yr endid a archwiliwyd, ac wedi asesu'r rhesymau busnes pam y gallai neu pam na allai'r grŵp ddewis darparu'r cymorth hwn.

Roeddem wedi ystyried a yw'r datgeliad busnes byw yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o asesiad y cyfarwyddwyr o'r busnes gweithredol, gan gynnwys y risgiau a'r dibyniaethau a nodwyd. Rydym wedi asesu cyflawnder y busnes gweithredol.



Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn credu bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi nodi, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes ansicrwydd sylweddol yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol ac oherwydd y gallai digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y cawsant eu gwneud, nid yw'r casgliadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Cwmni yn parhau i weithredu.

Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll

Er mwyn canfod risgiau o gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhellant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi cyfarwyddwyr, y pwyllgor Archwilio a Risg, ac archwilio dogfennau polisi ynghylch polisiau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddo wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm archwilio am y risgiau o dwyll a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gallai rheolwyr Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol a'r risg o ragfarn mewn amcangyfrifon cyfrifeg a dyfarniadau megis ailbriso asedau. O ran yr archwiliad hwn, nid ydym yn credu bod risg o dwyll yn gysylltiedig â chydabod referniw oherwydd y meini prawf cydnabod referniw nad ydynt yn gymhleth, sy'n cyfyngu ar y cyfle i gamddefnyddio referniw drwy dwyll.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau ychwanegol o ran twyll.

Wrth benderfynu ar y gweithdrefnau archwilio, fe wnaethom ystyried canlyniadau ein gwerthusiad a'n profion o effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risg twyll y Grŵp cyfan

Rydym wedi cynnal gweithdrefnau gan gynnwys:

- Canfod cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill i'w profi ar sail meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a ganfuwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys postiadau anarferol i gyfrifon arian parod, postiadau anarferol i asedau o dan gyfrifon adeiladu, postiadau anarferol i gyfrifon referniw a sampl o gyfnodolion a gafodd eu postio ar ddiwedd y cyfnod.
- Asesu a yw'r dyfarniadau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.



Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys mewn perthynas â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau

Fe wnaethom nodi meysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol a sector cyffredinol, a thrwy drafod â'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio), ac o arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol y Grŵp a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaid yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adroddiadau ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw y gellir ei ddsbarthu, a deddfwriaeth trethiant, a deddfwriaeth pensiynau, ac rydym wedi asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau'r datganiadau ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy roi dirwyon neu ymgyfreitha. Roeddem wedi nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: iechyd a diogelwch, cyfreithiau diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyfraith cyflogaeth, rheoliadau amgylcheddol, rheoliadau sy'n berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, a rhai agweddau ar ddeddfwriaeth cwmnïau. Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymchwilio i'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai. Felly, os na fydd torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y tor-amod hwnnw.

Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd y cyfyngiadau sylfaenol sy'n gysylltiedig ag archwiliad, mae risg anochel na fyddwn wedi dod o hyd i rai achosion o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau'r safonau archwilio sydd, yn eu hanfod yn gyfyngedig, yn eu canfod.

Ar ben hynny, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod twyll, gan y gallai twyll gynnwys cydgyllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

Gwybodaeth Arall

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr Adroddiad Strategol ac adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys adroddiad y Cyfarwyddwyr. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio ar hynny.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth, ar sail ein gwaith archwilio yn y datganiadau ariannol, yn cael ei cham-ddatgan yn sylweddol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio. Ar sail y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi canfod camddatganiadau o bwys yn yr wybodaeth arall;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol, adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol ac adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- mae'r adroddiadau hynny wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 yn ein barn ni.



Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nad yw'r rhiant-gwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol, neu nad oes ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw;
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu;
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel yr eglurwyd yn fanylach yn eu datganiad a nodir ar [dudalen 93](#), mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; unrhyw reolaeth fewnol y maent yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel pryder, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â busnes hyfyw; a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Rees Batley (Uwch-archwilydd Statudol)
ar ran ac yn enw KPMG LLP, Cyfrifwyr Siartredig
Archwilydd Statudol
3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Bae Caerdydd
CF10 4AX

27 Mehefin 2024



Datganiad Incwm Cyfunol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

		2024 £000	2023 £000
Refeniw	2	717,879	627,796
Treuliau gweinyddol		(741,687)	(656,426)
Gwarged gweithredol – gwarged cyn treth		(23,808)	(28,630)
Treuliau ariannol	6	(6,886)	(1,888)
Incwm ariannu net/ (traul)		(6,886)	(1,888)
Gwarged/(diffyg) cyn treth		(30,694)	(30,518)
Credyd treth/(tâl)	7	(2,604)	4,491
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		(33,298)	(26,027)
Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Arall			
Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled:			
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	8	(108,502)	129,191
Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig	18	432	553
Treth gysylltiedig	7	(78)	12
Cyfanswm eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled		(108,148)	129,756
Eitemau y gellid eu hailgategoreiddio wedyn i elw neu golled:			
Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian	19	238	(7,144)
Treth gysylltiedig	7	(68)	242
Cyfanswm eitemau a allai gael eu hailddosbarthu i elw neu golled		170	(6,902)
Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net treth		(107,978)	122,854
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		(141,276)	96,827

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 105 i 139 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.



Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol

31 Mawrth 2024

		Nodyn	2024 £000	2023 £000
Asedau anghyfredol				
Eiddo, offer a chyfarpar	8		3,851,840	3,361,950
Asedau anniriaethol	9		7,047	10,639
Ewyllys da	9		3,546	3,546
Cyfanswm asedau anghyfredol			3,862,433	3,376,135
Asedau cyfredol				
Rhestrau	11		14,032	11,965
Symiau derbyniadwy masnach ac eraill	12		180,085	183,238
Arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian	13		42,117	66,835
Cyfanswm asedau cyfredol			236,234	262,038
Cyfanswm yr asedau				
			4,098,667	3,638,173
Rhwymedigaethau cyfredol				
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill	14		224,118	265,202
Rhwymedigaethau lesioedd	20		44,895	23,603
Darpariaethau	15		240	356
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol			269,253	289,161
Rhwymedigaethau anghyfredol				
Rhwymedigaethau lesioedd	20		391,714	175,735
Grantiau'r llywodraeth wedi'u gohirio	17		1,957,602	1,551,277
Buddion i gyflogeion	18		113	549
Darpariaethau	15		2,099	2,289
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol			2,351,528	1,729,850
Cyfanswm y rhwymedigaethau				
			2,620,781	2,019,011
Asedau net				
			1,477,886	1,619,162
Ecwiti				
Gwarged wrth gefn			9,872	8,393
Cronfa wrth gefn cyfraniad cyfalaf			11,097	11,097
Cronfa ailbrisió			1,456,747	1,599,672
Cronfa wrth gefn ar gyfer ymddiogelu			170	-
Cyfanswm ecwiti				
			1,477,886	1,619,162

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 26 Mehefin 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

J R Price, Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013



Datganiad Cyfunol am Newidiadau mewn Ecwiti

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

	Gwaged wrth gefn £000	Cyfraniad cyfalaf wrth gefn £000	Ailbriso - wrth gefn £000	Cronfa wrth gefn ar gyfer ymddiogelu £000	Cyfanswm ecwiti £000
Balans ar 1 Ebrill 2022	4,810	11,097	1,499,526	6,902	1,522,335
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod					
Gwaged	(26,027)	-	-	-	(26,027)
Incwm Cynhwysfawr Arall					
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	129,191	-	129,191
Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig	553	-	-	-	553
Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian	-	-	-	(7,144)	(7,144)
Treth ar incwm cynhwysfawr arall	12	-	-	242	254
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(25,462)	-	129,191	(6,902)	96,827
Trosglwyddo o'r gronfa ailbriso wrth gefn i warged a gadwyd	29,045	-	(29,045)	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2023	8,393	11,097	1,599,672	-	1,619,162
Balans ar 1 Ebrill 2023	8,393	11,097	1,599,672	-	1,619,162
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod					
Diffyg	(33,298)	-	-	-	(33,298)
Incwm Cynhwysfawr Arall					
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	(108,502)	-	(108,502)
Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig	432	-	-	-	432
Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian	-	-	-	238	238
Treth ar incwm cynhwysfawr arall	(78)	-	-	(68)	(146)
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(32,944)	-	(108,502)	170	(141,276)
Trosglwyddo o'r gronfa ailbriso wrth gefn i warged a gadwyd	34,423	-	(34,423)	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2024	9,872	11,097	1,456,747	170	1,477,886

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.



Datganiad cyfun o lifoedd arian

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

		2024	2023
	Nodyn	£000	£000
Llif arian o weithgareddau gweithredol			
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		(33,298)	(26,027)
Addasiadau ar gyfer:			
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau	8 and 9	127,881	122,550
Rhyddhau grantiau'r llywodraeth sydd wedi'u gohirio		(45,748)	(52,555)
Treuliau cyllid		6,886	2,130
Trethiant	7	2,604	(4,558)
(Cynnydd)/gostyngiad yn y rhestrau	11	(2,067)	(2,622)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill	12	(40,879)	(17,212)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	14	391	44,874
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau a buddion i gyflogeion	15	(454)	(932)
Treth a dderbyniwyd/(talwyd)	7	(27)	279
Arian net o weithgareddau gweithredol		15,289	65,927
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, offer a chyfarpar	8	(491,969)	(535,458)
Enillion o waredu eiddo, offer a chyfarpar	8	31	-
Caffael asedau anniriaethol		(1,407)	(1,486)
Enillion ar ôl derbyn grantiau cyfalaf y llywodraeth	17	493,023	504,206
Arian net o weithgareddau buddsoddi		(322)	(32,738)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		(591)	-
Talu rhwymedigaethau prydles		(39,094)	(30,120)
Arian net o weithgareddau ariannu		(39,685)	(30,120)
Cynnydd net mewn arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian		(24,718)	3,069
Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill		66,835	63,766
Arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian ar 31 Mawrth		42,117	66,835



Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol

31 Mawrth 2024

		Nodyn	2024 £000	2023 £000
Asedau anghyfredol				
Eiddo, offer a chyfarpar		8	3,162,888	2,929,809
Asedau anniriaethol		9	2,762	3,159
Buddsoddiadau		10	11,097	11,097
Cyfanswm asedau anghyfredol			3,176,747	2,944,065
Asedau cyfredol				
Rhestrau		11	31	19
Symiau derbyniadwy masnach ac eraill		12	140,072	165,211
Arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian		13	26,776	35,056
Cyfanswm asedau cyfredol			166,879	200,286
Cyfanswm yr asedau			3,343,626	3,144,351
Rhwymedigaethau cyfredol				
Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill		14	161,340	194,507
Rhwymedigaethau lesioedd		20	1,010	1,206
Darpariaethau		15	240	356
Cyfanswm asedau cyfredol			162,590	196,069
Rhwymedigaethau anghyfredol				
Rhwymedigaethau lesioedd		20	10,617	12,080
Grantiau'r llywodraeth wedi'u gohirio		17	1,693,701	1,321,722
Buddion i gyflogaion		18	55	16
Darpariaethau		15	2,099	2,289
Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol			1,706,472	1,336,107
Cyfanswm y rhwymedigaethau			1,869,062	1,532,176
Asedau net			1,474,564	1,612,175
Ecwiti				
Gwarged wrth gefn			6,720	1,406
Cronfa wrth gefn cyfraniad cyfalaf			11,097	11,097
Cronfa ailbrizio			1,456,747	1,599,672
Cyfanswm ecwiti			1,474,564	1,612,175

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 26 Mehefin 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

J R Price, Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013



Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

	Gwaged wrth gefn £000	Cyfraniad cyfalaf wrth gefn £000	Ailbriso - wrth gefn £000	Cyfanswm ecwiti £000
Balans ar 1 Ebrill 2022	700	11,097	1,499,526	1,511,323
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod				
Gwaged	(28,945)	-	-	(28,945)
Incwm Cynhwysfawr Arall				
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	129,191	129,191
Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig	606	-	-	606
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(28,339)	-	129,191	100,852
Trosglwyddo o'r gronfa ailbriso wrth gefn i warged a gadwyd	29,045	-	(29,045)	-
Balans ar 31 Mawrth 2023	1,406	11,097	1,599,672	1,612,175
Balans ar 1 Ebrill 2023	1,406	11,097	1,599,672	1,612,175
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod				
Diffyg	(29,228)	-	-	(29,228)
Incwm Cynhwysfawr Arall				
Ailbriso eiddo, offer a chyfarpar	-	-	(108,502)	(108,502)
Ailfesur rhwymedigaeth/ ased buddion diffiniedig	119	-	-	119
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod	(29,109)	-	(108,502)	(137,611)
Trosglwyddo o'r gronfa ailbriso wrth gefn i warged a gadwyd	34,423	-	(34,423)	-
Balans ar 31 Mawrth 2024	6,720	11,097	1,456,747	1,474,564



NODIADAU

Yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

Mae Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yn y DU ac sydd â'i ddomisil yno. Y rhif cofrestredig yw 09476013 a'r cyfeiriad cofrestredig yw 3 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd CF37 4TH. Mae'r Cwmni yn is-gwmni sy'n dod o dan reolaeth Iwyr Gweinidogion Cymru (corff a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) ac oherwydd hyn ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

1. Polisiau Cyfrifyddu

Y sail ar gyfer paratoi

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'i is-gwmnïau (gyda'i gilydd "y grŵp" neu "TrC") wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU ("IFRS").

Mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101, Fframwaith Datgelu Llai ("FRS 101") Mae'r Rhiant-gwmni wedi defnyddio'r esemptiadau sydd ar gael o dan FRS 101 yng nghyswllt y datgeliadau canlynol:

- Datganiad llif arian a nodiadau cysylltiedig
- Rhai datgeliadau o ran refferiw
- Datgeliadau mewn perthynas â thrafodion gydag is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr
- Datgeliadau mewn perthynas â rheoli cyfalaf
- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 3 Cyfuniadau Busnes mewn perthynas â chyfuniadau busnes a gyflawnir gan y Cwmni; a
- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 13 Mesur Gwerth Teg a'r datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 7 Datgeliadau Offeryn Ariannol.

Paratwir y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol ac eithrio ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol (gan gynnwys deilliadau) wedi'u mesur yn ôl gwerth teg.

Oni nodir yn wahanol, mae'r polisiau cyfrifyddu isod wedi cael eu cymhwyso'n gyson i bob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol hyn.

IFRS sydd newydd eu mabwysiadu ac IFRS a gyhoeddwyd ond nad ydynt wedi'u cymhwyso eto

Mae nifer fach o IFRS sydd newydd gael eu mabwysiadu neu ddiwygiadau i IFRS wedi cael eu mabwysiadu yn y datganiadau ariannol hyn am y tro cyntaf. Yr unig safon newydd a fabwysiadwyd sy'n effeithio ar ffigurau cymharol yn y cyfnod blaenorol yw Treth Ohiriedig sy'n gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Un Trafodiad (Diwygiadau i IAS 12), y mae Nodyn 16 wedi cael ei addasu ar ei gyfer i ddangos asedau a rhwymedigaethau hawl i ddefnyddio gros les IFRS 16 heb unrhyw effaith ar y sefyllfa dreth ohiriedig net. Ar ben hynny, mae nifer o IFRS Mabwysiedig wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt wedi cael eu defnyddio gan y Grŵp yn y datganiadau ariannol cyfunol hyn gan y bydd eu dyddiadau dod i rym yn berthnasol i ddatganiadau ariannol yn y dyfodol. Nid oes disgwyl i'w mabwysiadu gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

Busnes gweithredol

Adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, mae gan gyfarwyddwyr y Cwmni ddisgwyliad rhesymol (yn seiliedig ar sicrwydd fel y nodir isod) y bydd gan TrC gyllid digonol wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gylch gwaith gweithredol ac i barhau mewn bodolaeth weithredol am y cyfnod busnes gweithredol am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol hyn.



Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyr cylch gwaith i TrC, sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer TrC yn ystod tymor presennol y llywodraeth hyd 2026. Mae TrC hefyd yn derbyn llythyr ariannu blynyddol, ac mae'r diweddaraf yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu llythyr o gefnogaeth yn nodi ei bwriad i barhau i ddarparu cyllid (gan gynnwys cyllid parhaus i Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf) am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r cyfrifon hyn. Byddai disgwyl i'r gefnogaeth hon barhau hyd yn oed mewn sefyllfa negyddol (gweler y Datganiad Cydnerthedd am ragor o ystyriaethau).

Felly, mae'r cyfarwyddwyr yn dal i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Mae'r dyfarniadau allweddol y mae TrC yn eu gwneud wrth roi ei bolisiau cyfrifyddu ar waith yn ymwneud â phrisiad y rhwydwaith rheilffyrdd CVL, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfnod dibrisiant (gweler y polisi dibrisiant), a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd i bennu'r amcangyfrifon ar gyfer yr oes ddefnyddiol sy'n weddill, costau iawndal tir a risg. Mae rhagor o fanylion am y tybiaethau hyn a'u sensitifrwydd yn cael eu nodi yn nodyn 8.

Ffynonellau allweddol o ansicrwydd o ran amcangyfrif

Mae TrC yn gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau ar sail profiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Caiff yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff addasiadau eu cydnabod yn y cyfnod lle caiff yr amcangyfrif ei addasu.

Y prif amcangyfrif sy'n effeithio ar y flwyddyn ariannol gyfredol yw prisio ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (gweler nodyn 8).

Refeniw

Mae gan TrC chwe chategori incwm:

- Grantiau'r Llywodraeth (grantiau adnoddau a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill y llywodraeth)
- Prosiectau eraill gyda Llywodraeth Cymru
- Incwm cymhorthdal masnachfrait
- Refeniw teithwyr
- Refeniw cynnal a chadw rheilffyrdd
- Refeniw arall

Grantiau'r Llywodraeth

Grant adnoddau Llywodraeth Cymru

Mae TrC yn cael grant adnoddau gan Lywodraeth Cymru i ad-dalu'r costau gweithredu y mae TrC wedi'u hysgwyddo neu y bydd yn eu hysgwyddo. O ran ad-dalu costau gweithredu, bydd y grant yn cael ei gydnabod fel incwm yn y cyfnod pan ysgwyddir y costau perthnasol, tra bydd y balans sy'n weddill gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddangos fel incwm cronnus neu ohiriedig yn y datganiad am y sefyllfa ariannol. Mae incwm sy'n gysylltiedig â chostau gweithredu'r Cwmni yn ymddangos ar linell ar wahân ar y datganiad incwm.

Grant cyfalaf Llywodraeth Cymru

Mae TrC yn cael grantiau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant cyfalaf o fewn ei gylch gwaith, yn ogystal â chostau wedi'u costio sy'n gymwys ar gyfer cyllid cyllideb cyfalaf o dan Ganllawiau Cyllidebu Cyfunol Trysorlys Ei Mawrhydi. Ar gyfer cyllid grant yng nghyswllt gwariant cyfalaf TrC, mae TrC wedi dewis cyflwyno'r grant fel incwm gohiriedig yn hytrach na thynnu'r grant o swm cario'r ased. Caiff yr incwm ei gydnabod yn y datganiad incwm i gyd-fynd â'r costau perthnasol. Ar gyfer grant cyfalaf, mae hyn yn golygu cydnabod yr incwm dros oes ddefnyddiol yr ased fel bod y grant yn cyfateb i'r tâl dibrisio (h.y. y gost berthnasol). Mae cyllid grant cyfalaf mewn perthynas â chostau traul yn cael ei gydnabod fel incwm yn y cyfnod pan fydd treuliau perthnasol yn codi. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng gwariant a ariennir gan grant a'r grant a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel balans sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru/gan Lywodraeth Cymru yn y datganiad am y sefyllfa ariannol.



Grantiau eraill gan y llywodraeth

Yn ogystal â'r grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, mae TrC yn cael grantiau gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) mewn perthynas â phrosiect trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd (a dderbyniwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ond sydd bellach wedi talu'n uniongyrchol i TrC gan fod rôl y prif fuddiolwr wedi'i throsglwyddo i TrC). Mae'r grantiau hyn yn cael eu trin yr un fath â grantiau Llywodraeth Cymru. Gan fod cyllid ERDF yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau, mae cyllid cronedig yn cael ei gydnabod hyd at werth y gwaith y disgwylir iddo gael ei ariannu gan ERDF ond nid yw'r grant wedi'i dderbyn eto. Caiff hyn ei gyflwyno fel cyllid grant arall wedi cronni gan y llywodraeth o fewn symiau derbyniadwy. Mae TrC hefyd yn cael nifer o grantiau llai gan gyrff eraill y llywodraeth fel cyfraniadau ar gyfer prosiectau penodol.

Prosiectau eraill gyda Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gallu comisiynu TrC i gyflawni gwaith/gwasanaethau eraill sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Bydd swm y referniw a gydnabyddir dros amser yn cael ei fesur gan y cynnydd a wneir tuag at lwyr fodloni'r rhwymedigaeth perfformio (cwm pas y gwaith a nodir yn y prosiect). Mae TrC wedi dewis seilio mesur y referniw ar ddull mewnbwn ar sail y costau a ysgwyddir.

Incwm cymhorthdal masnachfrait

Mae incwm cymhorthdal masnachfrait yn cynrychioli symiau sy'n ddyledus i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru o dan gytundeb grant OLR i sybsideiddio colled gweithredu net y cwmni (ar ôl referniw teithwyr a referniw arall), yn ogystal ag ariannu gwariant asedau cyfalaf penodol.

Mae rhyddhau incwm cymhorthdal masnachfrait i'r datganiad incwm sy'n cyd-fynd â'r gwariant perthnasol (neu ddibrisiant ased mewn perthynas â chyllid cyfalaf).

Referniw teithwyr

Mae incwm teithwyr yn cynrychioli symiau y cytunwyd arnynt fel y'u priodolir i Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gan systemau dyrannu incwm y Rail Settlement Plan Limited ("RSP"), yn bennaf mewn perthynas â derbynebon teithwyr. Mae'r RSP yn gweinyddu'r system dyrannu incwm yn niwydiant rheilffyrdd y DU ac yn dyrannu referniw i weithredwyr yn bennaf ar sail modelau defnydd llwybrau y cytunwyd arnynt. Priodolir incwm yn bennaf ar sail modelau o agweddau penodol ar batrymau teithio teithwyr ac, i raddau llai, o ddyraniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer llifedd referniw penodol. Gall y gyfran a briodolir o incwm tocyn tymor gynnwys rhywfaint o waith amcangyfrif – er enghraifft, mae referniw'n cael ei ohirio ymysg credydwyr a'i ryddhau i'r Datganiad Incwm dros flwyddyn y tocyn tymor perthnasol.

Caiff referniw ei ohirio pan fydd teithwyr yn prynu tocynnau ar gyfer teithio yn ystod cyfnodau ariannol neu docynnau tymor yn y dyfodol. Bydd hwn wedyn yn cael ei ryddhau yn yr un cyfnod ariannol â hyd y daith neu'r tocyn tymor.

Referniw cynnal a chadw rheilffyrdd

Mae incwm cynnal a chadw rheilffyrdd yn cynrychioli referniw a gynhrychir gan Pullman Rail Limited drwy ddarparu gwasanaethau trwsio a chynnal a chadw cerbydau i'r diwydiant rheilffyrdd. Mae referniw yn cael ei gydnabod dros amser, gyda'r swm yn cael ei fesur yn ôl y cynnydd tuag at foddhad llwyr o gwmpas y gwaith a nodir ym mhob contract. Mae'r cwmni wedi dewis seilio'r ffordd o fesur referniw ar ddull mewnbwn ar sail y costau a ysgwyddir, gan nad yw'n gallu mesur canlyniad y contractau sydd ar y gweill yn gywir, ond mae'n disgwyl adennill y costau a ysgwyddir.

Costau contract

Mae'r costau a dynnir wrth gyflawni contractau trydydd parti yn cael eu cydnabod fel ased cyn belled â bod y costau'n ymwneud yn uniongyrchol â chontract neu â chontract a ragwelir, bod y costau'n cynhyrchu neu'n gwella adnoddau a ddefnyddir i fodloni rhwymedigaethau perfformiad yn y dyfodol; ac mae disgwyl i'r costau gael eu hadfer. Cofnodir costau cyffredinol a gweinyddol, neu gostau sy'n ymwneud â rhwymedigaethau perfformiad sydd wedi'u bodloni yn y contract, fel costau pan maent yn digwydd. Caiff ased contract ei amorteiddio ar sail systemig sy'n cyd-fynd â throsglwyddo'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r ased yn berthnasol iddynt i'r cwsmer.

Offerynnau Ariannol

Asedau ariannol

Mae gan y Grŵp ddau fath gwahanol o asedau ariannol, sy'n cael eu categorioedd yn ôl y model busnes ar gyfer rheoli'r ased ariannol a nodweddion llif arian cytundebol yr ased ariannol:

- Masnach, rhyng-grwpiau a symiau derbyniadwy eraill sy'n cael eu categorioedd fel rhai sy'n cael eu dal ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Mae'r rhain yn asedau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol, sy'n cael eu dal i gasglu llifoedd arian cytundebol, lle mae'r llifoedd arian hynny'n cynrychioli prif daliadau a'r llog yn unig. Mae'r asedau hyn wedyn yn cael eu mesur ar sail eu gwerth enwol. Ar bob dyddiad adrodd, bydd y Grŵp yn asesu a oes amhariadau o ran credyd yn gysylltiedig â'r asedau ariannol a gariwyd ar gost wedi'i hamorteiddio. Caiff enillion a cholledion eu cydnabod mewn elw neu golled pan fydd yr ased yn cael ei ddatgydnabod, ei addasu neu fod yn destun amhariad.
- Adnoddau ariannol ymddiogelu ar gyfer tanwydd deilliadol sy'n cael eu categorioedd ar werth teg drwy elw a cholled gyda rhan effeithiol yr ymddiogelu yn cael ei chydabod yn y gronfa ymddiogelu – gweler y Deilliadau isod.

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu yn ôl sylwedd y trefniadau cytundebol. Mae rhwymedigaethau ariannol y Grŵp yn golygu symiau masnach taladwy sy'n cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, ac unrhyw offerynnau ariannol deilliadol sy'n cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen.

Deilliadau a gweithgareddau ymddiogelu

Mae'r Grŵp yn cyfrif am un eitem sy'n deillio o hyn, gwrych llif arian sefydlog ar gyfer tanwydd cerbydau, sy'n cael ei ddefnyddio i guddio'r ffaith ei fod yn agored i amrywiadau mewn prisiau tanwydd. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel gwerth teg. Mae'r rhan effeithiol o ennill neu golli o ran y gronfa ymddiogelu tanwydd yn cael ei chydabod yn uniongyrchol yn y gronfa ymddiogelu. Caiff unrhyw gyfran ymddiogelu aneffeithiol ei chydabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau eu cydnabod i ddechrau ar sail cost, sy'n cynnwys pris prynu neu gost adeiladu, yn ogystal ag unrhyw gostau y gellir eu priodoli i gael yr asedau yn y lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol er mwyn gallu eu gweithredu (e.e. costau gweithwyr y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, cost paratoi a chlirio'r safle, costau danfon a thrin cychwynnol, costau gosod a chydodod a ffioedd proffesiynol).

Mae'r categori Asedau Rhwydwaith y Rheilffyrdd yn cael ei fesur yn ôl ei werth teg – gweler isod. Hefyd, mae asedau seilwaith rheilffyrdd gweithredol eraill ac asedau eiddo nad ydynt yn rhan o rwydwaith rheilffyrdd CVL yn cael eu hailbrisio. Mesurir categorïau eraill o eiddo, offer a chyfarpar gan ddefnyddio'r gost a oedd yn berthnasol gan dynnu colledion yn sgil amhariadau a dibrisiant sydd wedi cronni.

Rhwydwaith Rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd arall

Ar 28 Mawrth 2020, cafodd TrC rai Asedau Rhwydwaith Rheilffyrdd a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) gan Network Rail. Roedd y caffaeliad hwn yn cynnwys rheilffyrdd Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymini a Threherbert.

Mae'r seilwaith rheilffyrdd, y gorsafoedd, y pontydd a'r asedau eraill hyn yn rhan o rwydwaith integredig arbenigol sy'n gwasanaethu ardal ddaearyddol ac felly maent wedi cael eu trin yn gyfwerth â'r canllawiau o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF ("FReM") ar gyfer asedau rhwydwaith (y mae rhiant TrC, Llywodraeth Cymru, yn eu defnyddio yn ei chyfrifon cyfunol). Rydym o'r farn bod y dull hwn yn rhesymol o dan IFRS gan fod IAS 16 yn llai rhagnodol yn ei brisiad, ac mae'r FReM yn darparu dehongliadau ychwanegol.



Mae asedau eiddo eraill sy'n eiddo i TrC sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd sy'n rhan o'r llwybr y mae Network Rail yn berchen arnynt ac nad ydynt yn rhan o CVL yn cael eu cynnwys fel seilwaith rheilffyrdd arall a'u hailbrisio ar wahân i rwydwaith rheilffyrdd CVL.

Mae gwerth teg rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd yn seiliedig ar Cost amnewid wedi'i dadbrisio (DRC), oherwydd ei fod yn ased arbenigol sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd. I gynhyrchu'r prisiad hwn, mae angen defnyddio tybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Caiff y DRC ei gyfrifo drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith CVL yn gyntaf. Mae'r gost amnewid gros wedyn yn cael ei haddasu (neu "ddibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros addasedig hon yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am dybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfwerth modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond sy'n cael ei adeiladu gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern; ac
- adeiladu ar unwaith ar safle maes glas.

Er mwyn cyrraedd prisiad terfynol y DRC, caiff y gwerth amnewid gros ei addasu i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o weddill oes ddefnyddiol yr asedau, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith. Cynhelir prisiad llawn bob pum mlynedd o leiaf, gyda mynegeion chwyddiant yn cael eu cymhwyso i restr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim. Mae angen dyfarniad i bennu natur ased cyfwerth modern a chyflwr cyfredol yr asedau.

Mae prisiad Asedau Cyfatebol Modern yn defnyddio 'cydrannau' y gellir eu haildrodd, sy'n cael eu cyfuno i ffurfio'r rhwydwaith. Dyma'r cydrannau:

- Cloddwaith
- Strwythurau
- Trydaneiddio, peiriannau a signalau
- Eiddo gweithredol
- Cledrau
- Telegyfathrebiadau

Mae pob gwaith adnewyddu sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd yn cael ei gyfalafu. Mae gwariant dilynol sy'n ychwanegu at wasanaethau neu oes rhwydwaith CVL yn cael ei gyfalafu.

Mae gwelliannau a gwaith adnewyddu i ased Llinellau Craidd y Cymoedd yn cael eu cynnwys fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, nes eu bod yn cael eu defnyddio, pan fydd yr ased yn cael ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio Gan DRC.

Cymerir symudiadau mewn gwerth am i fyny i'r gronfa ailbrisio. Mae symudiadau i lawr mewn gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw gredyd sy'n cael ei ddal yn y gronfa ailbrisio nes bydd y credyd wedi dod i ben ac wedi'i wario yn y Datganiad Incwm.



Dibrisiant

Caiff dibrisiant ei godi ar y Datganiad Incwm ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol amcangyfrifedig pob rhan o eitem, offer neu gyfarpar. Mae'r amcangyfrif o'r oes ddefnyddiol ar gyfer asedau a ddelir ar sail cost fel a ganlyn:

- Gosodiadau a ffitiadau 5-7 mlynedd
- Offer a pheiriannau 5-10 mlynedd
- Adeiladau ≤ 25 mlynedd
- Gwella Eiddo 2 mlynedd
- Offer Cyfrifiadurol 3-5 mlynedd
- Cerbydau modur 3 mlynedd
- Cerbydau ≤ 35 mlynedd

Caiff cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd eu dibrisio dros yr amcangyfrif o'u hoes economaidd ddefnyddiol sy'n weddill. Mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer amrywiaeth o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Mae'r cyfartaleddau pwysedig hyn yn cael eu crynhoi isod:

- Gwaith tir 93 mlynedd
- Strwythurau 24 mlynedd
- Signalau 16 mlynedd
- Trydaneiddio a pheiriannau 37 mlynedd
- Eiddo gweithredol 25 mlynedd
- Trac 14 mlynedd
- Telegyfathrebiadau 6 mlynedd

Mae hon yn ddyfarniad critigol yn seiliedig ar y data sydd ar gael i TrC, ac mae angen dyfarniad gofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu disodli'n aml, fel strwythurau a gwaith tir. Mae rhai cydrannau'n gallu byw bywydau hir iawn, ond ar gyfer y cyfrifiad dibrisiant blynyddol, mae'r bywydau sy'n weddill yn cael eu capio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Bydd dulliau o gyfrifo dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad pob datganiad am y sefyllfa ariannol.

Asedau ac ewyllys da anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn bennaf yn cynnwys trwyddedau meddalwedd ac eiddo deallusol sy'n cael eu hamorteiddio dros 5-10 mlynedd ac asedau perthynas cwsmeriaid sy'n deillio o gaffael Pullman Rail Limited sy'n cael eu hamorteiddio dros 5 mlynedd. Ar ben hynny, mae gan y Grŵp ewyllys da sy'n gysylltiedig â chaffael Pullman Rail yn 2021/22 nad yw'n cael ei amorteiddio ond sy'n cael ei brofi bob blwyddyn am amhariad.

Buddion i gyflogeion

Cynlluniau pensiwn

Mae'r Grŵp yn nodi dau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn ogystal â chynlluniau cyfraniadau diffiniedig sydd wedi'u costio yn y datganiad incwm. Dyma'r cynlluniau buddion diffiniedig:

- Adran TrC o'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd yng nghyswllt staff sydd wedi trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau CVL.
- Adran Gwasanaeth Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o Gynllun Pensiwn Rheilffyrdd mewn perthynas â staff sy'n trosglwyddo o Keolis Amey o dan drefniadau Gweithredwr y Dewis Olaf.

Mae'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd (RPS) yn gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio sy'n berthnasol i holl ddiwydiant rheilffyrdd y DU. Yn wahanol i'r cynlluniau pensiwn a weithredir gan y rhan fwyaf o fusnesau, mae RPS yn gynllun rhannu costau sy'n golygu bod costau'n cael eu rhannu'n ffurfiol - 60% gan gyflogwyr a 40% gan weithwyr. Dim ond mewn perthynas â'i gyfran o gostau yn y datganiad incwm y mae'r Grŵp yn cydnabod symiau. Mae'r cyfrifyddu ar gyfer pob adran o'r cynllun yn amrywio fel y nodir isod:

Adran TrC

Cyfrifir rhwymedigaeth net y Grŵp mewn perthynas ag Adran TrC drwy amcangyfrif faint o fudd y mae gweithwyr wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol. Caiff y budd hwnnw ei ddiystyru i bennu ei werth presennol, a chaiff gwerth teg asedau unrhyw gynllun (pris y cais) eu didynnu, gydag addasiad terfynol i gydnabod cyfran y cyflogwr o'r rhwymedigaeth net fel y nodir uchod.

Mae'r Grŵp yn pennu'r llog net ar yr atebolrwydd/(ased) buddion diffiniedig net ar gyfer y cyfnod drwy gymhwysu'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur yr atebolrwydd buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod blynyddol i'r rhwymedigaeth/(asedau) buddion diffiniedig net. Y gyfradd ddisgownt yw'r arenillion (yield) ar y dyddiad adrodd ar y bondiau sydd â statws credyd sydd o leiaf yn AA ac sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau rhwymedigaethau'r Grŵp ac sydd wedi'u trosi i'r arian cyfred y disgwylir talu'r buddion ynddo.

Mae'r aifesuriadau sy'n deillio o gynlluniau buddion diffiniedig yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraid, yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio llog) ac effaith y terfyn asedau (os oes rhai, heb gynnwys llog). Mae'r Grŵp yn eu cydnabod ar unwaith mewn incwm cynhwysfawr arall a'r holl dreuliau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau buddion diffiniedig mewn treuliau budd-daliadau gweithwyr mewn elw neu golled.

Gwneir cyfrifiad rhwymedigaethau'r buddion diffiniedig gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau credyd. Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at fudd i'r Grŵp, mae'r ased cydnabyddedig wedi'i gyfyngu i werth presennol y buddion sydd ar gael ar ffurf unrhyw ad-daliadau yn y dyfodol o'r cynllun neu ostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol ac mae'n ystyried effaith andwyol unrhyw ofynion cyllido sylfaenol.

Adran Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf

Dim ond dros gyfnod Cytundeb Grant Gweithredwr y Dewis Olaf y mae gan y Grŵp ddyletswydd i ariannu Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf o'r cynllun. Ar ddiwedd cyfnod y contract, y cyfrifoldeb dros ariannu'r adran berthnasol o'r cynllun, ac o ganlyniad mae unrhyw ddiffyg neu warged sy'n bodoli ar y dyddiad hwnnw yn cael ei drosglwyddo i'r gweithredwr nesaf neu'n ôl i Lywodraeth Cymru. Gan nad oes gofyniad i wneud cyfraniadau i ariannu'r diffyg presennol, tybir y bydd yr holl ddiffyg presennol yn cael ei ariannu gan y gweithredwr nesaf neu Lywodraeth Cymru. Felly, ar ddyddiad pob mantolen, cydnabyddir 'addasiad masnachfaint' i wrthbwysu swm yr ased neu'r rhwymedigaeth pensiwn net. Mae'r 'addasiad rhyddfrenio addasu contract' yn cael ei fesur ar sail y swm y disgwylir iddo gael ei drosglwyddo i'r gweithredwr nesaf neu i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd Cytundeb Grant Gweithredwr y Dewis Olaf.

Pan gydnabyddir costau gwasanaeth yn y datganiad incwm, mae 'addasiad masnachfaint' yn gwrthbwysu elfen o'r costau gwasanaeth a fyddai fel arall yn parhau ar ôl adlewyrchu'r rhannu costau gyda'r aelodau. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth y cwmni o'r sefyllfa gyfreithiol y bydd rhai o gostau'r gwasanaeth yn y flwyddyn gyfredol yn cael eu hariannu yn y blynyddoedd i ddod ar ôl cyfnod y fasnachfaint bresennol a chyfraniadau wedi'u hymrwymo. Yn absenoldeb canllawiau penodol ar y mater hwn, mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn mai cydnabod 'addasiad rhyddfrenio' yn y datganiad incwm i wrthbwysu'r costau gwasanaeth gormodol yw'r adlewyrchiad mwyaf priodol o werth y



gwasanaethau y gellir eu priodoli i'r Cwmni, ac mae'n adlewyrchu'n fwy cywir y treuliau a ysgwyddir gan y Cwmni mewn perthynas â gweithredu contract y fasnachfaint.

O dan amgylchiadau lle mae cyfraniadau'n cael eu hail-negodi, fel yn dilyn prisiad statudol, bydd addasiad yn cael ei gydnabod yn y datganiad incwm, tra bydd newidiadau mewn tybiaethau actiwaraid yn parhau i gael eu cydnabod drwy incwm cynhwysfawr arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn mai dyma'r dehongliad mwyaf priodol o IAS 19 i adlewyrchu amgylchiadau penodol cytundeb y fasnachfaint gyda Llywodraeth Cymru lle mai ymrwymiad y contract yw talu cyfraniadau yn unig yn ystod cyfnod Cytundeb Grant Gweithredwr y Dewis Olaf.

Byddai dull amgen yn golygu peidio â chyfyngu ar fesur cost y gwasanaeth drwy gydnabod datganiad incwm 'addasiad rhyddfrenio contract' ond gan gydnabod pob newid yn yr 'addasiad rhyddfrenio contract' mewn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Darpariaethau

Mae darpariaethau'r Grŵp yn ymwneud â dadfeiliadau ar gyfer prydlesi eiddo penodol a hawliadau hunanyswiro sy'n ymwneud â seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Mae darpariaeth dadfeiliadau yn cael ei chyfalafu fel rhan o gost yr ased ar ddechrau prydlesi eiddo pan, o ganlyniad i welliannau lesddaliad a wnaed ar ddechrau'r prydlesi, bydd angen gwariant sylweddol i ddychweyd yr eiddo i'w gyflwr ar ddechrau'r brydles. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar werth net presennol y llifoedd arian yn y dyfodol a ddisgwylir i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y brydles ac fe'i hadolygir ar ddyddiad pob mantolen. Nid yw'r disgownt wedi'i rwymo drwy'r datganiad incwm tan ddiwedd cyfnod y brydles.

Disgwylir i'r ddarpariaeth hunanyswiro ddod i ben yn llwyr yn ystod y cyfnod nesaf ac felly nid oes angen disgownt. Y ddarpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r hawliadau ar ddyddiad y fantolen.

Lesoedd

Fel lesddeiliad

Mae gan y Grŵp nifer o brydlesi, yn bennaf mewn perthynas â cherbydau rheilffordd yn ogystal ag asedau eiddo penodol.

Ar ddyddiad dechrau'r brydles (fel arfer pan fydd yr ased ar gael i'w ddefnyddio), mae'r Grŵp yn cydnabod ased hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydles. Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur i ddechrau yn ôl y gost, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y brydles a addaswyd ar gyfer unrhyw daliadau prydles a wnaed ar neu cyn y dyddiad cychwyn, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a gafwyd ac amcangyfrif o gostau adfer yr ased sylfaenol (e.e. costau dadfeiliad), llai unrhyw gymhellion les a gafwyd.

Caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei ddibrisio wedyn gan ddefnyddio'r dull llinell syth o'r dyddiad dechrau hyd ddiwedd tymor y les.

Mesurir atebolrwydd y brydles i ddechrau ar sail gwerth presennol taliadau'r brydles nad ydyn nhw'n cael eu talu ar y dyddiad cychwyn, eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles neu, os na ellir pennu'r gyfradd honno'n rhwydd, cyfradd fenthycy gynyddrannol y Grŵp. Mae'n cael ei ail-fesur pan fydd taliadau les yn y dyfodol yn newid.

Lesoedd tymor byr a lesoedd asedau gwerth isel

Mae'r Grŵp wedi dewis peidio â chydabod asedau hawl i ddefnyddio ac atebolrwydd prydlesu ar gyfer prydlesi asedau gwerth isel a phrydlesi tymor byr. Mae'r Grŵp yn cydnabod taliadau'r brydles sy'n gysylltiedig â'r lesoedd hyn fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Ffioedd mynediad i'r cledrau, y depos a'r gorsafoedd

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn wynebu ffioedd mynediad cledrau, gorsafoedd a depos gan Amey (mewn perthynas â CVL) a Network Rail (mewn perthynas â gweddill y rhwydwaith rheilffyrdd) nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes unrhyw ased wedi'i nodi yn bodoli neu nad oes gan y Grŵp hawl i gaffael yr holl fuddion economaidd yn sylweddol, o ddefnyddio'r asedau drwy gydol y cyfnod defnyddio, neu fod Network Rail / Amey, nid y Grŵp, yn cyfarwyddo sut ac i ba ddiben y mae'r asedau'n cael eu defnyddio.



2. Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid

Dadgyfuno refeniw

Yn y tabl canlynol, mae'r refeniw yn cael ei rannu yn ôl llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr ac amser cydnabod y refeniw.

	2024 £000	2023 £000
Llinellau gwasanaeth/cynhyrchion mawr		
Grant refeniw craidd Llywodraeth Cymru	42,581	43,641
Rhyddhau grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn unol â dibrisiant ac amhariad	45,748	52,555
Grant cyfalaf craidd Llywodraeth Cymru (wedi'i wario)	22,840	24,791
Prosiectau ymgynghoriaeth eraill Llywodraeth Cymru	15,805	10,994
Cymhorthdal masnachfrait	345,620	262,808
Derbynebion teithwyr	148,397	129,282
Refeniw cynnal a chadw rheilffyrdd	30,572	24,430
Incwm arall	66,316	79,295
Cyfanswm	717,879	627,796
Amseru trosglwyddo nwyddau neu wasanaethau		
Incwm grant wedi'i gyfrifo o dan IAS 20	442,885	369,326
Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd ar bwynt penodol	214,532	211,006
Cynhyrchion a gwasanaethau a drosglwyddwyd dros amser	52,958	42,585
Incwm rhent y cyfrifwyd amdano dan IFRS 16	7,504	4,879
Cyfanswm	717,879	627,796

Mae refeniw arall yn cynnwys gwasanaethau ymgynghori a chanolfannau cyswllt trafnidiaeth a ddarperir i drydydd partion, incwm rhent, ffioedd mynediad i orsafoedd, gwerthu tanwydd, incwm cynnal a chadw, gwerthiannau ac ad-daliadau arlwy ar drenau.

Balansau contract

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am werthoedd agor a chau symiau derbyniadwy, asedau contract a rhwymedigaethau contract o gontractau gyda chwsmeriaid, heb gynnwys incwm grant.

	Nodyn	Grŵp		Cwmni	
		2024 £000	2023 £000	2024 £000	2023 £000
Symiau derbyniadwy (masnach a dyledus gan gwmnïau grŵp eraill)	12	34,761	22,555	24,559	26,936
Asedau contract (incwm cronodig)	12	16,845	17,580	7,157	9,878
Rhwymedigaethau contract (incwm gohiriedig)	14	(20,687)	(20,254)	(15,977)	(14,205)
Cyfanswm		30,919	19,881	15,739	22,609



Mae'r asedau contract yn ymwneud â hawliau TrC i gael cydnabyddiaeth am waith sydd wedi'i gwblhau ond heb gael ei filio ar y dyddiad adrodd ar wasanaethau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru (incwm cronedig). Bydd asedau contract yn cael eu trosglwyddo i fod yn symiau derbyniadwy pan fydd yr hawliau'n dod yn ddiamod. Disgwylir y bydd yr holl asedau contract yn cael eu hanfonebu yn ystod 2024/25.

